# Rhaglen Gyflawn

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD MERCHER, 16EG CHWEFROR, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

***(i gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 09/02/22)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Meirion Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Cemlyn Rees Williams | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Rosalind Williams | Eglwys yng Nghymru |
| Claire Armitstead | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Richard Collet | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Jonathan Morgan | Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwr |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir y Fflint |
| Garem Jackson | Cyngor Gwynedd |
| Rhys Howard Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |
| Susan Owen Jones | Rheolwr Busnes GwE |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 10 TACHWEDD, 2021** 5 - 10

(copi ynghlwm)

**5. CYLLIDEB GWE 2021-22 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** 11 - 16

Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

**6. CYLLIDEB SYLFAENOL 2022-23** 17 - 21

Adroddiad gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

**7. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2021-22 GWE - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3** 22 - 76

Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE.

**8. ADRODDIAD CYNNYDD AR Y DAITH DDIWYGIO TYMOR YR HYDREF 2021** 77 - 101

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE.

**9. ADOLYGU STRWYTHUR Y TIM BUSNES** 102 - 103

Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE.

**10. CYFLAWNI'R DAITH I WEITHREDU'R CWRICWLWM - CYMORTH I YSGOLION** 104 - 107

Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE.

**11. LLYTHYR I'R GWEINIDOG ADDYSG YNGHYLCH CYFRES GYMWYSTERAU 2021-22 A'I YMATEB** 108 - 119

Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE.

**12. CYTUNDEB RHANNU GWYBODAETH AM DDISGYBLION Y RHANBARTH** 120 - 134

Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE.

**13. CALENDR CYFARFODYDD 2022-23** 135 - 137

Adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE.

**CYD-BWYLLGOR GWE – 10 Tachwedd 2021**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

**Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais:** Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

**Swyddogion yn bresennol:** Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn) Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd, Cyngor Gwynedd - Yr Awdurdod Lletyol), Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Sioned Owen (Archwilio Cymru), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE), a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

**Eraill a wahoddwyd:** Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Y Cynghorydd Phil Wynn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Cydbwyllgor.

**2. ETHOL IS GADEIRYDD**

Etholwyd Y Cynghorydd Meirion Jones, Cyngor Sir Ynys Môn, yn Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor hwn.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol; Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dymunwyd yn dda i Annwen Morgan ar ei hymddeoliad a diolchwyd am ei holl waith ymroddgar fel aelod o'r Cyd-bwyllgor.

Dymunwyd yn dda i Dafydd Edwards ar ei ymddeoliad a diolchwyd iddo am ei waith amhrisiadwy dros y blynyddoedd mewn perthynas â chyllid GwE.

Ategodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y byddai colli dau aelod pwysig iawn yn hanes sefydlu GwE yn un enfawr i'r sefydliad.

Nododd bod Annwen Morgan wedi cynrychioli penaethiaid, fel pennaeth addysg ac fel prif weithredwraig, a chynigiodd arweiniad doeth cyson a chadarn i GwE.

Diolchodd i Dafydd Edwards am ei gyngor cadarn a chlir ac am fod yn gyfaill da i GwE ar faterion tu hwnt i arbenigedd swyddogion. Ategodd bod cyngor doeth Dafydd parthed trefniant cyllidol yn ogystal â'i ragweliadau wedi bod yn arbennig i GwE.

Tymor Arholiadau 2022

Nodwyd nad oedd Blwyddyn 12 wedi cael profiad o arholiadau allanol, a gyda lefelau Covid yn dal yn uchel, awgrymwyd y dylid anfon llythyr at y Gweinidog Addysg, ar ran y Cyd-bwyllgor hwn, yn pwyso am eglurder ynglŷn â thymor arholiadau 2022, a bod y penderfyniad hwnnw'n cael ei adrodd i ysgolion a disgyblion cyn y Nadolig.

Ategwyd y sylwadau hyn gan aelodau eraill. Nodwyd:-

- Ei bod yn bwysig cael penderfyniad cadarn ac amserol ar y mater.
- Pe na chynhelid arholiadau allanol yn 2022, bod angen bod yn glir beth yw'r gofynion fel y gall yr ysgolion a'r bobl ifanc baratoi ar gyfer hynny.
- Y dylai'r mater gael ei godi gyda Chymwysterau Cymru a CBAC.

Cytunwyd i lythyru'r Gweinidog ar hyd y llinellau hyn, gan hefyd rannu pryder y Cyd-bwyllgor ymysg aelodau a chyfarwyddwyr.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar yr 22ain o Fedi 2021 yn gywir.

## 7. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r adroddiad ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2020/21, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr Cynrychiolaeth ar ran y Cydbwyllgor.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Cyllid statudol GwE gan nodi fod yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfrifon cyn archwiliad a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor ym mis Mai, 2021. Diolchwyd i staff Gwynedd, ac i Archwilio Cymru am archwilio GwE am y tro cyntaf. Nododd ei fod yn adroddiad glan sydd i'w groesawu. Mynegwyd nad oedd unrhyw newid sylweddol i'r cyfrifon yn dilyn y cyfarfod hwnnw a bod y cywiriadau wedi eu cyfyngu i'r nodiadau. Ategodd nad oedd y mân addasiadau yn newid y prif ddatganiadau.

Cyflwynodd Sioned Owen (Archwilio Cymru) y prif bwyntiau ar y cyfrifon a thynnwyd sylw'r Cydbwyllgor at eu bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio yn ddiamod.
Diolchwyd i'r tîm cyllid am eu cymorth yn archwilio am y tro cyntaf o dan amodau heriol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ganiatáu i'r Cadeirydd ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), arwyddo'n electronig y Cyfrifon a'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru).

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:
- Croesawyd Archwilio Cymru i'w cyfarfod cyntaf o'r Cydbwyllgor. Hefyd, diolchwyd i'r tîm cyllid.
- Diolchwyd i Dafydd a'r tîm am eu gwaith gan nodi bod eu gwaith wedi bod yn gryfder gan GwE.

**8. CYLLIDEB GWE 2021-2022 - ADOLYGIAD CHWARTER 2**

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad.

TRAFODAETH:

Diweddarwyd aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidebol 2021/22. Nodwyd fod cyllideb 2021/22 GwE dan reolaeth, er gwaethaf effaith parhaus Covid-19.

Nododd bod tanwariant o oddeutu £80,000. Eglurodd bod effaith Covid-19 yn parhau yn nhermau ymweliadau ysgolion, ategodd bod y rhain wedi ail gychwyn ond nad ydynt ar yr un raddfa.

Eglurodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod y gronfa tanwariant yn cynnwys oddeutu £643,000. Nododd y bydd cyfran helaeth o hwn yn mynd i ysgolion er mwyn creu capasiti ynddynt i wynebu heriau'r agenda trawsnewid. Byddai cynnwys y gwariant yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Rheoli er mwyn sicrhau bod y Cyfarwyddwyr yn gyfforddus gyda chyfeiriad y gwariant.

**9. GRANT DATBLYGU DISGYBLION 2021-22**

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad er gwybodaeth gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE. Eglurodd na chafodd ei drafod yn gynt yn y flwyddyn oherwydd yr etholiadau ym mis Mai.
Cyfeiriwyd at fanylder y cynlluniau sy'n barhad o gynlluniau a roddwyd mewn lle yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Eglurodd bod y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth agos gydag awdurdodau lleol i adnabod blaenoriaethau.

Nododd bod cwestiynau yn aml yn codi ar sail y dyraniad ac eglurwyd hyn i'r Cydbwyllgor. Aethpwyd ati i egluro i'r Cydbwyllgor bod yr arian yn cael ei ddefnyddio ar lefel clwstwr ac i ariannu prosiectau rhanbarthol.
Cyfeiriodd at y dashfwrdd sydd wedi ei osod ar gyfer y grantiau i helpu ysgolion efo cynllunio ac i adrodd ar gynnydd.
Eglurodd eu bod yn annog yr ysgolion i gwblhau'r gwaith fel bod darlun o'r gwariant yn ogystal ag i helpu i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar y gwariant.

I gloi, nododd bod trafodaeth ar y gweill i ystyried ai dyma'r model cyllido fwyaf priodol i ariannu cinio am ddim.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:
- Mynegwyd bod cynnydd yn y nifer o blant sy'n gymwys ar gyfer prydau am ddim dros y deunaw mis diwethaf ac o ganlyniad, gofynnwyd i weld data mwy diweddar oherwydd hyn.
- Ategodd at hyn gan nodi bod angen cynyddu'r dyraniad er mwyn ymdopi a'r cynnydd niferoedd.

Mewn ymateb nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:
- Bod hwn yn agenda cymhleth ac o safbwynt addysg mae ysgolion yn dibynnu ar y cyllid i sicrhau darpariaeth e.e. i gyflogi staff cefnogol. Ategodd os oes unrhyw newid, bydd effaith ar weithrediad yr ysgolion.
- Argymhellwyd y dylid gwahodd Yr athro David Egan i'r Cydbwyllgor fel bod cyfle i fwydo mewn i'r gwaith.

**10. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2021-2022 GWE - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 2**

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 2.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE a diolchwyd i'r Rheolwr Rheoli Perfformiad am dynnu'r adroddiad at ei gilydd.

Atgoffwyd y Cydbwyllgor bod 6 amcan i'r cynllun busnes a chyfeiriwyd at yr atodiadau sy'n cynnwys naratif o gynnydd yn erbyn yr amcanion ac atodiad 2 sy'n cynnwys data rhanbarthol ar ymgysylltu gan yr ysgolion a'u staff. Ategodd bod cofnod lleol o'r data rhanbarthol yn cael ei baratoi ar gyfer pob awdurdod yn unigol a gaiff ei rannu drwy'r byrddau ansawdd sirol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:
- Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd hyder yn y cynnwys a roddwyd gerbron y Cydbwyllgor.

**11. CEFNOGI POB YSGOL GYDA'R CWRICWLWM I GYMRU: DATBLYGU RHWYDWEITHIAU LLEOL A RHANBARTHOL CWRICWLWM I GYMRU**

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE a chyfeiriodd at y ddogfen a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ar ddechrau'r tymor a oedd yn nodi'n glir iawn y dewis ar gyfer disgyblion yn y sector Uwchradd.

Ategodd eu bod yn ymgynghori ar strategaeth GwE ac un o brif linynnau'r strategaeth yw cefnogaeth ar gyfer y cwricwlwm. Nododd bod yr Athro Graham Donaldson yn eistedd yn y grwpiau rhanbarthol yn cynghori ar gyfeiriad yr ymgynghoriad.

Eglurodd bod ysgolion yn amrywio o ran sut maent wedi ymgymryd â'r newidiadau ar gyfer y cwricwlwm a bod y sefyllfa bresennol wedi rhoi cyfle i ganolbwyntio ar addysgeg a sgiliau digidol. Ategodd bod tystiolaeth o gydweithio ardderchog ar draws y Gogledd ag eglurodd bod gwahoddiad agored i ysgolion ar draws y rhanbarth i adnabod aelodau blaenllaw yn eu cynghreiriau i fod yn rhan o rwydweithiau. Ategodd bod y rhain ar gyfer y meysydd dysgu profiad, rhwydwaith arall ar ddylunio cwricwlwm ac un arall ar gyfer asesu.

Gan ymestyn ar y pwynt yma, nododd bod oddeutu 600 o ymarferwyr yn rhan o'r rhwydweithiau a rhagwelir bydd y niferoedd yn tyfu wedi i'r cyfnod cyntaf. Eglurodd y bydd angen modd o gyllido hyn ac awgrymodd y dylai fod hyn yn brif fwriad defnydd arian wrth gefn.

Mewn perthynas â'r drefn asesu, nododd eu bod yn aros am ganllaw pellach gan y Llywodraeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad diddorol, balch o weld Yr Athor Graham Donaldson yn rhan o'r gwaith.

- Ategwyd bod yr adroddiad yn dangos eglurder ar beth sydd angen ar ein disgyblion
- Holwyd a ydi'r brwdfrydedd yn parhau yn weledol o fewn y rhwydweithiau, ymysg yr ymarferwyr.
- Nodwyd pryder gyda'r drefn o ddisgwyl i ysgolion darparu staff i fynychu'r sesiynau fel rhan o'r rhwydweithiau os oes diffyg staff oherwydd Covid-19.
- Gofynnwyd am eglurder ar asesiadau er mwyn sefydlu os yw ysgolion Uwchradd angen mwy o amser i benderfynu pa bryd i gychwyn ar y cwricwlwm newydd.
- Ategodd aelod y bwriedir i ysgolion Uwchradd Sir Ddinbych gychwyn yn 2022.

Mewn ymateb nododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y pwyntiau canlynol:

- Yn gyffredinol mae ysgolion yn awyddus i fod yn rhan o'r agenda i'w symud yn ei flaen.
- Ategodd bod rhwystrau am godi o fod yn rhan o'r rhwydweithiau oherwydd amgylchiadau'r pandemig yn yr ysgolion, yn arbennig ysgolion bach. Fodd bynnag, pwysleisiodd bwysigrwydd bod y drafodaeth yn digwydd ar lefel clwstwr fel bod aelod sydd yn mynychu yn adrodd yn ôl i'r rhai na ellir gwneud.
- Ar yr un trywydd, ychwanegodd y rhagwelir y bydd mwy yn dod i mewn unwaith y byddant yn gweld ymarferoldeb yr agenda.
- O ran safbwynt cynllunio pa bryd i gychwyn, nododd bod modd i wneud yn 2022 neu 2023. Ategodd bod angen gweithio efo'r ysgolion fel bod modd esblygu'n raddol i'r drefn newydd.
- Cytunodd a'r aelod a nododd bod llawer o ysgolion Uwchradd wedi nodi eu dymuniad i gychwyn y cwricwlwm yn 2022, lle bo eraill yn dibynnu ar amgylchiadau a'u parodrwydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 14:40.

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 16 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 3ydd Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Mae'r adolygiad 3ydd chwarter yn amcangyfrif tanwariant net o (£16,289) yn erbyn y gyllideb (sefyllfa lled niwtral yng nghyd-destun cyfanswm gwariant gros dros £17m).

1.2 Mae effaith Covid-19 yn parhau i effeithio ar benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr**

**Chwarter 3: tanwariant (£70,371)** *Chwarter 2: tanwariant (£62,691)*

Rhagwelir sefyllfa o danwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 21/22 yn bennaf oherwydd trosiant staff, ynghyd ag arbediad bychan ar gostau eraill sydd yn gysylltiedig â staff (hyfforddiant, hysbysebu a.y.y.b). Rhagwelir cynnydd yn y tanwariant oherwydd trosiant staff, yn bennaf y swydd Rheolwr Busnes.

2.2 **Adeilad:**

**Chwarter 3: gorwariant £56,833** *Chwarter 2: gorwariant £58,883*

Mae'r gyllideb yma yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil y pandemig mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd rhithiol.

Erbyn hyn, mae defnydd bychan wedi cael ei wneud o'r swyddfeydd, gyda swyddogion yn cyfarfod wyneb yn wyneb ond wrth gadw pellter cymdeithasol. Ni ragwelir y bydd hyn yn sylweddol, ond yn debygol o ddenu incwm bach oherwydd ei defnydd gan brosiectau penodol.

2.3 **Cludiant:**

**Chwarter 3: tanwariant (£102,751)** *Chwarter 2: tanwariant (£75,862)*

Mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn, ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid. Mae sefyllfa Covid yn parhau i gael effaith, gyda hawliadau teithio yn dipyn llai i'r hyn rhagwelir yn y chwarter diwethaf. Bydd y pennawd yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio.

2.4 **Prosiectau Penodol:**

**Chwarter 3: gorwariant £100,000** *Chwarter 2: niwtral*

Er adroddir ar sefyllfa o danwario ar gyllidebau craidd, bwriedir cyflymu gwariant ar gynlluniau mewnol a grantiau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol lle fu'n bosib. O wireddu'r cynlluniau hyn fe ragwelir y bydd sefyllfa net yr holl wasanaeth yn agos i gyllideb gytbwys, gyda gwariant pellach ar gynlluniau yn bwyta mewn i dan wariannau cyllidebau craidd megis y gyllideb Costau Teithio a.y.y.b.

## 3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd £563,530.

3.2 Yn seiliedig ar rhagolygon y sefyllfa bresennol fe amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £579,819 ar ddiwedd 2021/22, yn dilyn ychwanegiad y tanwariant o £16,289 a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 3ydd Chwarter.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2021/22 : 3ydd Chwarter Hydref - Rhagfyr 2021

| | Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 2) | Addasiadau Cyllideb (Chwarter 3) | Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 3) | Gwariant Rhagwelir | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 3) | Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Gweithwyr | | | | | | |
| Cyflogau | | | | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 869,341 | (4,807) | 864,534 | 786,693 | (77,841) | (72,236) |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 3,860,941 | (9,470) | 3,851,471 | 3,777,793 | (73,678) | (26,250) |
| - Staff ar Secondiad | 147,071 | | 147,071 | 147,071 | 0 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (1,765,533) | 14,277 | (1,751,256) | (1,665,448) | 85,808 | 41,115 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 42,588 | | 42,588 | 37,928 | (4,660) | (5,320) |
| | | | | | | |
| Adeilad | | | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 173,245 | | 173,245 | 173,245 | 0 | 0 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (58,833) | | (58,833) | (2,000) | 56,833 | 58,833 |
| | | | | | | |
| Cludiant | | | | | | |
| Costau Teithio | 137,264 | | 137,264 | 34,513 | (102,751) | (75,862) |
| | | | | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 72,980 | | 72,980 | 72,980 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 16,496 | | 16,496 | 16,496 | 0 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 11,454 | | 11,454 | 11,454 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Broceru | 288,698 | | 288,698 | 288,698 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | | |
| Cyfreithiol | 5,726 | | 5,726 | 5,726 | 0 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 9,818 | | 9,818 | 9,818 | 0 | 0 |
| Cyllid | 42,456 | | 42,456 | 42,456 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 46,957 | | 46,957 | 46,957 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | 469,948 | 469,948 | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 10,251,998 | 398,700 | 10,650,698 | 10,750,698 | 100,000 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,031,754 | 103,500 | 1,135,254 | 1,135,254 | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 102,787 | 0 | 102,787 | 102,787 | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 155,642 | 40,205 | 195,847 | 195,847 | 0 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 346,769 | | 346,769 | 346,769 | 0 | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | 75,295 | | 75,295 | 75,295 | 0 | 0 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | 10,625 | | 10,625 | 10,625 | 0 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | 207,720 | | 207,720 | 207,720 | 0 | 0 |
| Ein Llais Ni | 210,900 | | 210,900 | 210,900 | 0 | 0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **16,764,107** | **542,405** | **17,306,512** | **17,290,223** | **(16,289)** | **(79,720)** |

| **Incwm** | **Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 2) £** | **Addasiadau Cyllideb Ch3 £** | **Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 3) £** | **Gwariant Rhagwelir £** | **Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 3) £** | **Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (20/21: 10.15% - 21/22: 10.16%) | (429,053) | | (429,053) | (429,053) | 0 | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (20/21: 17.63% - 21/22: 17.63%) | (744,676) | | (744,676) | (744,676) | 0 | 0 |
| - Cyngor Conwy (20/21: 15.30% - 21/22: 15.28%) | (645,228) | | (645,228) | (645,228) | 0 | 0 |
| - Cyngor Dinbych (20/21: 15.30% - 21/22: 15.36%) | (648,731) | | (648,731) | (648,731) | 0 | 0 |
| - Cyngor Fflint (20/21: 22.68% - 21/22: 22.72%) | (959,441) | | (959,441) | (959,441) | 0 | 0 |
| - Cyngor Wrecsam (20/21: 18.94% - 21/22: 18.86%) | (796,417) | | (796,417) | (796,417) | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (10,251,998) | (398,700) | (10,650,698) | (10,650,698) | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,031,754) | (103,500) | (1,135,254) | (1,135,254) | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (102,787) | 0 | (102,787) | (102,787) | 0 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (155,642) | (40,205) | (195,847) | (195,847) | 0 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (346,769) | | (346,769) | (346,769) | 0 | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | (75,295) | | (75,295) | (75,295) | 0 | 0 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | (10,625) | | (10,625) | (10,625) | 0 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | (207,720) | | (207,720) | (207,720) | 0 | 0 |
| Ein Llais Ni | (210,900) | | (210,900) | (210,900) | 0 | 0 |
| | | | | | | |
| Incwm Secondiadau | (147,071) | | (147,071) | (147,071) | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(16,764,107)** | **(542,405)** | **(17,306,512)** | **(17,306,512)** | **0** | **0** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **(16,289)** | **(16,289)** | **(79,720)** |

| **Memorandwm -** **Y Gronfa Tanwariant** | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2021** | **(563,530)** | **(563,530)** |
| **Ychwaneger/Llai** - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2021/22 | (16,289) | (79,720) |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2022** | **(579,819)** | **(643,250)** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 16 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2022/23** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno i'r Cydbwyllgor :<br>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2022/23 (Atodiad 1)<br>• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2022/23 fel ei cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd")

1.1 Mae cyllideb GwE yn esblygu'n barhaus ac yn adlewyrchu ymrwymiadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd"), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI (gweler Atodiad 1).

1.3 Amlygir cyfraniadau ariannol yr Awdurdodau yn Atodiad 2.

1.4 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad gan y Cynghorau i ychwanegu chwyddiant yn llawn, ac i beidio gweithredu toriad yn 2022/23.

1.5 Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth yn annigonol ar gyfer amlygu goblygiadau ariannol grantiau penodol yn 2022/23.

**2. Cronfa Tanwariant**

2.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2021/22 - Adolygiad Chwarter 3' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £579,819 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2022, sy'n llai na 4% o drosiant GwE ac yn yr amgylchiadau cyfredol yn swm addas i'w gadw wrth gefn.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2022/23

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2022/23

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - CYLLIDEB GwE 2022-23

| | Cyllideb Terfynol 2021/22 £ | Addasiad Chwyddiant £ | Addasiadau Eraill £ | Cyllideb Terfynol 2022/23 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | | | | |
| - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth | 864,534 | 49,625 | | 914,159 |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 3,851,471 | 178,169 | | 4,029,640 |
| - Staff ar Secondiad | 147,071 | | | 147,071 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (1,751,256) | (84,576) | | (1,835,832) |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 42,588 | 1,482 | | 44,070 |
| | | | | |
| Adeilad | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 173,245 | 6,029 | | 179,274 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (58,833) | (2,047) | | (60,880) |
| | | | | |
| Cludiant | | | | |
| Costau Teithio | 137,264 | 4,777 | | 142,041 |
| | | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 72,980 | 2,540 | | 75,520 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 16,496 | 574 | | 17,070 |
| Ffioedd archwilio | 11,454 | 399 | | 11,853 |
| | | | | |
| Broceru | 288,698 | 10,047 | | 298,745 |
| | | | | |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | |
| Cyfreithiol | 5,726 | 199 | | 5,925 |
| Adnoddau Dynol | 9,818 | 342 | | 10,160 |
| Cyllid | 42,456 | 1,477 | | 43,933 |
| Technoleg Gwybodaeth | 46,957 | 1,634 | | 48,591 |
| | | | | |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | | 469,948 |
| | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 10,650,698 | | | 10,650,698 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,135,254 | | | 1,135,254 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 102,787 | | | 102,787 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 195,847 | | | 195,847 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 346,769 | | | 346,769 |
| Trawsnewid Y System Ady | 75,295 | | | 75,295 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | 10,625 | | | 10,625 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | 207,720 | | | 207,720 |
| Ein Llais Ni | 210,900 | | | 210,900 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **17,306,512** | **170,671** | **0** | **17,477,183** |

| | Cyllideb Terfynol 2021/22 £ | Addasiad Chwyddiant £ | Addasiadau Eraill £ | Cyllideb Terfynol 2022/23 £ |
|---|---|---|---|---|
| **<u>Incwm</u>** | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | |
| - Cyngor Ynys Môn (21/22: 10.16% - 22/23: 10.14%) | (429,053) | (17,338) | 748 | (445,643) |
| - Cyngor Gwynedd (21/22: 17.63% - 22/23: 17.59%) | (744,676) | (30,092) | 1,808 | (772,960) |
| - Cyngor Conwy (21/22: 15.28% - 22/23: 15.26%) | (645,228) | (26,073) | 613 | (670,688) |
| - Cyngor Dinbych (21/22: 15.36% - 22/23: 15.48%) | (648,731) | (26,215) | (5,064) | (680,010) |
| - Cyngor Fflint (21/22: 22.72% - 22/23: 22.67%) | (959,441) | (38,771) | 2,163 | (996,049) |
| - Cyngor Wrecsam (21/22: 18.86% - 22/23: 18.86%) | (796,417) | (32,182) | (268) | (828,867) |
| | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (10,650,698) | | | (10,650,698) |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,135,254) | | | (1,135,254) |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (102,787) | | | (102,787) |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (195,847) | | | (195,847) |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (346,769) | | | (346,769) |
| Trawsnewid Y System Ady | (75,295) | | | (75,295) |
| Fin-Ed Pathfinder Project | (10,625) | | | (10,625) |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | (207,720) | | | (207,720) |
| Ein Llais Ni | (210,900) | | | (210,900) |
| | | | | |
| Incwm Secondiadau | (147,071) | | | (147,071) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(17,306,512)** | **(170,671)** | **0** | **(17,477,183)** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **0** |

## Atodiad 2 / Appendix 2

| | | Craidd/*Core* | | | | Arall / Other | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **I'w ariannu gan** | ***Funded by*** | **Cyllideb**<br><br>***Budget***<br><br>**2021/22**<br>**£** | **Chwyddiant**<br><br>***Inflation***<br><br>**4.54%**<br>**£** | **Addasiadau canran cyfraniad**<br>***Contribution proportion adjustment***<br><br>**£** | **Is-gyfanswm**<br><br>***Sub-total***<br><br>**2022/23**<br>**£** | **Addasiad Model Cenedlaethol**<br><br>**National Model adjustment**<br><br>**£** | **Cyllideb Drafft**<br><br>***Draft Budget***<br><br>**2022/23**<br>**£** | % |
| Ynys Môn | *Isle of Anglesey* | **381,313** | 17,338 | -668 | **397,983** | 47,660 | **445,643** | 10.14% |
| Gwynedd | *Gwynedd* | **661,817** | 30,092 | -1,615 | **690,294** | 82,666 | **772,960** | 17.59% |
| Conwy | *Conwy* | **573,434** | 26,073 | -547 | **598,960** | 71,728 | **670,688** | 15.26% |
| Dinbych | *Denbighshire* | **576,548** | 26,215 | 4,522 | **607,285** | 72,725 | **680,010** | 15.48% |
| Fflint | *Flintshire* | **852,685** | 38,771 | -1,931 | **889,525** | 106,524 | **996,049** | 22.67% |
| Wrecsam | *Wrexham* | **707,801** | 32,182 | 239 | **740,222** | 88,645 | **828,867** | 18.86% |
| **Cyfanswm** | ***Total*** | **3,753,598** | **170,671** | **0** | **3,924,269** | **469,948** | **4,394,217** | 100% |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**16 CHWEFROR 2022**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE – Adroddiad monitro chwarter 3 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 3 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

**2.2** Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth. Cytunwyd ar y blaenoriaethau trosfwaol am 2021-2022 â'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Chwefror 2021. Cytunwyd ar y cynllun busnes hwn yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ar 26 Mai 2021.

**2.3** Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

**3.2** Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

**3.3** Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

**3.4** Mewn perthynas â sut mae GwE am ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghyd-destun Addysg, mae cynlluniau manwl y gwasanaeth yn cyfarch hyn, yn ogystal â'r Strategaeth Rhanbarthol 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'. Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwrando arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol. Yn ogystal, bydd ymweliad cychwynnol yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar ddechrau'r flwyddyn yn ffocysu ar anghenion yr ysgolion, gan gymryd i ystyriaeth effaith Covid. Bydd gwybodaeth gyfansawdd yn deillio o'r ymweliadau yma yn bwydo cynlluniau cefnogi ysgolion, a byddwn yn mireinio ein cynlluniau busnes i adlewyrchu hynny.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 3.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad Monitro Chwarter 3

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol Chwarter 3

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

"Rwyf yn croesawu'r diweddariad. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae paragraff 5 o'r adroddiad blaen yn datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol."

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2021-2022

# Adroddiad Cynnydd Chwarter 3

www.gwegogledd.cymru @GwEGogleddCymru

## CYNNWYS


1. **Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2021-2022**

   - **Blaenoriaethau rhanbarthol a darpariaeth sy’n cyfrannu at flaenoriaethau awdurdodau lleol – Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 3**

2. **Atodiad: Data Rhanbarthol**

## 1. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GwE

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022**

**Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 3 (01/10/2021 – 31/12/2021)**

| **AMCAN 1 – CWRICWLWM AC ASESU**<br>**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol gyda thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n gosod safon uchel i bob dysgwr** |
|---|
| **CONTINWWM ADDYSG 3 I 16** |
| **Sicrhau cefnogaeth i bob ysgol wrth ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, y 12 egwyddor addysgeg ac ymchwil gweithredol**<br>Mae hyfforddiant eang lefel uchel ar y Daith Ddiwygio wedi'i ddarparu i arweinwyr ysgol ar draws y rhanbarth a bydd yn parhau y tymor hwn (cyfeiriwch at Wireddu'r Cwricwlwm). Mae pob arweinydd ysgol wedi cael cynnig gweithdai ar gynllunio gweledigaeth a'r cwricwlwm ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (CiG) sydd wedi cwmpasu syniadau cynnar o ran cynllunio ar gyfer cynnydd a lle'r 12 egwyddor addysgeg yn y cwricwlwm.<br><br>Mewn ysgolion uwchradd, mae arweinwyr dysgu ac addysgu mewn ysgolion wedi bod yn rhan o drafodaethau trwy fforymau ar yr hyn y maent yn eu gweld fel eu cryfderau a'u hanghenion o ran datblygu ar gyfer gwella addysgeg yn eu hysgolion, a fydd y bwydo i mewn i'r cynnig o fis Medi ymlaen. Ar gais, mae rhai ysgolion wedi derbyn mewnbwn ar beth sy'n gwneud dysgu ac addysgu da ar gyfer cynnydd, gyda hyfforddiant wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar y 12 egwyddor. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y cynnig Dysgu ac Addysgu yn parhau.<br><br>In Ym mis Ionawr gwnaed pob ysgol uwchradd yn ymwybodol o gynnig y Grŵp Dysgu ac Addysgu uwchradd am gymorth gyda dysgu proffesiynol yng nghyd-destun Dysgu ac Addysgu, megis cwestiynu, gwahaniaethu a her. Cefnogir 12 ysgol ar hyn o bryd gyda naill ai model 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' neu gyflwyniad DP uniongyrchol i staff gan ymgynghorwyr cefnogi gwelliant GwE.<br><br>**Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol**<br>**Prosiect Ymchwil Gweithredol GwE a Shirley Clarke – Haen 3**<br>Mae'r prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) wedi bod ar waith yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017. Cafodd yr hyfforddiant a'r ymwchil gweithredol gwreddiol ei weithredu mewn 3 haen dros gyfnod o 4 blynedd, gan roi egwyddorion addysgeg ar waith mewn dosbarthiadau ar sail tystiolaeth gadarn. Mae'r gwaith hwn yn parhau yn yr ysgolion wrth iddynt ystyried ac esblygu addysgeg ymhellach mewn paratoad at Gwricwlwm i Gymru.<br><br>Cynhaliwyd ail weminar oriau gwyll Tymor yr Hydref gyda Shirley Clarke ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth 12/10/2021. Roedd hwn yn ddilyniant i'r gweminar gynhaliwyd 28/09/2021 a'r ffocws y tro hwn oedd 'Adborth' Roedd dros 1000 o athrawon o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol. Cafodd yr holl athrawon fynediad at negeseuon uniongyrchol gan Shirley Clarke er mwyn adennill momentwm ac adolygu eu harferion ar sail yr ymchwil diweddaraf. Mae hyn wedi bod o gymorth i'r holl ymarferwyr ac arweinwyr dysgu gyda datblygiad pellach ac ymwreiddio ymarfer addysgegol da a chyson wrth baratoi ar gyfer y CiG.<br><br>**Sicrhau cysondeb o ran negeseuon a chefnogaeth i ysgolion ynglŷn â'r 4 diben a'r 12 egwyddor addysgeg ar draws rhwydweithiau, ac mewn hyfforddiant a chefnogaeth gan GwE**<br>Sefydlwyd rhwydweithiau rhanbarthol a lleol o ymarferwyr i gydweithredu ar ddatblygu'r cwricwlwm - gweler y naratif ar Wireddu'r Cwricwlwm. Mae GwE yn creu banc o gyflwyniadau y gellir eu defnyddio fel y man cychwyn i ymateb i geisiadau ysgolion am Ddysgu Proffesiynol ar faterion Addysgu a Dysgu fel cwestiynu, gwahaniaethu ac ati. Byddant i gyd yn cysylltu â'r 12 egwyddor addysgeg.<br><br>**Sicrhau cefnogaeth i bob ysgol wrth ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, 12 egwyddor addysgeg ac ymchwil gweithredol** |

Sefydlwyd rhwydweithiau rhanbarthol a lleol o ymarferwyr i gydweithredu ar ddatblygu'r cwricwlwm – gweler y naratif ar Wireddu'r Cwricwlwm.

Mae YCG unigol mewn trafodaethau ag ysgolion unigol ac yn cynllunio a darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion a chlystyrau, e.e. hyfforddiant i glystyrau cyfan mewn agweddau ar y Fframwaith (gweler hefyd Adroddiad Monitro Chwarter 3 y Cyfnod Sylfaen).

Cynhaliwyd sesiwn CiG CaBan gan gynnwys diweddariad ar y 12 egwyddor addysgeg, a gyflwynwyd yng Ngorffennaf 2021 i hybu cysondeb o ran ymagweddau, gan gynnwys o ran addysgeg rhwng AGA ac athrawon gweithredol. Roedd un aelod o staff darlithio CaBan wedi mynychu hyfforddiant Shirley Clarke. Mae ysgolion arweiniol CaBan yn rhan o rwydweithiau CiG gan gynnwys arwain ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i sicrhau ymagwedd gyson o ran AGA. Mae darlithwyr CaBan yn rhan o rwydweithiau lleol. Cyflwynodd staff GwE weithdy diweddaru ar y CiG, gan gynnwys addysgeg, ym mis Ionawr 2022.

**Asesu: Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o egwyddorion allweddol y canllaw asesu newydd – tri diben asesu – tracio o ddydd i ddydd, adnabod a chofnodi cynnydd a deall cynnydd grwpiau**
Mae system dracio ysgol gyfan ar gyfer y cwricwlwm newydd wedi cael ei chreu a'i threialu mewn nifer gyfyngedig iawn o ysgolion ar draws y rhanbarth i gael adborth. Mae'r system dracio yn canolbwyntio ar yr ail a'r trydydd diben asesu. Cafodd y system dracio ei rhannu gydag ambell YCG a oedd yn galluogi trafodaethau ag ychydig o ysgolion a/neu glystyrau ar draws y rhanbarth ym mis Medi. Rhennir y system dracio â phob YCG ym mis Hydref er mwyn hyrwyddo trafodaeth o fewn ysgolion a/neu glystyrau. Mae'r grŵp asesu rhanbarthol wedi cyfarfod ddwywaith. Mae'r Cadeirydd etholedig a chynrychiolwyr ysgolion o'r chwe Awdurdod Lleol wedi rhannu syniadau cychwynnol ac egwyddorion asesu allweddol.

Mae Grŵp Asesu GwE wedi creu a chasglu adnoddau ysgol yn dangos dulliau asesu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r pecyn adnoddau a chymorth yn cynnwys canllawiau helaeth ar ddeall cynnydd yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal â model ac enghreifftiau o sut i fynd ati i greu cynllun asesu ochr yn ochr â'r cynllun cwricwlwm.

**Trawsnewid: Cefnogi a chyd-gynllunio dulliau trawsnewid ar gyfer haf 2021 gyda'r clystyrau. Datblygu cydweithio traws-sector ar drawsnewid a rhannu arfer dda**
Darparwyd canllawiau LlC ar asesu ar gyfer y CiG i bob ysgol trwy'r gweithdai dysgu proffesiynol ar gynllunio'r cwricwlwm, sesiwn 2. Mae'r rhain ar gael yn Canolfan Gefnogaeth GwE ac mae ysgolion yn parhau i gael mynediad iddynt trwy'r adnodd hwn.

Mae clystyrau'n dechrau rhannu ymarfer llwyddiannus o ran trawsnewid ac yn cydweithio ar draws ysgolion a rhyngddynt i ddatblygu cwricwlwm 3-16. Trwy hyn, mae lleiafrif bach o glystyrau wedi cynllunio gweithgareddau addysgu ar y cyd rhwng staff ysgol uwchradd ac ysgol gynradd, mae hyn yn cynnwys grwpiau oedran cymysg mewn gweithgareddau cynllunio a rhoi'r cwricwlwm ar waith.

Fel y mae rhagor o glystyrau'n esblygu eu hymarfer yn nes ymlaen y tymor hwn ac yn ystod y tymor nesaf, bydd hyn yn ehangu. Nid oes unrhyw ymarfer llwyddiannus wedi'i rannu ar lefel ranbarthol hyd yma - bydd hyn yn digwydd trwy'r rhwydweithiau CiG.

Mae iaith a chynnwys y cymorth a'r hyfforddiant yn cynnwys cyfleoedd o ran y cwricwlwm 3-16. Nid oes unrhyw adnoddau wedi'u datblygu hyd yma – dyma'r cam nesaf ar gyfer chwarter 3 a 4. Bydd canllawiau pellach i ysgolion eu dilyn yn chwarter 3 a 4.

Cafodd Penaethiaid gyflwyniad rhanbarthol, yn amlinellu cyllid a chanllawiau. Darparwyd cyllid i glystyrau ar gyfer trawsnewid gydag arweiniad - £8000 i bob clwstwr. Mae clystyrau yn parhau i ddatblygu eu dulliau eu hunain gyda chymorth gan YCG, yn gyson â dulliau rhanbarthol (ceir enghreifftiau yn yr Adroddiadau Gwaelodlin ALl). Y cam nesaf - ffocws parhaus ar ddysgu proffesiynol ac adnoddau yn ddiweddarach yn ystod y tymor.

| GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU) |
|---|
| **Sicrhau cefnogaeth i ysgolion mewn cysylltiad â Dylunio Cwricwlwm yr ysgol gyfan ac o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)**<br>**Cefnogi'r ysgolion ar hyd y daith at 2022 gan ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd** |

Fel rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n cyfuno pob agwedd ar y diwygio ehangach gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol gweddnewidiol. Mae'r cynnig trawsranbarthol hwn yn anelu at gefnogi pob ymarferydd ysgol, ac yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr gyda'r themâu canlynol:

- Arwain Newid
- Arweinyddiaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Datblygu Cyd-weledigaeth
- Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm – i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu
- Arwain Addysgeg
- Amser a Lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol

Roedd y cynnig dysgu proffesiynol hwn wedi'i drefnu'n wreiddiol i ddechrau yn nhymor y gwanwyn 2020, fodd bynnag cafodd ei oedi'n naturiol oherwydd blaenoriaethau pandemig Covid-19. Mewn trafodaethau gyda Phenaethiaid ar draws GwE, bu i'r dysgu proffesiynol ailddechrau yn rhithwir ym mis Ionawr 2021 gyda'r sesiwn Arwain Newid. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn seiliedig ar glystyrau ac yn galluogi grwpiau llai o ysgolion cynradd a'u hysgol uwchradd leol i drafod y Cwricwlwm newydd i Gymru ar draws y continwwm dysgu 3-16. Ar draws y rhanbarth, mynychodd 832 o Uwch Arweinwyr y sesiynau Arwain Newid hyn. I gydnabod bod ysgolion yn ail-agor i'r holl ddysgwyr ym mis Mawrth a mis Ebrill, bu oedi unwaith eto gyda'r sesiynau Arwain Newid ym mis Mawrth 2021. Yn dilyn trafodaethau â'r Cyfarwyddwyr Addysg trwy Fwrdd Rheoli GwE, cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgynghorol ym mis Ebrill 2021 ym mhob Awdurdod Lleol i wrando ar adborth gan Benaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a'r modd gorau o ail-ymgysylltu. Roedd dros 300 o benaethiaid wedi mynychu'r ymgynghoriadau.

I gefnogi ail-ymgysylltu â'r gwaith sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru, trefnwyd sesiwn cynllunio arweinyddiaeth pellach ar gyfer pob clwstwr unigol ar draws y rhanbarth i adeiladu capasiti'r clystyrau i gydweithio ar draws anghenion y daith ddiwygio yn ei chyfanrwydd, ynghyd â llunio cynllun gweithredu cytunedig ar gyfer pob clwstwr. Fel rhan o hyn, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau lle mae gan ysgolion o fewn clwstwr gyfle i gydweithio i gynllunio'n strategol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm. Mae amseru'r sesiynau hyn mewn modd hyblyg a sensitif wedi bod yn elfen allweddol o'r trafodaethau rhwng GwE, yr awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae gweithgareddau i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgolion unigol a chlystyrau wedi'u hadnabod o fewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Mae'r defnydd o dechnoleg i gyd-ddatblygu cynlluniau clwstwr a gwefannau yn sicrhau bod y ddeialog yn un barhaus ac mae Uwch Arweinwyr yn gallu parhau gyda'r gwaith hwn, yn dilyn trafodaethau yn ôl ar lefel ysgolion unigol. Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol, mae cefnogaeth ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bydd y gefnogaeth ar gael ar lefel clwstwr yn ogystal â lefel ysgolion unigol, gan gynnwys cefnogaeth wedi'i theilwra lle bo angen.

Mae cefnogaeth bellach sydd ar gael i ysgolion hefyd yn cynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' wedi'u hysgrifennu gan dîm GwE fel rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol gyda'r Athro Graham Donaldson. Mae'r papurau hyn, sy'n mynd i'r afael ag elfennau allweddol o daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, wedi'u rhannu a'u mireinio drwy ymgynghoriad â phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Cafodd yr holl uwch arweinyddion eu gwahodd i fynychu gweminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu'r gwaith hwn ar y Papurau Procio.

**TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDPh)**

**Darparu cynnig dysgu proffesiynol i'r 6 MDPh**

Elfen allweddol wrth symud ymlaen fydd cefnogi ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh). Ym Mehefin 2021, gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb i fod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol i gyfrannu at raglen gefnogaeth barhaus GwE i ysgolion yn y meysydd a ganlyn:

- Dylunio'r Cwricwlwm ar gyfer yr ysgol gyfan
- Egluro potensial un o'r MDPh
    - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg a'r Saesneg)
    - Mathemateg a Rhifedd
    - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
    - Dyniaethau

- Iechyd a Lles
- Celfyddydau Mynegiannol
- Asesu

Bydd Rhwydweithiau'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arfer MDPh effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Ddiwygio.

Roedd cyhoeddi canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn Ionawr 2020 yn dynodi'r cyfnod nesaf o ran diwygio'r cwricwlwm a rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ym mhob ysgol gynradd, ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir, ynghyd â'r cyfnod o Fedi 2022 ymlaen. Caiff yr ysgolion uwchradd hynny sy'n barod i roi'r cwricwlwm ar waith ym mlwyddyn 7 eu hannog i wneud hynny, fodd bynnag, ni fydd y gofyniad i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn ffurfiol yn orfodol tan 2023, pryd y caiff ei roi ar waith ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd.

Ar draws GwE, cefnogwyd ysgolion yn flaenorol i ymgysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru trwy Hwyluswyr Clystyrau'r Cwricwlwm i Gymru. Bu gweithgareddau dysgu proffesiynol a chyllid ar gael i rwydweithiau a chlystyrau o ysgolion ddatblygu cydweithrediad ag ymarferwyr ar draws y continwwm 3-16. Y rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru yw'r cam nesaf yn y datblygiad hwn, sy'n edrych i ddatblygu cydweithrediad ar draws y cwricwlwm cyfan.

Bu GwE yn gweithio gyda'u cyd-gonsortia ar lefel ranbarthol, ynghyd ag Estyn a Llywodraeth Cymru i nodi'r disgwyliadau ar ysgolion a lleoliadau o ran diwygio fel yr ydym yn symud tuag at roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn y Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cydnabod yr her y mae Covid-19 yn dal i'w gyflwyno i bob ysgol o fewn y strategaeth adnewyddu a diwygio.

O ddechrau gyda 300 o enwau ymarferwyr ym mis Mehefin, i fod â 600 o ymarferwyr erbyn hyn, fel rhan o grwpiau lleol, mae'r ymrwymiad i fod yn rhan o'r gwaith hwn ac i gydweithredu yn glir, ac rydym unwaith eto'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cysylltu.

Mae'r grŵp Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol wedi cyfarfod â'r Athro Graham Donaldson ar ddau achlysur gwahanol. Cafwyd trafodaethau cynhyrchiol a rhannwyd cyflwyniadau, y mae recordiadau ohonynt ar gael, ac fe'u rhennir pan fydd y grwpiau lleol yn cyfarfod. Mae pob un o aelodau'r grŵp rhanbarthol sydd o ysgolion o fewn yr Awdurdodau Lleol wrthi ar hyn o bryd yn y broses o gysylltu ag aelodau grwpiau lleol am y tro cyntaf. Bydd holl waith y rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar gael i bob ysgol trwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a thrwy drafodaethau YCGau ysgolion.

**AMCAN 2- DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL**

**Gwella'r dysgu ac addysgu yn ein hysgolion**

**IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)**

**Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol yn y sector cynradd.**

Mae adran IRh ar gyfer y sector cynradd bellach wedi'i datblygu ar Ganolfan Cefnogaeth GwE i roi gwybodaeth glir a chywir ac adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu IRh yn y cynradd, ynghyd â chynigion a chyfleoedd DBe. Mae gan bob athro fynediad i'r wefan a gallant ddod o hyd i ddolenni a chysylltiadau sydd eu hangen arnynt i wella eu hyder a'u harbenigedd, a chefnogi eu taith at 2022 a'r tu hwnt.

Saesneg: http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/?lang=en

Cymraeg: http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/

**Ysgolion cynradd arweiniol**

Mae 9 ysgol Arweiniol bellach yn cynnig cymorth uniongyrchol i'w clystyrau eu hunain ac maent ar gael i gefnogi unrhyw ysgol sydd yn gofyn am gymorth ychwanegol.

**Pecyn cychwynnol**

Mae'r ysgolion cynradd Arweiniol bellach wedi cwblhau'r fideo/tiwtorialau i helpu ysgolion i gyflwyno IRh yn eu cwricwlwm. Mae'r rhain wrthi'n cael eu postio ar Ganolfan Cefnogaeth GwE, a rhannwyd gwybodaeth yn Newyddlen Gynradd DBe GwE, Bwletin GwE a chan yr YCG Cynradd. Dyma'r themâu sy'n cael sylw:

- Map Ffordd Clir a Chryno i Gorffori Ieithoedd Rhyngwladol
- Datblygu Hyder mewn Addysgu Ieithoedd Rhyngwladol
- Gwreiddio Ieithoedd yn y Cwricwlwm
- Gwreiddio Llafaredd gydag Ieithoedd Ychwanegol mewn dosbarth cynradd
- Corffori Ffrangeg mewn meysydd dysgu gwahanol
- Gwreiddio Amlieithrwydd
- IRh mewn Iechyd a Lles: sut wyt ti'n teimlo

**Tanysgrifiadau Power Language**
Er mis Gorffennaf 2021, mae 31 ysgol newydd wedi cofrestru i danysgrifio i adnoddau Power Language. Ariennir y tanysgrifiad hwn yn llawn. Mae hyn yn golygu bod 80 ysgol ar draws y rhanbarth wedi cael cymorth i dderbyn adnoddau a hyfforddiant o safon uchel er 2018. 60 o Power Language Schools a 20 o'r Primary Languages Network. Mae'r ysgolion newydd i gyd wedi cytuno i roi adborth ar effaith yn ddiweddarach eleni.

Trefnwyd gweminar Power Language ar gyfer 22 Tachwedd 2021. Trefnwyd y sesiwn hyfforddiant gan Power Language fel ymateb i gais gan GwE, ond roedd yn agored i bob Consortia. Roedd y ffocws ar addysgeg a gwreiddio ieithoedd yn y cwricwlwm. Roedd nifer da yn bresennol a chafodd groeso gwresog. Mae recordiad ar gael i bob ysgol a bydd yn cael ei bostio ar Ganolfan Cefnogaeth GwE.

**Sesiynau rhwydwaith galw heibio:**

Mae Tîm Cynradd DBe GwE bellach yn cynnig sesiwn galw heibio bob hanner tymor. Mae'r sesiynau yn anffurfiol ac yn trafod materion a amlygir gan athrawon. Cynhaliwyd y sesiwn cyntaf ar 11 Tachwedd. Roedd ymarferwyr yn croesawu'r cyfarfod ac o'r farn ei fod yn hynod ddefnyddiol. Roedd y rhan fwyaf yn ymarferwyr mewn ysgolion ble nad yw ieithoedd wedi'u corffori eto, ac yn meddwl ble a sut i ddechrau arni. Cyfarfod nesaf: 3/2/22- mae rhannu arfer da yn barhaus, a gwneir hyn drwy e-bost, Canolfan Cefnogaeth GwE a Newyddlenni DBe.

**Sector uwchradd**
**Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol** - mae adran ITM/IRh uwchradd bellach wedi'i datblygu ar Ganolfan Cefnogaeth GwE i roi gwybodaeth glir a chywir ac adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu ITM/IRh yn y sector uwchradd, ynghyd â chynigion a chyfleoedd DBe. Mae gan bob athro fynediad i'r wefan a gallant ddod o hyd i ddolenni a chysylltiadau er mwyn parhau i ddatblygu eu harfer a chefnogi eu taith at 2022 a'r tu hwnt.

Saesneg:http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/?lang=en
Cymraeg: http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/

**Cymorth Ysgol i Ysgol**
Mae Pennaeth 3 ysgol unigol wedi gofyn am gymorth rheolaidd. Mae cymorth yn canolbwyntio ar gynllunio, asesu a chynnydd, dysgu ac addysgu. Darperir cymorth i ysgolion/adrannau unigol. Trefnwyd cyfarfodydd rhwydwaith pynciol bob hanner tymor i ymateb i anghenion a nodir gan athrawon, cefnogi agweddau ar Ddysgu ac Addysgu yn CA4/CA5 ac ategu gwaith y grwpiau rhanbarthol a lleol a sefydlwyd gan y gwasanaeth gydag ysgolion ledled y rhanbarth.

Yn dilyn ein cyfarfod rhwydwaith yn yr haf (1 Gorffennaf 2021), cwblhaodd ysgolion arolwg ar anghenion mewn perthynas â'u paratoadau at y CiG. Dyma'r agweddau y byddai athrawon yn hoffi cymorth gyda nhw, y rhai pwysicaf gyntaf:

- Asesu: beth a sut
- Cynllunio o fewn MDaPh
- Egwyddorion cynllunio'r cwricwlwm
- Egwyddorion cynnydd
- Y datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a Chamau Cynnydd
- Cynllunio ar draws MDaPh
- Pontio Cynradd-Uwchradd
- Datgloi ILlCh

Anghenion/cwestiynau eraill neu awgrymiadau:

- Darparu a sicrhau cynnydd o fewn amserlen gyfyngedig iawn (1 wers/wythnos)
- Effeithiau'r pandemig
- Pa elfennau o'r CiG sydd eisoes mewn lle yn y cynradd
- Effaith newidiadau i TGAU a chynllunio yn CA3
- Cysylltu ITM â phynciau eraill, yn enwedig ym Mlwyddyn 7 pan nad yw dysgwyr wedi meistroli'r hanfodion eto.
- Sut i groesi llwybrau yn llwyddiannus o fewn MDaPh ILlCh
- Sefydlu grŵp Teams i gefnogi adran lai

**Cyfarfodydd rhwydwaith**:
Trefnir cyfarfodydd rhwydwaith pynciol bob hanner tymor, a cynhaliwyd y cyntaf 14 Hydref. Roedd presenoldeb da er gwaethaf y pwysau ar lwyth gwaith athrawon, a chafwyd sawl ymddiheuriad oherwydd cyd-daro ag ymrwymiadau eraill. Cafodd ysgolion gyfle i ddod ynghyd a rhannu eu datblygiadau o ran y CiG, ac adnabod cymorth pellach neu gamau nesaf wrth symud ymlaen. Yn dilyn y cyfarfod, cafodd athrawon gyfle i gwblhau arolwg barn ac ar effaith y cyfarfodydd hyn, yn ogystal â lleisio barn am gymorth. Dyma grynodeb byr o'r canfyddiadau. Fe wnaeth 41 o athrawon ymateb.

- Ymateb cadarnhaol iawn.
- Dywedodd 100% bod pwrpas clir i'r cyfarfodydd a bod eu hangen.
- Dywedodd 100% y byddent yn hoffi i'r cyfarfodydd barhau ochr yn ochr â chymorth arall a ddarperir gan GwE (yn y rhwydwaith rhanbarthol a lleol).
- Y rhan fwyaf yn hapus efo fformat ac amlder cyfarfodydd, ac awgrymwyd hyblygrwydd at ddibenion gwahanol.
- Mae cyfle i rannu arfer da yn boblogaidd iawn.
- Meysydd cymorth: CiG / CA4 / DP gyda siaradwyr gwadd / CA5

Mae dadansoddiad fwy manwl o'r canlyniadau ar gael.

**Ieithoedd Rhyngwladol/ITM paratoi at y CiG: Rhaglen sesiynau DP**

Mae’r rhaglen bellach wedi'i chadarnhau a'i rhannu. Mae'r 7 sesiwn wedi'u trefnu gyda'r arbenigwyr Rachel Hawkes a Gillian Campbell-Thow. Mae ffocws penodol i bob sesiwn, a dylai hyn helpu ymarferwyr i ddatblygu IRh ar gyfer y CiG. Mae pob sesiwn yn cael ei recordio a'i rhannu.

**Tiwtorialau CA4**
Mae'n fwriad gennym gynhyrchu ystod o diwtorialau i helpu gydag adolygu yn CA4 ble cynigir TGAU mewn Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Y nod yw creu sesiynau 30-munud y gall disgyblion neu athrawon fel ei gilydd eu defnyddio, naill ai'n anghydamserol neu fel adnodd yn y dosbarth. Yn ddelfrydol, dylai'r adnoddau hyn fod ar gael i ysgolion erbyn dechrau mis Mawrth 2022.
Cafwyd trafodaethau gydag e-sgol yn dilyn eu hysbyseb recriwtio ar gyfer sesiynau byw tymor y gwanwyn a chydweithio posib. Mae DBe GwE yn fodlon rhannu'r holl adnoddau a gynhyrchwyd (gan gynnwys tiwtorialau CA5 y llynedd).

**Cyfarfodydd rhwydwaith i ANG mewn ITM:**
Mae ANG ITM mewn ysgolion uwchradd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau, cael cymorth a datblygu arferion.
Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 18 Tachwedd ac roedd presenoldeb da iawn: 5 ANG (1 ymddiheuriad) + 1 blwyddyn gyntaf. Cafwyd cyfarfod cynhyrchiol a chadarnhaol iawn, a rhannodd athrawon eu profiadau, eu

heriau a'u llwyddiannau. Rhannwyd a dosbarthwyd cynllun gwers Sbaeneg/ppt, awgrymiadau ac arfer da o ran delio efo ymddygiad heriol hefyd. Trefnir cyfarfodydd bellach bob hanner tymor, a byddant yn canolbwyntio ar agwedd benodol a nodir gan yr athrawon. Cyfarfod nesaf: 13 Ionawr - Ffocws: datblygu defnydd myfyrwyr o'r ID yn y dosbarth. Mae dolenni i'r holl gyflwyniadau bellach ar gael i bawb.

**Gwobr Anthea Bell i Gyfieithwyr Ifanc: Y llinyn iaith Gymraeg.**
Mae 18 ysgol wedi cofrestru ac yn dilyn y rhaglen. Y camau nesaf: Cysylltu ag ysgolion yn nhymor yr haf i gael adborth ar y cynllun, ei le yn y CiG, syniadau ar gyfer ei ddatblygu ymhellach ac effaith ar gynnydd ac agweddau myfyrwyr. Bydd GwE yn gweithio efo ysgolion i ddatblygu adnoddau Sbaeneg ac Almaeneg yn Gymraeg.

**CALU - LlDCD**

**Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu drwy weithredu'r rhaglen hyfforddiant ar draws y rhanbarth.**

**Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu profiadol drwy weithredu'r rhaglen CALU ar draws y rhanbarth.**

**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi**
Darperir yr hyfforddiant ar ffurf rhestr chwarae Cenedlaethol ar Hwb – 4 Modiwl ac fe gwblheir y modiwlau ar amser sydd yn gyfleus I'r cymhorthydd a'r ysgol.
Mae 74 cymhorthydd wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, gyda 41 o'r cymorthyddion wedi cwblhau'r hyfforddiant hyd yn hyn. Cyfanswm o 74 allan o darged o 100 ar gyfer y flwyddyn 2021-22. Caiff manylion yr hyfforddiant ei rannu yn y Bwletin wythnosol ac yn y Dosbarth Google.

**Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith**
Bu i'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion profiadol gael ei rhewi o Fawrth 2020 hyd at ddiwedd haf 2021 oherwydd y pandemig. Yn dilyn trafodaethau cenedlaethol, penderfynwyd addasu'r rhaglen wreiddiol ar gyfer y llwyfan digidol. Addaswyd (fel grŵp Cenedlaethol) Diwrnod 1 a 2 wyneb yn wyneb gwreiddiol, i 4 modiwl ar-lein. Ail-ddechreuwyd y rhaglen yn ranbarthol (peilot) ar-lein ym mis Tachwedd 2021. Cynhaliwyd sesiynau 1 a 2 (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2021. Bydd sesiynau 3 a 4 yn cael eu cynnal yn Nhymor y Gwanwyn 2022. Bu i 32 gymhorthydd gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant, sydd yn is na'r targed. Bu i 26 cymhorthydd ddechrau'r rhaglen. Roedd y sefyllfa parthed COVID mewn ysgolion yn y rhanbarth, yn gwneud hi'n anodd iawn i ysgolion ryddhau staff. Hyfforddwyd yr hwyluswyr er mwyn cyflwyno'r rhaglen ar lwyfan digidol. Yn anffodus , roedd yn anodd i rai o'r hwyluswyr gael eu rhyddhau o'r ysgol hefyd – ar gyfer hwyluso'r rhaglen. Trefnwyd dyddiadau gyda 3 ysgol er mwyn darparu'r rhaglen uchod o fewn yr ysgol – 1 ysgol gynradd, 1 ysgol Uwchradd ac 1 ysgol arbennig yn ystod Tymor y Gwanwyn 2022 (gobeithir hyfforddi 75 o gymorthyddion). Bydd 2 hwylusydd newydd yn cael eu hyfforddi fel rhan o hyn. Bydd y clystyrau eraill yn cael eu hail-drefnu, ar amser sydd yn gyfleus I'r ysgolion, mwy na thebyg yn y flwyddyn ariannol 2022-23.

**Darpar CALU**
Cynhelir rhaglenni Darpar CALU cyfrwng Cymraeg yn Genedlaethol ar-lein gyda'r Consortia eraill – oherwydd niferoedd llai. Cynhelir rhaglenni Darpar CALU cyfrwng Saesneg ar-lein, ar y cyd gyda Partneriaeth.
Mae cynnwys y rhaglen yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y grŵp Cenedlaethol, gan sicrhau fod negeseuon allweddol a diweddariad CiG yn cael eu cynnwys.

**Darpar CALU Cylch 2**
Darparwyd hyfforddiant ar gyfer 52 cymhorthydd ar y rhaglen Darpar CALU Cylch 2, gyda 50 ohonynt wedi cwblhau y rhaglen hyfforddi gyflawn, sef 8 sesiwn ddigidol. Nid oedd rhaid cyfyngu ar niferoedd wrth gyflwyno'r rhaglen Darpar CALU yn ddigidol.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a sut i'w defnyddio yn eu rôl o ddydd i ddydd. Mae ganddynt hefyd well dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd bod eu mewnbwn i drafodaethau yn broffesiynol ac yn frwdfrydig o ran datblygu CiG yn eu hysgolion. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda'r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr gyda hyn. Mae amryw o'r cymorthyddion wedi mynychu rhaglenni blaenorol o'r Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu e.e Ymsefydlu a

Chymorthyddion wrth eu Gwaith.

**Darpar CALU Cylch 3**

Dechreuodd Darpar CALU Cylch 3 ym mis Medi 2021. Cafwyd 50 cais, ac fe dderbyniwyd 47 ohonynt. Cynigwyd lle i 2 ymgeisydd yng Nghylch 4. Bu i 2 ymgeisydd ofyn am gael trosglwyddo i Gylch 4 oherwydd rhesymau personol. Bu i 1 ymgeisydd benderfynu peidio derbyn ei lle. Cynhaliwyd sesiwn dechnegol cyn cychwyn y rhaglen, er mwyn sicrhau fod y cymorthyddion yn gyfforddus wrth ddefnyddio TEAMS ayyb. Bydd y rhaglen yn gorffen ym mis Mawrth 2022, a bydd asesiadau statws CALU Cylch 2 yn cael eu cynnal rhwng Mai 23 a Mehefin 17, 2022. Cynhaliwyd Modiwlau 1a, 1b, 2a a 2b rhwng mis Medi a mis Rhagfyr, 2021. gyda'r gweddill i ddilyn yn Nhymor y Gwanwyn 2022.

**Darpar CALU Cylch 4**

Cafwyd 32 cais ac fe dderbyniwyd 31, gan gynnig lle i 1 ymgeisydd yng Nghylch 5. Roedd safon y ceisiadau yn uwch yn gyffredinol, ac roedd ansawdd a gwell dyfnder yn eu myfyrdodau ynghylch pam mai statws CALU yw eu cam nesaf. Bydd y rhaglen yn cychwyn ym mis Ionawr, ac yn gorffen ym mis Mehefin 2022. Gyda asesiad statws CALU i ddilyn yn Nhymor yr Hydref 2022.

**Statws CALU – Cylch 2**

Yn dilyn mynychu 8 sesiwn ddigidol Darpar CALU, bu i 67% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 2 wneud cais am asesiad statws CALU. Effeithiwyd ar allu 33% i fynd ymlaen am asesiad oherwydd naill ai nad oedd modd iddynt gael digon o brofiad addysgu dosbarth, oherwydd effaith Covid ar ysgolion, effaith salwch neu oherwydd na fu iddynt lwyddo i ennill cymhwyster Llythrennedd/Rhifedd lefel 2 mewn pryd. Bydd y rhain yn derbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 3 yn Nhymor yr Haf 2022. Bydd sesiwn diweddaru cyn-asesiad yn cael ei gynnal ar eu cyfer ym mis Chwefror 2022.

Rhoddwyd y cyfle i'r ymgeiswyr gyfarfod gyda'r cydlynydd yn unigol neu mewn grŵp er mwyn trafod eu Myfyrdodau Dysgu Proffesiynol, cyn eu cyflwyno ar gyfer asesiad statws CALU.

Cynhaliwyd sesiwn i gefnogi'r cymorthyddion wrth gyflwyno eu haseiniadau dros TEAMS, ac i egluro sut y byddai'r asesiadau yn cael eu cynnal ar-lein dros TEAMS. Cynhaliwyd asesiadau Cylch 2 rhwng Hydref 18fed a Thachwedd 12fed, 2021. Penderfynwyd yn Genedlaethol y byddai angen caniatáu wythnos ychwanegol o asesu, er mwyn goresgyn problemau oedd wedi codi oherwydd absenoldebau staff mewn ysgolion.

Recriwtiwyd a hyfforddwyd 2 aseswr newydd gydag arbenigedd ysgolion arbennig, sy'n golygu bod gennym 24 o aseswyr ar draws y rhanbarth ar gyfer Cylch 2. Cynhaliwyd hyfforddiant diweddaru Cenedlaethol ar gyfer pob aseswr ar Hydref 5ed, 2021. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod cyn-asesu i aseswyr GwE ar Hydref 11fed, 2021 er mwyn i'r cydlynydd ateb unrhyw gwestiwn/pryderon gan aseswyr. Trefnwyd i asesu 31 (1 o Cylch 1) - ond bu i 1 ymgeisydd dynnu yn ôl yn ystod y cyfnod asesu.

Cynhaliwyd Cymedroli Rhanbarthol ar Tachwedd 26ed, 2021, ac yna i ddilyn Cymedroli Cenedlaethol ar Rhagfyr 1af 2021. Dyfarnwyd fod 29 o gymorthyddion wedi bodloni'r gofynion, ac 1 heb fodloni'r gofynion eto. Ni chafwyd apêl. Bydd modd i'r ymgeisydd yma wneud cais am ail-asesiad mewn 12 mis.

Dosbarth Google – erbyn Rhagfyr 2021 roedd 1884 aelod. Mae adnoddau a gwybodaeth yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Hyfforddiant Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cymorthyddion – derbyniwyd cais gan y grŵp Cwricwlwm Cenedlaethol i'r grŵp Llwybr Dysgu Cenedlaethol greu hyfforddiant penodol ar gyfer cymorthyddion. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei greu erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn – gyda'r bwriad o'i hwyluso yn Genedlaethol, a chynnig recordiad a rhestr chwarae i gyd-fynd.

## Y Gymraeg

**Gwaith Clwstwr**

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau Lleol, ac o ganlyniad, llwyddwyd i gytuno ar egwyddorion ar gyfer y rhaglen waith am y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at gysondeb gweithredu cychwynnol ar draws y gogledd. Crëwyd taenlen 'dashfwrdd' newydd ar gyfer y Gymraeg mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau er mwyn coladu'r holl wybodaeth am gynllunio, costau, ac adrodd ar gynnydd. Yn ychwanegol i'r grŵp rhanbarthol,

mae pob Awdurdod wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda'r YCG cyswllt a'r cyfarfodydd yma yn gyfle i wyntyllu amrywiaethau, anghenion a thrafod datrysiadau lleol.

Chwarter 3 - GwE a'r Awdurdodau yn parhau i gyfarfod fesul hanner tymor. Arweiniad a chefnogaeth wedi ei ddarparu gan yr YCG cyswllt yn lleol ar gyfer defnyddio'r 'dashfwrdd' fel dull o gofnodi'r cynllun ar gyfer y gwariant ac amlygu'r broses o gofnodi cynnydd dros y flwyddyn ariannol. Adborth cadarnhaol o drafodaethau gyda Swyddogion yr Awdurdodau ar y drefn eleni a'r broses yn mynd rhagddo yn hwylus a phwrpasol. Cyllid wedi'i ddyrannu i'r ALl. Cyfarfodydd lleol ar gyfer dechrau adrodd ar gynnydd hyd yma wedi eu hamserlennu mewn rhai Awdurdodau.

**Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.**
Mae'r Cydlynwyr Siarter Iaith (SI) wedi cwblhau adroddiadau cynnydd ac mae adroddiad cyfansawdd wedi'i rannu gyda Llywodraeth Cymru (LlC). Mae cyllid i bob clwstwr wedi ei glustnodi er mwyn cefnogi gweithgareddau Siarter Iaith a Cymraeg Campus, â'r Cydlynwyr Siarter Iaith yn rhan o'r trafodaethau gyda'r clystyrau i bwrpas cynllunio'r gwariant yn effeithiol. Mae trafodaethau lleol hefyd wedi eu cynnal ynglŷn â sut mae'r gweithgareddau yma yn cyfrannu tuag at weithrediad CSGA yr Awdurdodau (Deilliant 3 a 5). Mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu cynllunio gyda LlC er mwyn sicrhau cysondeb gweithredu ar draws Cymru a bydd trafodaethau ar rolau'r Cydlynwyr SI ar draws y rhanbarth a dechrau cynllunio ar gyfer Ebrill 2022 yn cael eu cynnal y tymor nesaf.

Chwarter 3 - Cyfarfodydd rhanbarthol gyda'r Cydlynwyr Siarter Iaith wedi eu cynnal. Cyfle i drafod sut gall y prosiect rhanbarthol 'Ein Llais Ni' fod yn gyfle i hyrwyddo a chynnwys gwaith y SI wrth gynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n hybu hinsawdd llafaredd gyfoethog ar draws yr ysgol. Awgrymiadau defnyddiol gan y CSI i'w cynnwys yn y cynllunio ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys cyfrannu tuag at Bodlediad 'Ein Llais Ni', rhannu gwybodaeth am weithgareddau SI yn lleol ayyb. Cytundeb ar gyfer trefnu a chynnal digwyddiad rhanbarthol er mwyn gwneud defnydd effeithiol o ddiwrnod o amser Bardd Plant Cymru sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Datblygu cynnig proffesiynol i'r Iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth**
Mae trafodaethau yn parhau o ran cydweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cynnig proffesiynol ar gyfer adfer yr iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth (addysgeg ac adnoddau ymyraethau i gefnogi dysgwyr ar draws yr ystod gallu). O ran y camau nesaf, byddwn yn amlygu'r ddarpariaeth a'r camau datblygu proffesiynol nesaf i ysgolion gan sicrhau fod sylw pwrpasol yn cael ei roi i'r ddarpariaeth uwchradd – trochi a defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd a phynciau eraill. Bwriedir darparu cyfres o weithdai gan ddyfnhau'r gwaith ymhellach wrth ymgorffori egwyddorion 'Ein Llais Ni' sef cynllun cwbl unigryw i hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yng Ngogledd Cymru (gweler isod).

**Datblygu sgiliau iaith y gweithlu**
Derbyniwyd data gan y Ganolfan Iaith Genedlaethol o ran hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg (Rhan 1 a Rhan 2 tua 5 awr yr un). Mae 94 wedi cofrestru; 52 wedi cwblhau Rhan 1 (uned 1 – 5); a 43 wedi cwblhau Rhan 2 (uned 6 – 10).

Cynlluniau Sabothol – mae cwrs Cymraeg mewn blwyddyn yn cael ei gynnig mewn 2 ran yn y Gogledd eleni.

- 12 wedi'u derbyn i wneud Rhan 1 (Medi – Rhagfyr)
- 9 yn parhau i Rhan 2 (Ionawr – Ebrill) efo 8 ychwanegol yn ymuno efo nhw.
- 5 ar y rhestr aros ar gyfer Rhan 2.

I grynhoi:

- 12 ar y cwrs Sylfaen (rhan 1)
- 17 ar y cwrs Canolradd (rhan 2)
- 20 unigolyn yn cael mynediad i'r cyrsiau efo 5 wrth gefn

Cynhaliwyd trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol ar y cynnig i ysgolion. Dymuniad cryf gan yr Awdurdodau i allu cynnig y Cwrs mewn Blwyddyn i'r ysgolion ar gyfer y flwyddyn addysgol nesaf. Cyfarfodydd misol wedi eu sefydlu gyda Canolfan Bedwyr a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg (Prifysgol Bangor) i hyrwyddo cyrsiau sydd eisoes ar waith ac i gyd-weithio ar ddatblygu cyrsiau penodol i Awdurdodau neu i ymarferwyr addysg e.e. cwrs i gymorthyddion dysgu. Yr angen i dargedu'r sector uwchradd yn cael ei drafod ymhellach gan fod bwlch yn y ddarpariaeth honno.

Cefnogaeth i staff GwE – mae 8 wedi bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant dysgu Cymraeg gan wneud Uned 5 o'r cwrs Canolradd, ac yn ymarfer at yr arholiad.  Mae 4 wedi ymrwymo â'r Cynllun Siarad trwy'r Ganolfan Genedlaethol sef sesiynau i gael cyfle i sgwrsio gyda partneriaid o fewn GwE yn Gymraeg am awr yr wythnos, fel arfer am oddeutu 10 sesiwn.  Mae cais newydd ei gyflwyno 'Cymraeg Gwaith' am fynediad i hyfforddiant pellach drwy'r cynllun. Bydd pawb yn parhau ar y cwrs canolradd. Cynnig wedi dod i staff GwE fynychu cwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn, Gwanwyn 2022.

**Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Miliwn o Siaradwyr LlC:**
**Prosiect Ein Llais Ni (ELlN) - prosiect i ddatblygu sgiliau llafaredd dysgwyr**
Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2021 am gyllid i'n cefnogi i gynnal prosiect ymchwil gweithredol ar gyfer codi safonau llafaredd Cymraeg. Bwriad y cynllun yma yw rhoi'r gyfle i aildanio a gwreiddio sgiliau gwrando a siarad wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cwricwlwm i Gymru gan ystyried strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhyngwladol. Mae cydweithio grymus eisoes ar waith rhwng y Brifysgol a'r Tîm Prosiect wrth gynllunio ar gyfer dechrau'r gwaith ymchwil.  Bydd y cynllun yn rhoi cyfle i ysgolion gydweithio fel tîm ymchwil gweithredol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor a GwE.

Mae llwybr clir wedi ei ddatblygu ar gyfer y prosiect ac yn rhoi sail cadarn iawn ar gyfer datblygu'r gwaith ymchwil gweithredol. Mae'r adborth gan ysgolion yn amlygu fod angen gwirioneddol am y math yma o gefnogaeth, yn enwedig o ystyried effeithiau Covid ar fedrau llafar a hyder y dysgwyr.

Rydym wedi gwahodd ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion i ymuno â chyfle unigryw i ddatblygu a mireinio ymarfer er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yma yng Ngogledd Cymru.  Bydd cefnogaeth i'r ysgolion ar bob cam o'r daith wrth roi'r strategaethau ar waith a hynny dan arweiniad arbenigwr rhyngwladol ar hyrwyddo sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, sef Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor.  Cynhelir Cynhadledd Genedlaethol i lansio'r gwaith ymchwil, yr adnoddau cefnogol, ac i godi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau'r prosiect 'Ein Llais Ni' ar 20 Hydref 2021.

Mae gwaith cynllunio trylwyr iawn wedi ei gynnal mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor (Yr Athro Enlli Thomas a Gareth Caulfield o Adran Ymchwil Addysg a Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol (y Gymraeg) Ysgol Gwyddorau Addysgol).  100 ysgol yn rhan o'r prosiect – 60 ysgol rhwydweithiol, ymchwil parhaus; 40 ymchwil ysgol/clwstwr. 7 ysgol yn cael gwahoddiad i'r gynhadledd yn unig (adrannau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg).
Cyfarfod gyda Swyddogion yr Awdurdodau wedi ei gynnal yn fuan yn nhymor yr hydref er mwyn trafod cynnwys a chyfeiriad y gwaith a chanfod barn ar gyfer gweithredu dros y flwyddyn. Papur trafod yn amlygu'r broses wedi ei rannu ymlaen llaw. Cyfarfodydd pellach, adeiladol, wedi eu cynnal gyda Swyddogion yr Awdurdodau cyn hysbysu ysgolion. O ganlyniad, mae'r cyd-weithredu wedi grymuso'r broses yn ogystal â'r berthynas waith gyda'r timau yn yr awdurdodau.

Wedi rhannu gwybodaeth a derbyn sêl bendith y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor ar gyfer gweithredu'r prosiect.
Aelodaeth o'r Bwrdd Llywio wedi ei gytuno, cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal a'r Cylch Gorchwyl wedi ei gytuno. Cyflwyniad wedi bod i'r holl YCG yn codi ymwybyddiaeth o'r prosiect.

Cynhadledd i lansio'r prosiect wedi ei gynllunio a'i gynnal ac yn cynnwys arlwy gyfoethog sy'n rhoi sylw i'r ymchwil a'r strategaethau ymarferol. Yr ysgolion oedd yn rhan o'r gwaith peilota yn nhymor yr haf yn paratoi cyflwyniadau o'r hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus iddyn nhw i'w rannu yn y gynhadledd. Holl adnoddau a chyflwyniadau'r gynhadledd ar gael drwy wefan ar Teams i'r athrawon sy'n rhan o'r prosiect.

Ll.C wedi cytuno ar addasiad i'r cynllun gwreiddiol ar gyfer ariannu mwy o ysgolion i fod yn rhan o'r prosiect. Dim penodiad i'r swydd Rheolwr Prosiect – aelod o Dîm Busnes GwE yn cefnogi yn lle. Uwch Dîm Arwain GwE wedi cytuno i gyllido yn ychwanegol ar gyfer cynnwys y rhan fwyaf o'r ysgolion oedd wedi mynegi diddordeb. Y rhaglen ar gyfer y flwyddyn i'r ddau fodel (rhwydweithiol ac ymchwil ysgol/clwstwr) yn ei le, dyddiadau wedi eu pennu a chefnogaeth wedi ei amlygu.

Dwy sesiwn Ar Alw ac un cyfarfod Rhwydwaith wedi eu cynnal – cyfle i wyntyllu a thrafod syniadau neu heriau yn ogystal â mynd dan groen agweddau gyflwynwyd yn y gynhadledd; cyfle hefyd i athrawon ddechrau rhannu eu bwriadau a'r ffocws benodol iddyn nhw. Dwy newyddlen sy'n cynnwys diweddariadau wedi eu hanfon i'r ysgolion

er mwyn sicrhau fod bwriadau'r prosiect a'r wybodaeth yn eglur i bawb.

**Datblygu Arweinyddiaeth**
Mae mapio cychwynnol wedi bod ar gyfer cynnal rhwydweithiau llythrennedd cynradd, a chyda Rhwydweithiau Cymraeg yn cyfarfod o ran yr uwchradd – 27 (cyfuniad o rhanbarthol a lleol) (gweler Cynllun Busnes Y Gymraeg a Llythrennedd). Byddwn yn cyd-weithio i gynllunio'r gweithdai sy'n cyd-fynd â'r strategaeth DP i baratoi ar gyfer y CiG gan ystyried cynnwys y rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae cyfarfodydd cychwynnol rhwydweithiau CiG, MDaPh Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi eu cynnal a chadeiryddion cynradd ac uwchradd wedi eu henwebu ar draws y gogledd.
Rôl athrawon yn arwain yn y prosiect 'Ein Llais Ni' yn cael ei amlygu yn gyson a chyfrifoldeb arnynt i sicrhau newid drwy'r ysgol maes o law yn dilyn gweithredu llwyddiannus wrth dreialu yn y dosbarthiadau.

**Datblygu Partneriaethau**
Mae cyfarfodydd cynllunio wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau sydd wedi arwain at rymuso'r cyd-weithio a rhannu adnoddau ymhellach gan amlygu'r anghenion ar draws yr awdurdodau. Yn ogystal, mae'r cydweithio wedi bod yn effeithiol o ran rhannu gwybodaeth a dulliau gweithredu ar draws awdurdodau er mwyn lleihau baich cynllunio.

Mae'r gwaith cenedlaethol rhwng y 4 rhanbarth ymhob cyfnod allweddol wedi parhau sydd wedi arwain at ddatblygu adnoddau clodwiw ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'r cyfarfodydd yn fodd i ddatblygu rhwydweithiau defnyddiol ac i ddyfnhau cydweithio ar sail angen yn yr ysgolion.

Mae parhad yn y drefn o gynnal cyfarfodydd misol gyda'r awdurdodau wedi arwain at gyd-ddealltwriaeth a chytundeb o ran gweithredu'r cynlluniau clwstwr. Amserlen yn ei le ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn. Hyn yn arwain at sicrhau fod llif yr wybodaeth yn gyson ac fod dealltwriaeth gytûn o'r hyn sy'n digwydd yn rhanbarthol ac yn lleol.
YCG cyswllt y Gymraeg yn parhau i fynychu fforymau lleol e.e. CSGA, Fforymau Iaith, cyfarfod swyddogion i wyntyllu anghenion lleol.
Partneriaeth gryf iawn gyda Phrifysgol Bangor wrth baratoi a chynllunio ar gyfer 'Ein Llais Ni'. Hyn wedi arwain yn effeithiol at gynllunio cynhadledd amrywiol a phwrpasol yn seiliedig ar ymchwil.
Cyfarfodydd misol rhwng y rhanbarthau yn gyfle i wyntyllu unrhyw ddatblygiadau ac anghenion penodol cyffredin. Rhain yn cael eu bwydo yn ôl i Ll.C. Penderfyniad wedi bod i oedi y rhwydweithiau cenedlaethol dros dro er mwyn gallu pennu cyfeiriad strategol clir i'r gwaith a sicrhau fod cynrychiolaeth deg ar draws y rhanbarthau i alluogi'r aelodau i gyflawni'r gwaith yn effeithiol.
Cyfarfodydd misol gyda Ll.C – Y Gymraeg a'r Siarter Iaith yn rhannu diweddariadau ac yn gyfle i drafod unrhyw anghenion penodol e.e. mynediad i'r holiaduron a'r gwe iaith, arferion llwyddiannus ayyb.

**LEFEL A**

**Defnyddio ALPs ar lefel ranbarthol**: Mae data ALPs yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ar gyfer deilliannau 2021.

**Datblygu arweinwyr at y dyfodol**: Cwrs Arweinyddiaeth Ôl-16: yn dilyn adolygiad o'r rhaglen, gyda'r cynrychiolwyr consortia eraill, fe gafodd y cwrs ei ail-ddatblygu mewn ffurf o bell dros bedwar sesiwn hanner diwrnod. Cynhelir y sesiwn gyflenwi gyntaf ar Hydref 9.

**Datblygu gwydnwch ac annibyniaeth mewn dysgwyr**: hyfforddiant yn y rhaglen VESPA. Cynigiwyd tri sesiwn datblygu pellach y tymor hwn – Cyflwyniad i VESPA; VESPA ar gyfer tiwtoriaid dosbarth a Hyfforddi.

**Rhwydweithio a rhannu arferion ar draws penaethiaid 6ed Dosbarth:** bydd cyfarfodydd rhwydwaith a drefnwyd yn cael eu cynnal yn fuan (Hydref/Tachwedd).

**E-sgol**
**Parhau i gefnogi'r 6 e-sgol beilot ac ehangu eu cwricwlwm ym mlwyddyn 12:** Mae'r amserlen a phynciau newydd wedi'u trefnu gyda'r 6 ysgol yn ogystal â'r darparwr allanol Mudiad Meithrin yn darparu cwrs Cam wrth Gam.

**Sefydlu a gweithio gyda'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol a'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol i weithredu camau, a godir ar ôl cyfarfod gyda chyfarwyddwyr y 6 ALl i lunio themâu cyffredin**: cynhaliwyd cyfarfodydd ar draws pob

un o'r 6 awdurdod. Mae'r Bwrdd Strategol wedi cyfarfod eto - yn edrych ar aelodau'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach y tymor hwn. Yn cyfarfod cyn hanner tymor Hydref 2021 i ddatblygu gwaith gyda'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol yn ogystal â phrosiectau peilot posibl.

## YMCHWIL A GWERTHUSO

Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn efo'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Warwick i hyrwyddo defnyddio dulliau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion. Mae'r tri phrosiect isod, a ariennir gan GwE, yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ac yn hyrwyddo defnyddio strategaethau fwy seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion i wella deilliannau dysgwyr. Rydym hefyd yn gweithio ar hybu cysylltiadau fwy cadarn rhwng ymchwilwyr addysg mewn SaAU ac ysgolion, er mwyn sicrhau trosglwyddo gwybodaeth drwy gyfrwng yr 'hwyluswyr' drwy weithgareddau ailadroddol (Gorard, 2020).

Mae'r agwedd Ymchwil a Gwerthuso ar *Gynllun Busnes 4 (Ysgolion Cryf a Chynhwysol)* yn cynnwys cyllid ar gyfer tri prif brosiect, isod. Nodir diweddariadau ar weddill prosiectau ymchwil cydweithredol GwE-CIEREI ar ddiwedd y crynodeb hwn.

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2**

Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamserol/anghydamserol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020, ac mae'r rhain bellach yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig i'w defnyddio yn y dosbarth a hefyd gan rieni a gofalwyr.

Ym mis Mehefin 2021 anfonwyd gwahoddiad i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr haf a'r hydref 2021, a mynychodd RW a VL gyfarfodydd fforwm Penaethiaid rhanbarthol i egluro'r rhaglen. Cafodd RILL dderbyniad cadarnhaol iawn yn y cyfarfodydd hyn, yn enwedig y fersiwn Gymraeg unigryw newydd.

***Diweddariad ar RILL:***

Yn dilyn hysbysebu ym mis Mehefin 2021, mae'r 54 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant ym mis Medi 2021, y rhan fwyaf ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg:

Mae 31 ysgol o'r 54 wedi cael hyfforddiant RILL hyd yma, ac mae hyn yn cynnwys 55 athro. Gwahoddwyd y 25 ysgol a oedd yn weddill i fynychu sesiwn erbyn diwedd tymor y gwanwyn 2022. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn, rydym yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol ar hyn o bryd i gefnogi athrawon. Rydym hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (er enghraifft, tiwtorialau a fideos esboniadol), gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau efo'r tîm ymchwil/athrawon eraill. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cymeradwyo cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn ysgolion, ond mae'r tarfu parhaus yn sgil COVID-19 wedi atal hyn. Yn hytrach, mae'r tîm ymchwil yn cynnal hyfforddiant ar-lein i grwpiau bach a chymorth dilynol. Mae'r tîm ymchwil hefyd yn helpu ysgolion i gynnal profion gwaelodlin er mwyn cae data effaith ar gyfer RILL. Cynhelir profion dilynol yn ystod tymor yr haf. Yn ystod tymor y gwanwyn, byddwn yn darparu cymorth parhaus i'r rheiny gafodd hyfforddiant yn ystod tymor yr hydref, a bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i aelodau staff ychwanegol yn yr ysgolion hyn. Yn ogystal â'r hyfforddiant RILL, byddwn yn cynnig gweminar fyw i ysgolion gogledd Cymru ar addysgu iaith a llythrennedd yn effeithiol, a fydd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

**Prosiect PhD cydweithredol Addysgu Manwl a SAFMEDS**

Pan gadarnhawyd cyllid ym mis Mehefin 2021 dechreuodd RW, SC, MED a staff ymchwil CIEREI ar y gwaith cynllunio. Hyd yma, mae'r adnoddau SAFMEDS a ganlyn wedi'u creu a'u rhannu ag ysgolion:

- Sesiynau galw heibio misol i ysgolion rhanbarthol
- Hyfforddiant unigryw i ysgolion rhanbarthol ac UauCD
- Hyrwyddo SAFMEDS drwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE
- Creu adnoddau dwyieithog, yn barod i'w lansio maes o law:
- Tiwtorial SAFMEDS ar-lein
- Gwefan unigryw SAFMEDS
- Hyfforddiant SAFMEDS diwygiedig ar gardiau goff efydal â llaw

- Cyflwyniad i hyfforddiant Addysgu Manwl
- Cardiau SAFMEDS Cam Ychwanegol i roi sylw ehangach i'r Fframwaith Rhifedd
- Comisiynwyd creu deunyddiau Dysgu newydd - gellir defnyddio'r rhain fel darpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol, gan dargedu ymarfer adalw rheolaidd a datblygu rhuglder.

**Diweddariad ar SAFMEDS:**

Sesiynau galw heibio - 6 sesiwn a llawer yn mynychu.

Dyma'r ffigyrau gwylio ar gyfer y deunyddiau ar-lein:

- *Saesneg: Gwyliodd 1023 y weminar ailgydio mewn dysgu, a 391 y fideo hyfforddiant SAFMEDS.*
- *Cymraeg: 474 ar gyfer y weminar a 70 ar gyfer yr hyfforddiant SAFMEDS.*

Mae Prifysgol Bangor wedi cytuno i roi arian cyfatebol tuag at y prosiect hwn er mwyn penodi myfyriwr PhD i ddarparu'r prosiect dros y tair blynedd nesaf. Y nod yw meithrin capasiti i GwE gefnogi ysgolion. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ddiweddar a dyfarnwyd yr ysgoloriaeth ymchwil PhD i gyn-athro/athrawes yn un o ysgolion cynradd Conwy.

Ym mis Ionawr 2022 ail-lansiwyd prosiect SAFMEDS yn ffurfiol ochr yn ochr â'n gwefan SAFMEDS newydd, sy'n fodd i ddisgyblion feithrin rhuglder gartref neu yn yr ysgol. Rhyddhawyd gweminar hefyd gyda ffeiliau wedi'i diweddaru ar y ganolfan adnoddau, ynghyd â meddalwedd trwsio ar y wefan. Dyma'r ffigyrau gwylio ar gyfer y wefan newydd:

- *Gweminar cyfrwng Saesneg: Gwyliodd 78 mewn un wythnos*
- *Gweminar cyfrwng Cymraeg: Gwyliodd 30 mewn un wythnos*
- *Disgyblion yn cwblhau oddeutu 677 gweithgaredd mathemateg y diwrnod*

**Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (i-FOR)**

Mae 42 ysgol a gofrestrodd wedi cael mynediad i fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyrraeth i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Mae 10 ysgol o ganlyniad wedi mynychu sesiwn holi ac ateb dilynol ar-lein. Gwahoddir pob ysgol yn awr i fynychu pedwar sesiwn cymorth i weithredu o bell ym mis Tachwedd 2021, Ionawr, Mawrth a Mai 2022, a gallant gysylltu â'r tim ymchwil i gael unrhyw gymorth yn y cyfamser. Cynhaliwyd y cyntaf o'r sesiynau cymorth hyn ym mis Ionawr 2022. Mae datblygu'r deunyddiau Cymraeg ymhellach hefyd ar y gweill, gan eu gwneud yn gydnaws â'r deunyddiau Saesneg. Gwahoddir ysgolion hefyd i ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar yn ogystal â chadw golwg ar ddefnydd rhieni o'r deunyddiau rhuglder hyn gartref. Dyma niferoedd athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:

- *Mae 62 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg*
- *Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg*

Gwahoddir ysgolion ychwanegol i gymryd rhan yn y prosiect yn nhymor yr haf. Erbyn hynny bydd banc cyflawn o hyfforddiant a gweminarau cymorth wedi'u recordio ar gael.

**Tair ysgoloriaeth Meistr mewn Ymchwil KESS ar gyfer 2021-22, dan nawdd GwE**

1. *Diffinio Rôl Llais y Disgybl yn y Cwricwlwm Newydd*
2. *Addasu Cwricwlwm Iechyd a Lles Connect i Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, Cwricwlwm Cymru.*
3. *Cyfieithu Cwricwlwm Iechyd a Lles Connect i Gymraeg.*

Llwyddwyd i benodi myfyrwyr ar gyfer prosiectau KESS 1 a 2 uchod, ac maent yn dechrau arni hanner tymor hwn ac yn parhau tan ddiwedd 2022, ond ni lwyddwyd i ddenu ymgeiswyr ar gyfer y trydydd prosiect hyd yma. Rydym yn hysbysebu am y tro olaf, fel arall bydd angen dychwelyd y cyllid o £6.5k i GwE. Mae RW wedi trefnu cyfarfodydd gydag arweinwyr y prosiect cyntaf er mwyn sicrhau cyswllt â gwaith rhanbarthol, er enghraifft, rhwydweithiau CiG yn gweithio ar lais y disgybl. Corfforwyd Prosiect 2 yn ein hastudiaeth les ranbarthol newydd, fel y disgrifir isod, o dan 'Warwick', ac mae gwaith yn mynd rhagddo. Rydym yn aros am anfonebau ar gyfer prosiectau 1 a 2.

**Gwella Safonau drwy Adolygu Effeithiol (iStER)**

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil PhD hon yn ei thrydedd flwyddyn, y flwyddyn olaf (2020-21), ac mae'r myfyriwr wrthi'n llunio papurau i'w cyhoeddi, yn canolbwyntio ar ddefnyddio strategaethau ymarfer adalw ac ymarfer profi. Mae bellach wedi cyflwyno cynnig i barhau'r gwaith hwn gydag ystod o ysgolion uwchradd mewn cymunedau mwy difreintiedig. Ym mis Hydref 2021 llwyddwyd i gael cyllid grant o £7k gan Raglen Gogledd a Chanolbarth Cymru Ymestyn yn Ehangach i dreialu'r deunyddiau iStER hyn mewn mathemateg, a hynny mewn pedair ysgol uwchradd mewn ardaloedd difreintiedig iawn.

**Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L)**

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil PhD hon yn ei hail flwyddyn (2020-21), ac mae'r myfyriwr yn parhau gyda'i harfarniad o effaith strategaethau ysgol gyfan i gefnogi ymddygiad yn gadarnhaol mewn dwy ysgol sy'n gwasanaethu cymunedau difreintiedig. Ym mis Hydref 2021 llwyddwyd i gael cyllid grant o £2.5k gan Raglen Gogledd a Chanolbarth Cymru Ymestyn yn Ehangach i gwblhau trydedd flwyddyn y Ddoethuriaeth hon a rhannu canfyddiadau yn ehangach.

**Prosiect Lles Cydweithredol Warwick**

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil PhD gydweithredol hon yn ei hail flwyddyn (2021-22), ac mae'r myfyriwr (Atiyya Nisar) yn parhau gyda'i harfarniad o ddarpariaeth les ysgol gyfan. Cwblhawyd y prif dasgau a ganlyn:

- *adolygiad systematig o'r ddogfennaeth ar ymyraethau a rhaglenni lles ysgol gyfan. Cyflwynwyd hwn i'w gyhoeddi.*
- *Arolwg rhanbarthol ar ddefnydd ysgolion o raglenni lles yng ngogledd Cymru.*

Dechreuodd gwaith ar y drydedd agwedd ar y prosiect hwn, yr agwedd olaf, yn nhymor yr hydref 2021. Arfarniad fydd hwn o raglen les addawol ysgol gyfan o'r enw Connect. Gwneir y gwaith hwn ochr yn ochr â dau fyfyriwr Meistr newydd dan nawdd KESS ym Mhrifysgol Bangor, a bydd yn golygu arfarniad o Connect ochr yn ochr â chyfieithu fersiwn iaith Gymraeg. Rydym bellach wedi recriwtio 33 ysgol ar gyfer llinyn iaith Saesneg a llinyn iaith Gymraeg o arfarnu Connect. Cynhelir hyfforddiant ym mis Ionawr/Chwefror 2022, ac mae ysgolion wedi enwebu disgyblion i gwblhau profion gwaelodlin cyn cael darpariaeth Connect o fis Chwefror hyd Mehefin 2022.

**Astudiaeth KiVa UK**

Mae GwE yn gyd-ymgeisydd ar y prosiect ymchwil ar raddfa fawr hwn i arfarnu effaith rhaglen gwrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn atal y prosiect oherwydd pandemig COVID-19, mae 30 ysgol yng ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Dewiswyd 15 ohonynt ar hap i gael KiVa yn 2021-22, a'r 15 arall yn 2022-23. Cafodd yr ysgolion ymyrraeth hyfforddiant yn nhymor yr haf 2021, ac maent wedi bod yn cyflwyno KiVa er mis Medi 2021.

**Prosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP)**

Bu RW yn gweithio efo Llywodraeth Cymru ar gam cychwynnol y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) yn 2021, a lansiwyd hyn ym mis Gorffennaf 2021. Mae RW wedi bod yn gweithio efo Llywodraeth Cymru i adnabod clystyrau o ysgolion yng ngogledd Cymru i fod yn rhan o beilot 2021-22 y fenter hon i greu rhagor o ysgolion a lywir gan dystiolaeth. Mae 11 clwstwr bellach (41 ysgol) yn rhan o'r prosiect hwn, o bob un o'r chwe Awdurdod Lleol. Cafwyd cyfarfod lansio ym mis Rhagfyr 2022, ac mae'r tîm ymchwil wrthi'n dosbarthu'r arolwg gwaelodlin i ysgolion cyn ein bod yn dechrau sesiynau gydag ysgolion o fis Chwefror hyd Mehefin 2022.

**Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP)**

Ar hyn o bryd mae 42 ysgol yn rhan o brosiect NPEP, sy'n cynnwys 11 ysgol arweiniol a 31 ysgol bartner ar draws pob ALl. Mae GwE yn parhau i weithio gyda staff Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr i gefnogi'r ysgolion hyn mewn cyfarfodydd bob hanner tymor a rhoi mewnbwn ar ddulliau ymchwil a gwerthuso.

**Rôl strategol mewn datblygu model ar gyfer ymchwil cydweithredol gydag ysgolion.**

Nod pob un o'r prosiectau a ddisgrifir uchod yw datblygu dull seiliedig ar dystiolaeth o wella ysgolion gogledd Cymru. Mae hyn yn atgyfnerthu'r gwaith y mae GwE a CIEREI wedi bod yn ei wneud er 2016. Mae RW yn parhau mewn dwy rôl - fel cydlynydd yr agwedd ymchwil ysgol a dysgu proffesiynol ar y gwaith cydweithredol hwn, a goruchwylio a chefnogi'r myfyrwyr Meistr a Doethuriaeth sydd yn rhan o'r gwaith hwn. Mae ffocws cynyddol hefyd ar weithio efo Llywodraeth Cymru yn 2021-22 i rannu'r allbynnau hyn. I'r perwyl hwn, mae gennym ddau bapur ymchwil a gafodd eu derbyn ar gyfer eu cyhoeddi eleni:

Owen, K., Watkins, R. C. and Hughes, J. C. (yn cael ei adolygu) From Evidence-Informed to Evidence-Based: An Evidence Builidng Framework for Education. Review of Education.

Pegram, J., Watkins, R. C., Hoerger, M. and Hughes, J. C. (yn y wasg) Assessing the Range and Evidence-Base of Interventions in a Typical School Cluster. Review of Education

**AGA**

**Cydweithio gyda'r Prifysgolion i sicrhau bod addysg gychwynnol athrawon a'u sefydliad yn broses esmwyth.**
Mae'r 4 consortia a'r darparwyr AGA wedi cydweithio eleni ar brosiect gan Lywodraeth Cymru i wella sgiliau mentora'r AGA a'r Mentor Sefydlu. Caiff y gweithdai tridiau eu cyd-gyflwyno ym mis Medi, mis Rhagfyr a mis Mai 2022. Mae 4 cynrychiolydd consortia a chydweithwyr AGA wedi cyflwyno diweddariad ar y cynnydd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021.

**Sicrhau cefnogaeth gadarn i garfan ANG 2021/22 GwE.**
Mae rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol o safon uchel yn mynd rhagddi ar gyfer ANG. Roedd 321 o ANG GwE wedi mynychu sesiwn 1 o hyfforddiant cenedlaethol ANG. Trwy ymagwedd gydweithredol, mae cynlluniau cadarn ar waith i sicrhau trefniadau sefydlu mwy di-dor ar gyfer ANG. Bydd y rhaglen Fentora Sefydlu AGA/y Consortiwm yn cychwyn ym mis Tachwedd, bu cryn ddiddordeb yn y fenter newydd hon.

Mae gweithdrefnau ar waith i wella ansawdd mentora. Roedd 174 o Fentoriaid Sefydlu GwE a leolir mewn ysgolion wedi mynychu'r hyfforddiant cenedlaethol, y nifer uchaf o unrhyw gonsortiwm yng Nghymru.

Mae rhwydweithiau pynciau arbenigol yng nghamau cyntaf eu datblygiad.

Mae rhai ANG ar hyn o bryd ar leoliadau mewn ysgolion am y tymor – mae'r cam arloesol hwn yn sicrhau eu bod yn gallu ymarfer eu haddysgu yn llwyddiannus ynghyd â chefnogi eu sefydlu. Ceir dros 100 o ANG cynradd a 30 o rai uwchradd yn ysgolion GwE sy'n manteisio ar y cynllun hwn gan LlC.

Mae lleoliadau ANG yn parhau yn nhymor y gwanwyn - caiff hyn effaith gadarn a chadarnhaol ar sefydlu.

**Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu a hyfforddi athrawon sy'n dysgu yn y sectorau cynradd ac uwchradd.**
**Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith gadarnhaol darpariaeth AGA o safon uchel ar ysgolion yn y rhanbarth.**
Mae dulliau cyfathrebu'n cael eu diweddaru ar hyn o bryd - mae'r wefan yn cael ei diweddaru, cylchlythyr wedi'i gynllunio, gweminar posibl wedi'i chynllunio, a darparwyd gwybodaeth i ysgolion lle y bo'n briodol. Mae hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteision cadarnhaol darpariaeth AGA llwyddiannus.

Mae GwE yn mynychu cyfarfodydd staff CaBan a HMS lle y bo'n briodol, ac mae staff CaBan yn mynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol GwE – e.e. Shirley Clarke, sesiynau CiG, mae staff GwE yn cyflwyno ar raglenni BA a TAR. Mae cyfanswm o 24 o staff GwE wedi cynnig sesiynau: darparwyd 17 o sesiynau yn 2020-21, a hyd yma, yn nhymor yr hydref 2021-22, cynlluniwyd 10 o sesiynau, gyda rhagor i ddilyn yn chwarteri 3 a 4. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn cael eu rhannu, ynghyd â gwell adnoddau, gwell cysondeb o ran dulliau gweithio, cynyddu gwybodaeth a sgiliau staff GwE, staff CaBan ac athrawon dan hyfforddiant.

Sesiynau cydweithredol E-sgol – cynlluniwyd sesiynau cychwynnol i uwchsgilio a chodi ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyfleoedd gydag ysgolion e-sgol rhanbarthol. Sesiynau wedi'u cynllunio a rhwydweithio cenedlaethol i sicrhau mynediad teg ynghyd â hybu recriwtio a gwybodaeth bynciol mewn meysydd prinder allweddol.

Wedsi gweithredu fel y cynlluniwyd. Cynhaliwyd sesiynau diweddaru. Mae staff GwE wedi cyflwyno sesiynau pellach i staff CaBan ar y CiG ac wedi hwyluso seminarau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, y CiG a dyslecsia.

Mae Partneriaeth CaBan yn datblygu llwybrau ADY traws sector ar gyfer myfyrwyr, drwy'r TAR presennol ac fel TAR newydd mewn ysgolion, drwy ymgynghori â CGA a LlC. Tîm prosiect arweiniol a thîm estynedig wedi'u sefydlu ar gyfer ymgynghori.
Y camau nesaf - sefydlu gweithgorau i ddatblygu dogfennau achredu, cyflwynir y rhain i'w dilysu a'u hachredu ym mis Mawrth 2022.

Mae'r Brifysgol Agored yn cychwyn rhaglen beilot i Ysgolion Arbennig ym mis Medi 2022. Mae un ysgol ranbarthol yn rhan o'r rhaglen hon.

**Cymraeg**
Mae gwybodaeth myfyrwyr ac ANG o'r Gymraeg yn gwella. Mae cydweithrediad yn parhau â Phrifysgol Bangor i sicrhau bod addysgeg yn cael ei hymwreiddio ac y cymerir camau i fynd i'r afael â disgwyliadau, yn enwedig o ran diwylliant a threftadaeth Cymru, yng nghyswllt y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r cwrs / llwybr TAR cyfrwng Cymraeg wedi'i weithredu'n llawn.

Prosiect a Rennir yn Seiliedig ar Ymchwil, 'Ein Llais Ni' - cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng GwE a thîm ymchwil Prifysgol Bangor. Cafwyd nifer dda yn mynegi diddordeb mewn ymuno â'r prosiect, gyda 103 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymgeisio o blith pob ALl. Mae bron pob ysgol yn mynychu'r Gynhadledd a bydd 60 yn gweithio'n agos â'r agwedd ymchwil ar y prosiect. Bydd y tîm ymchwil yn gweithio'n agos â nifer benodol o ysgolion i werthuso effeithiau'r strategaethau.

Mae'r prosiect wedi hen sefydlu. Cynhaliwyd cynhadledd i rannu, mae ysgolion sy'n rhan o'r prosiect yn gwbl weithredol ar draws y rhanbarth.

**DIGIDOL**

**Cadernid Digidol**
Mae GwE wedi recordio a rhyddhau tair pennod sy'n rhan o gyfres o bodlediadau yn trafod cadernid digidol. Ymhlith y pynciau a drafodwyd oedd 'Camwybodaeth', 'Aros yn driw i chi'ch hun ar-lein' a 'Chwarae gemau ar-lein'. Mae'r podlediadau wedi'u cydnabod yn genedlaethol, gyda Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio fel podlediad answyddogol i gefnogi eu tudalennau cymorth i ysgolion drwy wefan Hwb.

**Datblygu Arweinyddiaeth Ddigidol**
Yn ystod chwarter 2, ail-lansiwyd y rhaglen hwyluswyr digidol. Mae'r ymateb hyd yma wedi bod yn wych gyda'r holl glystyrau wedi enwebu hwylusydd digidol i fod yn rhan o'r rhaglen. Hyd yn hyn rydym wedi cynnal 2 ddiwrnod hyfforddi ar gyfer yr hwyluswyr digidol. Mae pob hwylusydd wedi cael y dasg o gynnal awdit yn eu clwstwr i adnabion gofynion hyfforddi a chefnogaeth cyffredin. Yn ystod ail ddiwrnod yr hyfforddiant rhannwyd adnoddau gyda'r hwyluswyr digidol a fydd yn arwain eu clwstwr drwy'r broses o lunio gweledigaeth ar gyfer dysgu digidol a throsi eu gweledigaeth yn gynllun strategol, gan ystyried y blaenoriaethau adanabwyd yn yr awdit. Bydd pob ysgol yn cael ei hariannu i ymgysylltu â'r rhaglen hon. Er bod y rhaglen hon yn y dyddiau cynnar o hyd, mae 13 clwstwr eisoes wedi ffurfio a chyfarfod fel gweithgor i ymgysylltu â'r gwaith, gyda 78 o ysgolion yn cymryd rhan hyd yn hyn. Disgwyliwn i'r ffigur hwn dyfu yn ystod chwarter 4 wrth i fwy o glystyrau ddechrau ymgysylltu â'r rhaglen.

**Hwb**
Mae'r data ynghylch y defnydd o Hwb yn y rhanbarth yn parhau i fod yn uchel. Roedd nifer cyfartalog ysgolion y rhanbarth a ymgysylltodd â Hwb yn ystod chwarter 3 yn 98.3%. Roedd y cyfartaledd ar gyfer pob mis fel a ganlyn:

- Hydref – 98.3%
- Tachwedd – 98.5%
- Rhagfyr - 98.1%

**Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol**
I gefnogi ysgolion gyda'u defnydd o Hwb, crëwyd cyfres o gyrsiau ar-lein sy'n canolbwyntio ar ddefnydd effeithiol o'r gwasanaethau sydd ar gael; Google for Education, J2E, Flipgrid, Adobe Spark. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u cynllunio

ar sawl lefel i sicrhau bod defnyddwyr newydd a phrofiadol yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygu. Cynigir yr hyfforddiant hwn fel cwrs sydd ar gael yn ôl y galw er mwyn sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr dysgu yn gallu ymgysylltu ar amser sy'n gyfleus iddynt. Hyd yn hyn, mae'r cynnwys wedi'i wylio 7059 o weithiau – sy'n gynnydd o 1417 o weithiau ers chwarter 2.

**Cefnogaeth Cwricwlwm i Gymru**
Rhannwyd citiau o offer rhaglennu rhwng ysgolion ar draws y rhanbarth er mwyn rhoi cyfle iddynt arbrofi gyda gofynion o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Y bwriad yw bod yr ysgolion hyn yn gallu darparu / rhannu eu profiadau gydag ysgolion eraill a bwydo eu profiadau i mewn i rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru lleol a rhanbarthol. Comisiynwyd 2 ymarferydd i baratoi adnoddau sy'n addas i arddangos ac ateb gofynion o fewn y llinyn cyfrifiaduro yng Nghwricwlwm i Gymru. Mae 10 adnodd wedi ei greu a'u rhannu hyd yma.

**MATHEMATEG A RHIFEDD**

**Ysgolion sy'n Achosi Pryder**
**Cynradd:** Mae cymorth wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion yng Nghategori Estyn (Mesurau Arbennig) wedi canolbwyntio ar gefnogi gweithdrefnau monitro ysgol gyfan ynghyd â pharatoi ysgolion yn briodol ar gyfer ymweliadau dilynol gan Estyn. Mae cymorth wedi'i deilwra a gweithdai wedi parhau ar gyfer ysgolion y rhanbarth y tybir eu bod 'mewn perygl' neu mewn categori ESTYN. Mae hyn wedi arwain at gynllunio gwell ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a gwell dealltwriaeth o sut mae rhifedd yn cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm. Dwy ysgol a gefnogwyd wedi eu tynnu allan o gategori ESTYN.

**Uwchradd:** Mae cymorth ar gael i unrhyw ysgol sydd wedi ei adnabod gan yr YCG yn y Cynllun Cefnogaeth Ysgol. Blaenoriaethir ysgolion sydd mewn categori ESTYN neu gyda Pennaeth adran newydd i'w rôl. Hyd yma mae pob ysgol sydd wedi nodi eu bod yn awyddus wedi derbyn cymorth.

**Cefnogaeth Ranbarthol**
**Cynradd ac Uwchradd: Ymgyfarwyddo â MDaPh Mathemateg a Rhifedd.** Gweithdy ar-lein i athrawon Mathemateg ysgolion cynradd ac uwchradd y rhanbarth. Dr Gareth Evans, Pennaeth Mathemateg Ysgol Y Creuddyn yn arwain y sesiwn. Ffocws y gweithdy oedd crynhoi'r newidiadau ym maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd ac awgrymu tasgau a thechnegau ar gyfer datblygu'r hyfedreddau mathemategol sy'n rhan allweddol o'r cwricwlwm newydd.

**Cynradd: Rhwydweithiau Arweinyddion Rhifedd** - nid yw'r rhain wedi digwydd fel y cynlluniwyd yn wreiddiol - defnydd o Rwydweithiau Rhanbarthol a Lleol i raeadru gwybodaeth.

**Cynradd: Asesiadau Personol-** Cefnogaeth barhaus yn cael ei darparu i ysgolion unigol wneud defnydd effeithiol o'r Asesiadau Personol LlC, i lywio'r cynllunio ac ymyraethau.

**Cynradd: Cwricwlwm i Gymru**
Bydd Rhwydweithiau Mathemateg a Rhifedd Cwricwlwm i Gymru yn effeithio yn uniongyrchol ar weithgareddau y rhwydweithiau lleol ar draws y rhanbarth.

**Diweddariad**
Cynhaliwyd cyfarfod ar gyfer cydlynwyr rhifedd er mwyn ymgyfarwyddo gyda rhifedd yn y CiG a'r Asesiadau Personol.
Sesiynau wedi eu recordio ac wedi eu rhannu gyda Penaethiaid Adran er mwyn rhannu negeseuon allweddol megis rhwydweithiau CiG, diweddariadau CBAC, cyfleoedd dysgu proffesiynol gan GWE ac arweiniad gan yr FMSPW (Hydref a Tachwedd).
Sesiynau addysgeg wedi eu harwain gan Chris Henry (Ysgol Uwchradd Cei Connah) a Dr Sally Bamber (Prifysgol Gaer). Sesiwn 1: Datblygu Meddwl yn Algebraidd drwy Rif (wedi ei gynnal yn Chwarter 3). Sesiynau pellach I ddilyn yn Chwarter 4.

**Maths.Cymru**
Mae'r wefan wedi ei datblygu erbyn hyn gynnwys cefnogaeth i ddysgwyr yn CA4 gyda gogwydd Rhifedd i'r engreifftiau. Bellach mae ar gael ar y dair haen yn y ddwy iaith. Yn CA3 mae'r cynnwys ar gyfer Rhif ar gael ac yn parhau i ddatlygu.

| SAESNEG A LLYTHRENNEDD |
|---|
| **Ysgolion sy'n Achosi Pryder**<br>Mae cymorth wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder o fewn categorïau Estyn wedi paratoi ysgolion yn briodol ar gyfer ymweliadau dilynol gan Estyn. Crëwyd grwpiau o ysgolion â blaenoriaethau a rennir o ran datblygu ysgrifennu. Darperir/hwylusir cymorth parhaus yn unol â'u hanghenion.<br>Darperir cymorth i ysgolion unigol, yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth, i ysgolion sydd wedi gofyn am gymorth o'r fath.<br><br>Mae cymorth i ysgolion cynradd sy'n destun pryder wedi parhau, gyda 2 ysgol yn symud allan o gategori Estyn. Mae llawer o'r cymorth unigryw yn cynnwys cefnogi cynllunio gwersi a'r cwricwlwm er mwyn gwella safonau, ond hefyd i gyd-fynd â'r CiG. Darllen, ffoneg a llafaredd yw testun y rhan fwyaf o geisiadau am gymorth gan ysgolion unigol.<br><br>**Cyfarfodydd Rhwydwaith**<br>Sefydlwyd cyfarfodydd Rhwydwaith/Fforwm rhanbarthol ar gyfer Penaethiaid Adran/Arweinwyr Safon Uwch/Llythrennedd<br>Cynhaliwyd cyfarfod rhwydwaith fin nos (a'i recordio) ar gyfer Penaethiaid Saesneg, yn canolbwyntio ar y CiG a'r gofynion presennol ar gyfer arholiadau CBAC.<br><br>Ni chynhaliwyd cyfarfod rhwydwaith cynradd i arweinwyr llythrennedd yn Ch3 gan fod arweinwyr yn hytrach wedi ymuno â'r rhwydweithiau CiG rhanbarthol.<br><br>**Cwricwlwm i Gymru**<br>Sefydlwyd cymorth rhwydwaith o fewn Rhwydweithiau CiG Rhanbarthol a chaiff effaith uniongyrchol ar weithgareddau Rhwydweithiau Lleol ar draws y rhanbarth cyfan.<br><br>Cafodd ysgolion eu recriwtio i weithio ar brosiect CiG "Creu ar draws Ieithoedd", i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd, sgiliau cyfannol, themâu trawsbynciol a phrofiadau dysgu.<br>Cymorth parhaus i ysgolion sy'n rhan o'r peilot 'Building Reading Power' i wneud defnydd effeithiol o ddata asesu, gan gynnwys Asesiadau Personol Cenedlaethol, er mwyn llywio cynllunio ac ymyriadau.<br><br>Cynlluniau wedi'u creu i gefnogi'r gwaith trawsranbarthol ar Ddarllen a Llafaredd gyda LlC - cwblhawyd archwiliad ar ddarpariaeth GwE hyd yma i gefnogi darllen a llafaredd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn bwydo'r archwiliad trawsranbarthol. Ceir cynlluniau dros dro i ategu a chefnogi cynnig dysgu proffesiynol GwE am y 3 blynedd nesaf, ar gyfer MDaPh ILlCh. |
| **Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD** |
| **Cyfarfodydd rhwydweithiau**<br>Yn ystod Chwarter 3 trefnwyd cyfarfodydd gwyll dros Teams ar gyfer Penaethiaid Adrannau Y Gymraeg (trwy wahoddiad uniongyrchol a thrwy wahoddiad agored), yn ogystal â chyfarfodydd rhwydwaith Cynghreiriau o ysgolion (Penaethiaid Adrannau y Gymraeg a Chydlynwyr Llythrennedd). Mae'r sesiynau agored 'Ar alw' (gyda ffocws penodol) dros Teams yn parhau a bydd cyfarfodydd yn cael eu recordio a'u gosod o fewn y Teams isod.<br><br>**Datblygu Teams 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd'**<br>Rhennir gwybodaeth a rhwydweithio ar lwyfannau digidol ac mae'r rhwydweithiau digidol hyn bellach yn datblygu a'r athrawon yn ymgysylltu a chyfrannu tuag atynt. Yn ystod Chwarter 3 sefydlwyd Teams ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn ogystal â 'GwE - Y Gymraeg – Uwchradd – CS (Cyfrwng Saesneg)' a bydd angen gwerthuso'r ymgysylltu a'r cynnwys yn gyson er mwyn datblygu'r rhwydwaith hwn a'i gadw'n gyfredol, hylaw a pherthnasol. Mae 'ffrwd' ymgysylltu'r llwyfannau digidol hyn yn bwysig ac yn cadw egwyddor y 'cylchlythyr' yn 'fyw' a chyfredol o fewn y Teams a bydd athrawon yn gallu cyfrannu tuag ato. Erbyn hyn, sylwyd bod angen sefydlu Google Classroom yn ogystal ar gyfer ymgysylltu ag athrawon sydd yn gweithio o ddydd i ddydd ar lwyfan digidol Google yn unig.<br><br>**Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG**<br>Yn dilyn cyflwyno'r rhaglen uchod (a'r rhaglen genedlaethol sydd ar y gweill) yn ystod Chwarter 3 mae'r sgyrsiau ynglŷn â'r modd y gellir rhaeadru'r wybodaeth i BAau Y Gymraeg y rhanbarth wedi dechrau o fewn rhwydweithiau |

a’r gobaith yw y bydd y PAau yn cyfrannu tuag at gynllun i gyflwyno agweddau penodol o  yn cael sesiynau agored ‘Ar alw’ â plethu â’r rhaglen Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG. Y nod yw y bydd y sesiynau hyn yn creu banc o adnoddau i gefnogi PAau Y Gymraeg ‘ar daith ddiwygio’ eu hysgolion.

**Prosiect ‘Ein Llais Ni’**
Mae’r prosiect rhanbarthol (sy’n brosiect ar y cyd â Phrifysgol Bangor) bellach yn weithredol – gweler ‘Y Gymraeg’ uchod.  O ganlyniad i haen ‘Strategaethau Byw’ egwyddor prosiect ‘Ein Llais Ni’, yn ystod Chwarter 3 gwnaed cysylltiadau â phartneriaid a sefydliadau a allai gynnig cyfleon a phrofiadau unigryw i ysgolion y prosiect a esgorodd yn ei dro at gyfleon a phrofiadau y gellir eu datblygu’n rhanbarthol o gryfhau’r berthynas a’r partneriaethau hyn.

**‘Y Stordy’ - Canolfan Cefnogaeth GwE**
Yn ystod Chwarter 3 mae’r gwaith o ddatblygu gwefan ‘Y Stordy’ er mwyn creu cartref hylaw a chyfleus ar gyfer adnoddau ‘Y Gymraeg a Llythrennedd’ yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a’r nod yw y bydd y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau ‘byw’ Teams a Google Classroom maes o law, gyda’r naill yn gartref parhaol a’r llall yn llwyfan datblygol.

**Y Gweithgorau Cenedlaethol**
Dim ond un o’r gweithgorau cenedlaethol, sef gweithgor CA5 sydd bellach yn parhau ond yn ystod Chwarter 3 dechreuodd y drafodaeth traws-rhanbarthol ynghylch dyfodol y Gweithgorau Cenedlaethol a’r modd y gellir eu datblygu.  Bu cynrychiolaeth gref o ysgolion y rhanbarth ar y gweithgorau hyn a chartref ffrwyth gwaith y gweithgorau hyn yw’r ‘Y Pair’ (rhwydwaith adnoddau ar Hwb) ond yn ystod Chwarter 3 ymgorfforwyd adnoddau’r gweithgorau o fewn gwefan adnoddau swyddogol CBAC yn ogystal.

**Cynhaliaeth ar gyfer ANG Y Gymraeg 2021-22**
Yn dilyn llwyddiant y gweithgor a sefydlwyd llynedd rhannwyd y syniad o sefydlu gweithgor cenedlaethol tebyg gyda’r swyddogion sy’n gyfrifol am y Gymraeg o fewn y consortia eraill, esgorodd hyn ar gynhadledd lansio cynllun traws-rhanbarthol ‘Athrawon Cymraeg y Dyfodol’, a gynhaliwyd yn ystod Chwarter 3 a bydd cyfarfodydd cynhaliaeth ar gyfer ANG Y Gymraeg o fewn y rhanbarth yn digwydd yn ystod Chwarter 4.

**GWYDDONIAETH**

**Gwella ansawdd cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu (addysgeg)**
Oherwydd y sefyllfa bresennol heb ein hysgolion, nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i gynnig y dysgu proffesiynol cynlluniedig sydd wedi’i nodi o fewn y cynllun busnes. Mae’r tîm wrthi ar hyn o bryd yn llunio strategaeth dysgu ac addysgu ac yn bwriadu symud y cynnig ymlaen at dymor y Gwanwyn.
Datblygu gweithdai/adnoddau yn ystod Ch3 i gefnogi gwreiddio llythrennedd ddisgyblaethol mewn Gwyddoniaeth. Mae hyn wedi cynnwys cymorth ar gyfer darllen a llafaredd.

**Cefnogaeth wedi’i theilwra i ysgolion**
Mae cefnogaeth wedi’i theilwra i ysgolion yng nghyswllt dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth wedi’i darparu i’r ysgolion hynny sydd wedi’u hadnabod gan YCG yr ysgolion, ynghyd â’r rheiny sydd wedi gwneud cais am gefnogaeth ychwanegol. Mae’r YCG uwchradd wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar gynlluniau cefnogi ysgol unigol a fydd yn nodi pa ysgolion sydd angen cefnogaeth ym maes Gwyddoniaeth. Bwriedir eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref, a bydd hyn yn cyfarwyddo’r rhaglen waith ar gyfer darparu cefnogaeth i ysgolion.
Yn ystod Ch3 mae ysgolion sy'n destun pryder a'r rheiny mewn categori Estyn wedi derbyn cefnogaeth unigol ar sail eu blaenoriaethau.  Mae hyn wedi cynnwys ymweliadau ag ysgolion a chyfarfodydd rhithwir ar-lein.  Rhoddwyd cymorth unigol yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth hefyd i'r rheiny sydd wedi gofyn am gymorth o'r fath drwy'r YCG/cynlluniau cymorth.

**Cefnogi athrawon a dysgwyr**
Fel yn Chwarter 1, mae’r gwaith o ddatblygu gwefan TANIO ymhellach wedi parhau, ac mae Cynnal yn gwneud gwaith ar y platfform ar hyn o bryd i gynnwys adrannau i gefnogi Ôl-16 a’r Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad i’r sefyllfa COVID parhaus, nid ydym eto wedi canfod unigolion i ddatblygu adnoddau ac rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gynnig cyllid i ysgolion unigol gwblhau’r tasgau. Caiff hyn ei archwilio y tymor nesaf, ond bydd angen cysylltu â gwaith y clystyrau a MDPh.

**Cwricwlwm i Gymru**
Mae'r tîm wedi datblygu adnoddau, modelau ac ati i gefnogi datblygiad MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg y cwricwlwm newydd.  Mae'r rhain yn cael eu treialu a'u datblygu ymhellach o fewn y rhwydweithiau rhanbarthol a

lleol, er mwyn datblygu ymhellach ddealltwriaeth o gynnydd a chefnogi ymarferwyr i gynllunio ar gyfer cynnydd.

**Y CYFNOD SYLFAEN**

**Darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion sy'n achosi pryder, gan eu galluogi i yrru eu taith wella eu hunain**
Mae bron pob ysgol sy'n derbyn cefnogaeth (32 ysgol) wedi'i theilwra yn mynd i'r afael â chamau gweithredu sydd wedi'u hadnabod gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Cyfnod Sylfaen, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweithredu'r camau gweithredu yn effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, gan leihau amrywiadau o fewn rhai ysgolion a gwella cysondeb mewn dysgu ac addysgu ar draws y rhanbarth. Mae cefnogaeth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyd-fynd â'r addysgeg yng nghanllawiau Agor Llwybrau y Cwricwlwm i Gymru.

**I wella'r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ymhellach ar draws holl ysgolion y rhanbarth mewn paratoad ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru.**

Mae 25 ysgol yn rhan o brosiect ymchwil gweithredol gwaith coed . Ffocws ar gynllunio profiadau cyfoethog i gefnogi a galluogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben, ynghyd â datblygu'r 12 egwyddor addysgegol, y sgiliau cyfannol a'r sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Athrawon wedi derbyn yr hyfforddiant cychwynnol. Bydd disgwyl i bod ysgol fynychu sesiynau galw fewn a creu astudiaeth achos yn amlygu effaith y ddarpariaeth ar gynnydd ag agweddau disgyblion at eu dysgu.

**Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen**
Bu i 250 fynychu'n rhwydwaith tymor yr Hydref (recordiad o'r rhwydwaith hefyd ar gael o fewn Canolfan Gefnogaeth GwE). Trafodwyd modiwlau cenedlaethol Llywodraeth Cymru fydd yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru:

– Dysgu yn yr Awyr Agored

– Arsylwi

– Datblygiad Plentyn

– Chwarae a Dysgu drwy Chwarae

– Cyfnodau Pontio

– Dysgu Dilys a Phwrpasol

ynghyd â chyflwyno astudiaeth achos arfer dda ar 'Blociau'

Darparwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i glystyrau gan dargedu'r agweddau hynny y nodwyd bod angen eu blaenoriaethu e.e. Ymchwiliau Gwybddonol o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a 'Rôl yr Oedolyn'. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn addysgeg briodol o safbwynt datblygiadol.

Mae'r sesiynau hyfforddiant wedi:

- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut y mae'r egwyddorion addysgegol yn cysylltu â'i gilydd i greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- Ymarferwyr yn defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgegol priodol o safbwynt datblygiadol sy'n ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).
- Ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- Ymarferwyr i ystyried nid yn unig y mannau ffisegol ond hefyd yr hinsawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial.
- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd arsylwi yn eu hymarfer bob dydd er mwyn:
  -cael gwell dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion.
  -caniatáu i ymarferwyr ganfod y dulliau a ffefrir gan blant a phobl ifanc o ran dysgu, a'r modd gorau o'u hysgogi i gyfranogi yn y broses ddysgu.
  -canfod y dysgwyr hynny sydd efallai angen cymorth ychwanegol i'w helpu i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn eu galluogi i gynllunio darpariaeth briodol sy'n cefnogi ymrwymiad a mwynhad dysgwyr o fewn eu gweithgareddau dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i

symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.
- Deall bod angen i asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i hymwreiddio o fewn ymarfer o ddydd i ddydd, mewn modd anweladwy o fewn y dysgu a'r addysgu.

Caiff ysgolion fynediad i'r holl hyfforddiant / rhwydweithiau / adnoddau / astudiaethau achos o ymarfer llwyddiannus (o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE, Google Classroom a Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen GwE ar HwB). Mae llawer o ysgolion o fewn y rhanbarth yn defnyddio'r gweminarau ac ati o fewn cyfarfodydd staff a HMS i uwchsgilio'r gweithlu. Mae YCG yn nodi bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**
**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol.**

**ARWEINYDDIAETH**

**Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn cysylltiad â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth er mwyn datblygu arweinwyr presennol ac at y dyfodol**

Mae pob modiwl o bob Rhaglen Arweinyddiaeth hyd yma (ac eithrio'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol) wedi'u cwblhau yn llwyddiannus o fewn yr amserlen a nodwyd yn y cynllun gwreiddiol. Rydym ar y trywydd iawn i gwblhau'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (MLDP), a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr (SLDP) erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd y Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (CPCP) yn cynnal y Ganolfan Asesu ym mis Chwefror 2022 a'r Rhaglen Penaethiaid Newydd ac Mewn Gofal erbyn diwedd y flwyddyn academaidd hon.

Unwaith eto, yn ystod yr 2il chwarter, mae sylwadau anffurfiol a gasglwyd gan unigolion sy'n darparu ac yn rhedeg y rhaglenni hyn yn awgrymu, yn gyffredinol, bod arweinwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni yn dangos mwy o hyder a dealltwriaeth o arweinyddiaeth effeithiol wrth drafod eu rolau arweinyddiaeth yn ôl yn eu hysgolion.

Mae trefniadau ar waith i gasglu adborth ffurfiol gan gyfranogwyr ar draws pob rhaglen ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu effaith y rhaglenni arweinyddiaeth ar ddatblygu arweinwyr ym mhob cam o'r Llwybr Arweinyddiaeth.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad chwarterol blaenorol, mae mynd ati'n rheolaidd i werthuso a mireinio cynnwys y rhaglenni wedi sicrhau'r gallu i addasu i anghenion perthnasol arweinwyr ysgol presennol. Mae hwyluswyr y rhaglenni wedi parhau i fod yn ystyriol o anghenion arweinwyr ysgolion yn ystod y pandemig, gan sicrhau eu bod yn meithrin gwydnwch a'u gallu i arwain yn ystod cyfnodau heriol. Maent hefyd wedi sicrhau bod negeseuon a diweddariadau allweddol ar yr Agenda Genedlaethol a'r CiG wedi'u cynnwys yn y rhaglenni.

Mae YCGau GwE wrthi ar hyn o bryd yn gweithio â'r rhanbarthau eraill ar lefel genedlaethol i ddatblygu darpariaeth ymhellach – yn arbennig o ran y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a'r Rhaglen Penaethiaid Newydd a Mewn Gofal. Mae hyn yn sicrhau bod y rhaglenni'n parhau i fod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn effeithiol o ran cefnogi datblygiad arweinyddiaeth effeithiol y fewn yr hinsawdd bresennol.

**LLYWODRAETHWYR**

**Mewn cytundeb â'r Awdurdodau Lleol, cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol ym maes Diwygio Addysg.**
Fel rhan o'r gefnogaeth barhaus ar gyfer Dysgu Proffesiynol Llywodraethwyr, mae nifer o gyflwyniadau wedi'u cyflwyno ar draws y rhanbarth gyda'r nod o gyflwyno Llywodraethwyr i'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae niferoedd da o lywodraethwyr wedi mynychu'r sesiynau hyn ym mhob Awdurdod Lleol gan alluogi'r llywodraethwyr hynny i fod â gwell dealltwriaeth o'r agweddau a gaiff eu darparu, bod yn fwy hyderus wrth gefnogi eu hysgolion, ynghyd â gallu cyfrannu yn fwy strategol at drafodaethau'r corff llywodraethol.

**Darparu hyfforddiant cyn-arolwg i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn yn ystod arolwg.**
Ni fu hyfforddiant cyn-arolwg yn angenrheidiol yn ystod y chwarter hwn. Mae cefnogaeth ychwanegol wedi bod ar gael i ysgolion mewn categorïau. Yn 2021–2022, bydd GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod

Llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran paratoi ar gyfer arolwg yn ystod y 3 wythnos sy'n arwain at yr ymweliad.

**Darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i Lywodraethwyr o fewn ysgolion ar agweddau y mae eu Hunanwerthusiad wedi'u hadnabod sydd angen gwella.**
Ni fu gofyn am unrhyw gefnogaeth wedi'i thargedu yn ystod y chwarter hwn. Bydd GwE yn parhau i gefnogi llywodraethwyr i fod â gwell dealltwriaeth o'r agwedd sydd angen ei gwella ynghyd â'r hyder i hunan wella.

**CYNGHREIRIAU / RHWYDWEITHIAU / CLYSTYRAU**

**Cydweithio ag arweinwyr ysgol ar bob lefel i wella rôl a chyfraniad y clystyrau cynradd / uwchradd, y cynghreiriau uwchradd a'r gwahanol rwydweithiau rhanbarthol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.**
Mae bron pob ysgol wedi ymgysylltu'n effeithiol gyda 'chynghreiriau' neu 'glystyrau' lleol lle maent wedi cydweithio gyda chyfoedion i adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol. Mae'r nifer o adnoddau ysgol-i-ysgol sydd ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE bellach dros 200, ac mae'r nifer o 'ymweliadau' ers ei lansio yn bron i 40,000 gyda'r nifer o adnoddau sydd wedi'u lawrlwytho ers ei lansio dros 75,000, gyda miloedd o adnoddau wedi'u lawrlwytho.

I ysgolion uwchradd mae'r gwaith hefyd wedi cynnwys cefnogi partneriaid o fewn cynghreiriau gyda phrosesau yn ymwneud â pharatoi ar gyfer gwobrwyo graddau yn 2021.

Mae'r holl ysgolion uwchradd a chynradd yn rhan weithredol o gydweithio o fewn Clwstwr CiG. Yn ystod tymor y gwanwyn/haf maent wedi cymryd rhan mewn gweithdai CiG [Arwain Newid, Datblygu Cydweledigaeth a Newid Cwricwlwm - sesiynau 1,2,3]. Caiff cefnogaeth ei thargedu bellach i sicrhau y bydd gan bob ysgol gynllun clir sy'n adnabod camau gweithredu ar gyfer 2021-22 fel eu bod mewn sefyllfa i gwrdd â gofynion statudol newydd ar gyfer mis Medi 2022 [neu 2023 i rai ysgolion uwchradd]. Targedir cymorth hefyd ar gyfer cynllunio ar draws bob un o'r 6 MDaPh. Ffocws cyswllt YCG yn ystod tymor y gwanwyn yw cefnogi ysgolion i ymateb yn briodol i'r canllawiau a rannwyd yn ystod gweithdai.

Mae gwaith y Rhwydweithiau MDaPh ar lefel ranbarthol a lleol yn gydnaws â'r gweithdai er mwyn sicrhau cysondeb a chydlynedd i ysgolion. Yn ystod tymor y gwanwyn caiff aelodau tîm gyfleodd pellach i:

- fynychu dysgu proffesiynol rhanbarthol a fforymau trafod
- cyfrannu at ddatblygu modelau cynllunio a dylunio i gefnogi ysgolion wrth iddynt dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf.
- cydweithio â grwp o gymheiriaid i gefnogi gwaith dylunio a chynllunio'r cwricwlwm.
- cyfathrebu a rhannu'r dysgu a'r arferion llwyddiannus ar draws ysgolion yr awdurdod lleol.

Mae natur a dwyster y cymorth gan rwydweithiau/fforymau pwnc benodol traddodiadol hefyd wedi'i gysoni er mwyn sicrhau ei fod yn ychwanegu at y gwaith MDaPh.

**AMCAN 4 – YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles**

**GDD PMG**

**Datblygu'r strategaeth GDD genedlaethol ymhellach a'i gweithredu ar draws y rhanbarth.**
**Gwreiddio'r model clwstwr/cynghrair GDD PMG ar draws y rhanbarth.**

Mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar sicrhau bod pob clwstwr ar drac o ran cwblhau'r dangosfwrdd grant GDD PMG a lliniaru unrhyw rwystrau. Mae bron y cyfan o'r cynigion clwstwr wedi'u cwblhau. Rhoddwyd cymorth uniongyrchol i bob clwstwr ar draws y 6 ALl gan gydweithio ag arweinwyr craidd a swyddogion ALl.

Rydym wedi parhau i gefnogi ysgolion sydd wedi'u hatgyfeirio gan yr YCG/Arweinydd Craidd o ran Iechyd a Lles/Cefnogi Dysgwyr Bregus/PMG/GDD fel bo'r angen. Bu hyn yn gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd Teams.

Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i fod yn fan cyfeirio i bob sefydliad ac mae'r gwaith o wella'r adnoddau

ymhellach yn parhau.

Bu ein CDP yn boblogaidd ac mae galw mawr amdano, gydag 12 sesiwn penodol ac oddeutu 500 yn bresennol.

Cwblhaodd pob ymgeisydd carfan 7 y Diploma mewn Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma y cwrs, ac mae carfan 8 a 9 yn llawn.

Mae Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma, Arddangos Arfer Orau gyda Mike Gershon ar draws y rhanbarth wedi'i gwblhau drwy ffilmio 16 ffilm mewn lleoliadau. Bydd hwn yn cael ei lansio ym mis Mawrth 2022 ar draws y rhanbarth/Cymru.

Cyfarfu'r grŵp/rhwydwaith rhanbarthol GDDBC nas cynhelir â'r chwe ALl a chytunwyd ar gylch gorchwyl. Mae GwE hefyd wedi cefnogi mynediad i Ddysgu Proffesiynol gyda phwyslais ar CHWARAE/Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma yn y Blynyddoedd Cynnar. Presenoldeb da ym mhob sesiwn.

Mae'r ffocws wedi bod ar weithio gydag Arweinwyr Lles ym mhob un o'r ALl ac Ysgolion Iach o ran y dull ysgol gyfan a mapio lles ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad Iechyd a Lles rhanbarthol drafft wedi'i gwblhau.

Mae'r rhwydwaith rhanbarthol LACE/GwE hefyd wedi cyfarfod, ac mae 6 chyfarfod unigol ychwanegol wedi'u cynnal gyda phob ALl i drafod anghenion/pryderon lleol.

**LLES Y GWEITHLU (GwE ac Ysgolion)**

**Cefnogi lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun eu rôl broffesiynol.**
**Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.**

Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod llawn dryswch hwn o newid na welwyd mo'i debyg o'r blaen yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, gan wneud popeth yn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant, pobl ifanc a'n gweithlu trwy gydol y cyfnod hwn. Rhoddwyd sylw i amrywiaeth o agweddau o fewn yr agenda lles, er enghraifft, gwydnwch, addasu i amgylchedd sy'n newid, hunanfyfyrio, dysgu gweithredol ac ati:

- Darparu 'Llefydd i Fyfyrio' ('Reflective Spaces') - darparu bloc o sesiynau gyda Dr Coral Harper neu Mike Armiger. Mae Dr Coral Harper a Mike Armiger wedi ymrwymo i weithio ar draws y rhanbarth o fis Medi 2021, ac wedi dyblu'r capasiti o ran Llefydd i Fyfyrio sydd ar gael i Uwch Arweinwyr.
- Sesiwn grŵp i ymarferwyr Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma gyda Coral Harper. 1 sesiwn y tymor. 6 grŵp trwy gydol y flwyddyn.

Mae 'Llefydd i Fyfyrio' yn parhau i gael eu defnyddio ar draws y rhanbarth, gydag adborth cadarnhaol gan yr hyfforddwyr a'r hyfforddeion. Mae Dr Coral Harper neu Mike Armiger yn gweithio hyd eithaf eu capasiti. Dengys data ar gyfer mis Hydref bod Mike Armiger yn gweithio gyda 7 o arweinwyr ysgol am 12 mis gyda chyfarfodydd bob hanner tymor. Mae Dr Coral Harper yn darparu cyfanswm o 43 o sesiynau gyda 10 o arweinwyr o bob cwr o'r rhanbarth, sy'n golygu eu bod yn cael 6 sesiwn yr un. Bydd hyn yn rhedeg tan Chwefror 2022 pryd y byddwn yn cynnal adolygiad ac yn cynllunio sut yr ydym am ymestyn y cynnig i ragor o bobl. Hefyd, mae GwE wedi creu rhagor o le ar gyfer cymorth 'mewn argyfwng' os yw ysgolion yn wynebu her benodol. Mae sesiynau grŵp wedi'u cynllunio ar gyfer Tymor y Gwanwyn 2022.

**Defnyddio fframwaith hyfforddi mewn sgyrsiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth bob dydd i ddatgloi potensial ac annog twf unigolion.**
Mae hyn yn parhau gyda staff yn dilyn cwrs ILM Hyfforddi a Mentora Gweithredol Lefel 7.

Mae Llefydd i Fyfyrio ar lefel genedlaethol wedi dechrau gyda staff GwE yn cefnogi cydweithwyr o Dde Cymru.

Mae Shane Fletcher, Rheolwr Tîm o Crusaders Rugby, yn dechrau sesiynau grŵp ar gyfer 11 o arweinwyr y tymor hwn, yn seiliedig ar sgyrsiau adeiladol, sy'n canolbwyntio ar atebion. Fe'u cynhelir o fewn cylch 4 wythnos, a'r grŵp fydd yn llywio cynnwys y sesiynau.

**LLES YSGOL GYFAN (MDPh)**

**Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus yng Nghymru'**
**Datblygu Ymagwedd Ysgol Gyfan at les**

**Cyd-greu adnoddau Lles Ysgol Gyfan gydag ysgolion ar draws y rhanbarth**

**Menter TEDxGwE**

Fel gwasanaeth, bu i ni gysylltu gyda chynllun Climate Neutral Now y CU ddwy flynedd yn ôl er mwyn gwrthbwyso allyriadau teithio GwE. Rydym wedi datblygu'r berthynas hon ymhellach drwy gefnogi'r 'Her 100 ysgol'. Wrth i ni symud yn agosach at Gynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yn Glasgow yn ystod mis Tachwedd 2021, penderfynasom gymryd camau pellach drwy ddatblygu'r fenter TEDxGWE.

Mae TEDx yn fenter fyd-eang i hyrwyddo a chyflymu dulliau o ddatrys yr argyfwng hinsawdd, gan droi syniadau yn weithredoedd. Caiff cyfres o ddigwyddiadau a arweinir gan y gymuned eu cynnal ar draws y byd; rydym wedi cofrestru ac yn dal y drwydded ar gyfer TEDxGWE.

Bydd GwE yn cynnal digwyddiad TEDxGWE ar y 1af o Dachwedd 2021 i blant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru. GwE fydd yn arwain ond rydym ar hyn o bryd yn datblygu partneriaeth ar gyfer Gogledd Cymru a chysylltiadau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Theatr Clwyd, Do Well Ltd, Tales to Inspire ac Adfywio Cymru.

Yng Ngogledd Cymru, rydym eisiau defnyddio TEDxGWE fel catalydd i ddechrau sgwrs gydag arweinwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, ynghyd â'n cymunedau a'n plant a phobl ifanc, ynglŷn â'r her gyfunol rydym i gyd yn ei wynebu, gyda'r nod o droi'r syniadau gan y plant a'r bobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn weithredoedd. Ein cenhadaeth yw uno ein rhanbarth i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan ein bod yn gweld hyn fel cyfrwng perffaith i ddatblygu agwedd Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym eisiau gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu llais i annog sgwrs ledled y rhanbarth i arwain gweithredoedd drwy ddod â phobl ynghyd i ddeall yr her, ynghyd ag edrych ar y datrysiadau mwyaf effeithiol sydd wedi'u cyd-greu a'u llywio gan dystiolaeth, gan sicrhau ein bod i gyd yn ymateb i'r her. Nod digwyddiadau byd-eang TEDx yw ateb pum cwestiwn allweddol rhyng-gysylltiedig sy'n helpu i lywio cynllun tuag at ddyfodol glanach:

- Egni – Pa mor sydyn allwn ni newid i bŵer glân 100%?
- Cludiant – Sut allwn ni uwchraddio'r modd yr ydym yn symud pobl a phethau?
- Deunydd - Sut allwn ni ail-ddychmygu ac ail-wneud y pethau o'n cwmpas?
- Bwyd – Sut allwn ni annog newid byd-eang tuag at systemau bwyd iachach?
- Natur – Sut allwn ni warchod y ddaear yn well ac ail-lasu'r ddaear?

Bydd modd i ysgolion gofrestru ar gyfer y digwyddiad a chyflwyno fideo 60 eiliad yn defnyddio FlipGrid. Caiff y fideos eu coladu a'u rhannu gyda chynulleidfa ehangach. Bydd ysgolion yn derbyn pecyn adnoddau i gefnogi'r rhai sy'n cymryd rhan i ddatblygu sgwrs TED fel eu bod yn gallu rhannu eu storïau, problemau, meddyliau a'r gweithredoedd sydd eu hangen i greu dyfodol gwell. Bydd Adfywio Cymru yn ariannu'r pecynnau adnoddau a'r mentoriaid.

Cafodd ein tudalen Flipgrid gyfanswm o 350 o ymweliadau a 6 awr o ymgysylltu. Mae 11 ysgol o bob un o'r ALl ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y digwyddiad byw ar 1af Tachwedd yn Theatr Clwyd, a lywyddir gan Iolo Williams, y Naturiaethwr a'r cyflwynydd Radio a Theledu, awdur ac arweinydd teithiau natur. Yn ystod wythnos COP26, byddwn yn rhannu'r holl fideos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt gael gwybod beth yw barnau ein pobl ifanc.

Cafodd pob ysgol 3 awr o hyfforddiant gan Do-Well Ltd a Tales to Inspire, i gefnogi'r gwaith paratoi ar gyfer y sgwrs TED. Yn ogystal â fideo hyrwyddo, bydd Modant yn cynhyrchu'r gwaith o wneud fideo. Ar y diwrnod, gofynnir i westeion wneud adduned i gefnogi ein pobl ifanc. Bu GwE yn gweithio mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adfywio Cymru, Do-Well (UK) Ltd a Tales to Inspire i gynnal y digwyddiad hwn.

Fel rhan o'r Grŵp Lles Cenedlaethol, mae GwE yn gweithio ar y cyd â Mind Cymru i gynnig cyfle dysgu proffesiynol rhithwir a hwylusir (yn y Gymraeg a'r Saesneg). O fis Medi 2021, cafodd ysgolion fynediad at Sesiwn Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwaith a chefnogi staff. Mae'r niferoedd o ysgolion sydd wedi manteisio ar hwn yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd capasiti.

**STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI / GOFALWYR**

**Arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Sicrhau cyflwyno "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn effeithiol i ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.**
**Sicrhau cydlyniant a chapasiti addas i ddarparu adnoddau rhanbarthol o safon uchel yn y maes hwn.**

Sefydlwyd y grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth gan GwE a phob ALl i arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Dyma'r prif ddatblygiadau ar gyfer chwarter 3:

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi gweithio ochr yn ochr â GwE, gan rannu gwybodaeth ag ysgolion ac mae wedi cytuno i ymestyn y cyfnod trwyddedu 2-flynedd am 6 mis arall.
- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu (HYTTL) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 ymlaen, ac mae'r cyfieithu wedi'i gwblhau.
- Bydd datblygwr yr Adnodd yn gweithio ochr yn ochr â GwE, gan rannu gwybodaeth mewn fforymau Penaethiaid Uwchradd yn fuan yn nhymor y gwanwyn 2022. Cafwyd oedi, o fis Rhagfyr 2021, oherwydd effeithiau Covid mewn ysgolion.
- Bydd HYTTL yn cael ei lansio ym mis Ionawr 20220, os bydd sefyllfa Covid yn caniatáu.
- Datblygir pecyn hyfforddi ar ddwy lefel i gymorthyddion dysgu ei ddefnyddio efo rhieni (HYCTL) - sesiwn i gyflwyno rhieni i wefan HYCTL ac ati, a chyfres o sesiynau i'w defnyddio gyda grŵp bach o rieni penodol.
- Cyfarfu'r Grŵp Rhanbarthol ar 11 Tachwedd 2021 - rhoddodd datblygwr yr Adnodd drosolwg o'r wefan newydd - Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu. Cytunwyd i ail-lansio HYCTL ym mis Ionawr 2022, gan obeithio y bydd y sefyllfa yn yr ysgolion wedi gwella.
- Cytunodd y Grŵp Rhanbarthol bod angen trafodaethau pellach efo ysgolion ar y ffordd orau ymlaen wrth ddefnyddio'r adnodd hwn gyda rhieni. Mae Sir Y Fflint wedi enwi 2 ysgol sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn rhaglen beilot gyda'r pecyn hyfforddiant i gymorthyddion dysgu.

## AILGYDIO MEWN DYSGU

Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn efo'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Warwick i hyrwyddo defnyddio dulliau yn seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion. Mae'r tri phrosiect isod, a ariennir gan GwE, yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ac yn hyrwyddo defnyddio strategaethau fwy seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion i wella deilliannau dysgwyr. Rydym hefyd yn gweithio ar hybu cysylltiadau fwy cadarn rhwng ymchwilwyr addysg mewn SaAU ac ysgolion, er mwyn sicrhau trosglwyddo gwybodaeth drwy gyfrwng yr 'hwyluswyr' drwy weithgareddau ailadroddol (Gorard, 2020).

Mae'r agwedd Ymchwil a Gwerthuso ar *Gynllun Busnes 4 (Ysgolion Cryf a Chynhwysol)* yn cynnwys cyllid ar gyfer tri prif brosiect, isod.

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)** - **CAM 2**

Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamserol/anghydamserol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020, ac mae'r rhain bellach yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig i'w defnyddio yn y dosbarth a hefyd i rieni a gofalwyr.

Ym mis Mehefin 2021 anfonwyd gwahoddiad i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr haf a'r hydref 2021, a mynychodd RW a VL gyfarfodydd fforwm Penaethiaid rhanbarthol i egluro'r rhaglen. Cafodd RILL dderbyniad cadarnhaol iawn yn y cyfarfodydd hyn, yn enwedig y fersiwn Gymraeg unigryw newydd.

Yn dilyn hysbysebu ym mis Mehefin 2021, mae'r 54 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant ym mis Medi 2021, y rhan fwyaf ohonynt yn ysgolion cyfrwng Cymraeg:

Mae 29 o'r 54 ysgol wedi cael hyfforddiant RILL hyd yma, ac mae hyn yn cynnwys 43 athro. Gwahoddwyd y 25 a oedd yn weddill i fynychu sesiwn erbyn diwedd tymor yr hydref/gwanwyn 2021-22. Yn ogystal â diwrnod hyfforddiant llawn, rydym yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol ar hyn o bryd i gefnogi athrawon. Rydym hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (er enghraifft, tiwtorialau a fideos esboniadol), gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau efo'r tîm ymchwil/athrawon eraill. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cymeradwyo cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn ysgolion, ond mae'r tarfu parhaus yn sgil COVID-19 wedi atal hyn. Yn hytrach, mae'r tîm ymchwil yn cynnal hyfforddiant ar-lein i grwpiau bach a chymorth dilynol. Bydd [illegible] ysgol yn cael hyfforddiant yn ystod gweddill tymor

y gwanwyn 2002, yna bydd pob ysgol yn cyflwyno RILL yn y dosbarth. Mae'r tîm ymchwil hefyd yn helpu ysgolion i gynnal profion gwaelodlin er mwyn cael data effaith ar gyfer RILL. Cynhelir profion dilynol yn ystod tymor yr haf.

**Prosiect PhD cydweithredol Addysgu Manwl a SAFMEDS**

Pan gadarnhawyd cyllid ym mis Mehefin 2021 dechreuodd RW, SC, MED a staff ymchwil CIEREI ar y gwaith cynllunio. Hyd yma, mae'r adnoddau SAFMEDS a ganlyn wedi'u creu a'u rhannu ag ysgolion:

- Sesiynau galw heibio misol ar gael i bob ysgol ranbarthol.
- Hyfforddiant unigryw i ysgolion rhanbarthol ac UauCD
- Hyrwyddo SAFMEDS drwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE
- Creu adnoddau dwyieithog, yn barod i'w lansio maes o law
- Tiwtorial SAFMEDS ar-lein
- Gwefan unigryw SAFMEDS
- Hyfforddiant SAFMEDS diwygiedig ar gardiau gaiff eu dal â llaw
- Cyflwyniad i hyfforddiant Addysgu Manwl
- Cardiau SAFMEDS Cam Ychwanegol i roi sylw ehangach i'r Fframwaith Rhifedd
- Comisiynwyd creu deunyddiau Dysgu newydd - gellir defnyddio'r rhain fel darpariaeth wedi'i thargedu a darpariaeth gyffredinol, gan dargedu ymarfer adalw rheolaidd a datblygu rhuglder.

***Diweddariad ar SAFMEDS:***

Sesiynau galw heibio - 6 sesiwn a llawer yn mynychu.

Dyma'r ffigyrau gwylio ar gyfer y deunyddiau ar-lein:

- *Saesneg: Gwyliodd 1023 y weminar ailgydio mewn dysgu, a 391 y fideo hyfforddiant SAFMEDS.*
- *Cymraeg: 474 ar gyfer y weminar a 70 ar gyfer yr hyfforddiant SAFMEDS.*

Mae Prifysgol Bangor wedi cytuno i roi arian cyfatebol tuag at y prosiect hwn er mwyn penodi myfyriwr PhD i gyflwyno'r prosiect dros y tair blynedd nesaf. Y nod yw meithrin capasiti i GwE gefnogi ysgolion. Rhagwelir talu'r anfoneb hon ym mis Chwefror 2022. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ddiweddar a dyfarnwyd yr ysgoloriaeth ymchwil PhD i gyn-athro/athrawes yn un o ysgolion cynradd Conwy.

Ym mis Ionawr 2022 ail-lansiwyd prosiect SAFMEDS yn ffurfiol ochr yn ochr â'n gwefan SAFMEDS newydd, sy'n fodd i ddisgyblion feithrin rhuglder gartref neu yn yr ysgol. Rhyddhawyd gweminar hefyd gyda ffeiliau wedi'u diweddaru ar y ganolfan adnoddau, ynghyd â meddalwedd trwsio ar y wefan. Dyma'r ffigyrau gwylio ar gyfer y wefan newydd:

- *Gweminar cyfrwng Saesneg: Gwyliodd 78 mewn un wythnos*
- *Gweminar cyfrwng Cymraeg: Gwyliodd 30 mewn un wythnos*
- *Disgyblion yn cwblhau oddeutu 677 gweithgaredd mathemateg y diwrnod*

**Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)**

Mae 42 ysgol a gofrestrodd wedi cael mynediad i fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyrraeth i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Mae 10 ysgol o ganlyniad wedi mynychu sesiwn holi ac ateb dilynol ar-lein. Gwahoddir pob ysgol yn awr i fynychu pedwar sesiwn cymorth i weithredu o bell ym mis Tachwedd 2021, Ionawr, Mawrth a Mai 2022, a gallant gysylltu â'r tim ymchwil i gael unrhyw gymorth yn y cyfamser. Cynhaliwyd y cyntaf o'r sesiynau cymorth hyn ym mis Ionawr 2022. Mae datblygu'r deunyddiau Cymraeg ymhellach ar y gweill hefyd, gan eu gwneud yn gydnaws â'r deunyddiau Saesneg. Gwahoddir ysgolion hefyd i ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar yn ogystal â chadw golwg ar ddefnydd rhieni o'r deunyddiau rhuglder hyn gartref. Dyma niferoedd athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:

- *Mae 62 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg*
- *Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg*

Gwahoddir ysgolion ychwanegol i gymryd rhan yn y prosiect yn nhymor yr haf. Erbyn hynny bydd banc cyflawn o

hyfforddiant a gweminarau cymorth wedi'u recordio ar gael.

**Mathemateg Uwchradd**
Mae gwefan Maths.Cymru wedi'i datblygu i gynnwys adnoddau i gefnogi ymyriadau yn CA4 a CA3. Yn CA4, mae adnoddau ar gael i gefnogi'r haenau sylfaenol a chanolraddol, gyda'r haen uwch ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys fideos cyfarwyddiadol, taflenni gwaith ac atebion sy'n addas ar gyfer dysgu TGAU ynghyd ag esiampl o sut i gwblhau cwestiwn TGAU mewn clip fideo.

Yn CA3, mae'r adnoddau ar gyfer rhif wedi'u datblygu a byddant i gyd ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyniad 'PowerPoint' cyn ac ar ôl asesu, adnoddau i gefnogi dysgu sy'n cynnwys dolenni cyswllt at glipiau fideo cyfarwyddiadol, cwestiynau enghreifftiol a thasgau i ddysgwyr eu cwblhau a'u marcio eu hunain.

Mae gwybodaeth am y wefan a'r adnoddau ar gyfer CA4 wedi'u rhannu gyda'r HOM yn rhanbarthol yn ystod 2020, ac ar gyfer CA3, wedi'u rhannu gyda'r Cydlynwyr Rhifedd yn rhanbarthol yn ystod 2020/21. Mae defnyddio'r fforymau a sefydlwyd wedi profi i fod yn effeithiol.

Mae ambell ysgol yn gweithio ar dreialu'r defnydd o adnoddau Maths.Cymru i gefnogi dysgwyr gyda'u rhaglenni RRRS. Mae cefnogaeth wedi'i darparu yn ôl y galw ac mae'r prosiectau hyn ar eu camau cychwynnol ar hyn o bryd. Bydd angen adolygu'r cynnydd yn ystod tymor yr hydref. Mae dwy ysgol yn datblygu'r prosiect – mae'r ddwy ohonynt yng Ngwynedd.

**Llythrennedd Uwchradd**
Gwnaed gwaith datblygu ar adnoddau gwefan Herio i gefnogi sgiliau llythrennedd sylfaenol dysgwyr. Caiff y rhain eu defnyddio ar draws y rhanbarth. Mae 11 ysgol yn gweithredu'r rhaglen ymyrryd 'Building Reading Power'. Cynhaliwyd 5 sesiwn hyfforddi ac mae pob ysgol wedi mynychu'r sesiynau hyn. Datblygwyd deunydd cefnogi ac adolygir cynnydd yn ystod tymor yr haf.
Mae ysgolion yn parhau efo'r cynllun peilot hwn ac mae un nofel arall yn cael ei darparu.

**AMCAN 5 – CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**
**cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu a gwella'u harferion yn barhaus.**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Datblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.**
**Datblygu'r gallu i arwain ledled y system.**
**Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.**
**Parhau i ddatblygu'r systemau cydweithredol o fewn G6 sy'n hwyluso prosesau ymgysylltu â chymheiriaid yr ysgolion**.

Cyn dyfodiad y pandemig COVID, cytunwyd ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. At hyn, fe ddosbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a gafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Mae 22 o Ymgynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Mae chwech o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi'u hyfforddi'n llawn fel cyflwynwyr rhaglen ac mae modd iddynt gynnig yr hyfforddiant *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau.

Hyfforddwyd 13 YCG arall yn llawn ar 4 Hydref 2021 i gyflwyno'r rhaglen, a gallant yn awr gyflwyno hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau. Mae cyfleoedd pellach ar y gweill i staff GwE a hyfforddwyd gysgodi cyflwynwyr EDT profiadol yn nhymor y gwanwyn a'r haf.

Cafodd holl staff GwE yr hyfforddiant diweddaraf ar y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion ar 17 Medi 2021 fel y gallant gefnogi ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen.

Mae deuddeg clwstwr (72 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd

ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr haf / cychwyn tymor yr hydref 2021. Mae 97 o benaethiaid / uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 92 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel '*hwyluswyr gwelliant*'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r holl ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm dderbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar gychwyn tymor yr haf 2021. Mae'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ysgolion uwchradd / y clystyrau sydd ynghlwm wedi'i drefnu ar gyfer cychwyn tymor yr hydref 2021. Cafodd yr holl ysgolion arbennig yn y rhanbarth gyflawni hyfforddiant llawn yn ystod tymor yr haf 2021. Darperir cyfleoedd pellach ym mis Ionawr 2022 i ysgolion hyfforddi staff newydd fel adolygwyr cymheiriaid neu hwyluswyr gwelliant. Bydd hyn yn fodd i ysgolion gynyddu eu capasiti i fynd i'r afael â'u gwaith cydweithredol gyda chymheiriaid yn effeithiol.

Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i garfan newydd o ysgolion a chlystyrau. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 fel bod pob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cymryd rhan yn y rhaglen adolygu cymheiriaid erbyn diwedd y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y Rhaglen *Partneriaeth Ysgolion* yn ystod Tymor yr Hydref 2021. Cafwyd cyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth yn mynegi diddordeb, a oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Trefnwyd bellach i bob clwstwr dderbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* yn ystod Tymor yr Hydref / Gwanwyn. Mae chwe clwstwr neu bartneriaeth wedi nodi eu bod yn awyddus i gael hyfforddiant yn ystod tymor y gwanwyn tra bod ugain clwstwr neu bartneriaeth yn awyddus i gael hyfforddiant yn ystod tymor yr haf.
Mae fframwaith o gwestiynau ymholi yn gysylltiedig â Cwricwlwm i Gymru wedi'i greu, a bydd ar gael i ysgolion sy'n rhan o'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Ar ben hynny, mae cynlluniau ar waith i gefnogi ysgolion i ddefnyddio'r Fframwaith Cyfoethogi Ansawdd a'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella fel rhan o'u gweithgareddau Adolygu gan Gymheiriaid.

## CYMELL A MENTORA

**Darparu hyfforddiant Cymell a Mentora**

Mae 10 aelod o staff GwE wedi derbyn yr 8 sesiwn hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster ILM Lefel 7 'Certificate for Executive and Senior Level Coaches and Mentors' a thros hanner y tim hwnnw wedi cyflywno eu dau aseiniad cyntaf I gael ei achredu. Rydym wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd o'r Tim Craidd hwn er mwyn rhaeadru gwybodaeth ac er mwyn cefnogi gwaith a datblygiad personol ein gilydd. Arwahan I'r gefnogaeth anffurfiol yma ni wnaed unrhyw waith cymheiriol ar gyfer goruchwylio hyd yma.

Mae'r rhaglen 'hyfforddi'r hyfforddwr' Cenedlaethol wedi parhau hyd Mawrth 2022 ac felly ni fuodd angen cynllunio cynnig hyfforddiant yn fewnol I GwE. Mae dau aelod o'r tim cymell craidd yn parhau I gyflwyno'r sesiynau Cenedlaethol hyn drwy cyfrwng Cymraeg gydag RDG yn rhedeg y rhai cyfrwng Saesneg. Mae'r hyfforddiant y tymor hwn yn cael ei ddarparu i weddill staff GwE na gafodd yr hyfforddiant llynedd, Cydlynwyr ADY, Arweinwyr mewn ysgolion ynghyd a Mentoriaid ANG.

Cafodd y gweithgarwch 'Reflective Space' Cenedlaethol ei adolygu gan fod achosion lle na adnabuwyd yn gywir y rhai i gael eu cymell. Mae ail gylch y ddarpariaeth yn rhedeg ar hyn o bryd gyda sawl achos lle mae'r gwasanaeth wedi bod yn llesol.

Darparwyd sesiynau diweddaru cyfrwng Cymraeg a saesneg ar gyfer cohort 2020-21 ac fe fydd sesiwn yn cael ei ddarparu yn benodol i staff GwE y tymor hwn.

## YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

**Rhaglen Beilot YAC Genedlaethol**

Bu'r rhanbarth yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Estyn i sefydlu panel amlasiantaethol ar gyfer y 4 ysgol sydd yn y categori Mesurau Arbennig. Cynhaliwyd cyfarfodydd panel ym mhob un o'r 4 ysgol, ynghyd ag ymweliadau monitro Estyn â thair o'r ysgolion. Roedd canfyddiadau Estyn mewn un ysgol yn nodi cynnydd cryf yn erbyn argymhellion a thynnwyd yr ysgol allan o gategori statudol o ganlyniad. Nodwyd cynnydd cyson hefyd yn y ddwy ysgol arall. Mae gan bob ysgol gynllun cymorth cyfannol ac unigryw y cytunwyd arno, a hynny drwy gytundeb

amlasiantaethol. Mae GwE wedi cydweithio ag Estyn mewn dwy o'r ysgolion i adnabod cerrig milltir allweddol ar gyfer y daith welliant ynghyd â diffinio'r union welliant yn ystod pob carreg filltir.

**Cryfhau strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio YAC**
Mewn ymateb i'r ymagwedd cenedlaethol tuag at ysgolion yn y categori Mesurau Arbennig, fe gafodd prosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi, monitro a herio ysgolion sy'n achosi pryder eu hadolygu gan weithgor *Gorchwyl a Gorffen*. Ymhlith aelodau'r gweithgor yr oedd Ymgynghorwyr GwE ac uwch swyddogion o'r 6 Awdurdod Lleol. Hyd yn hyn, bu 6 chyfarfod a dyma'r camau gweithredu:

- Adnabod sut y gallai strwythurau a phrosesau diwygiedig wella llif effeithiol yr wybodaeth rhwng yr amryw haenau a sicrhau bod y cyfrifoldebau ynghylch gwneud penderfyniadau yn glir i bawb.
- Cytuno i sefydlu grŵp amlasiantaethol ar gyfer pob YAC ym mhob un o'r 6 Awdurdod Lleol. Mae'r Canllawiau ar gyfer y cylch gorchwyl a'r aelodaeth wedi'u hamlygu.
- Cytuno ar *Drothwyon a Sbardunau* lefel uchel i adnabod YAC [*Llinyn 1 : Safonau, D + A, Asesu ac Arwain; Llinyn 2 : Cyllid, AD, Gwasanaethau Rheoli; Llinyn 3 : Cynhwysiant, Presenoldeb, Lles ac ADY*]
- Cytuno bod yr holl YAC yn meddu ar gynllun cefnogi cyfannol 360.
- Cytuno y byddai'r grŵp amlasiantaethol lleol yn cynnal trosolwg o'r cynnydd o ran monitro ar gyfer pob ysgol, a phan fyddai pryderon yn cynyddu, eu bod yn adrodd hyn i Fwrdd Ansawdd lleol wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Addysg/Pennaeth Gwasanaeth. Bydd canllawiau ar gyfer cylch gorchwyl ac aelodaeth yn cael eu cytuno'n lleol.
- Cytuno ar werthoedd ac ymddygiadau cyffredinol a fyddai'n ategu'r gwaith ledled y rhanbarth.
- Cytuno ar ddiffiniad i ysgolion gael eu hadnabod ar gontinwwm ymreolaeth tuag at ddod yn Ysgol sy'n Gwella ei Hun [gan osgoi'r stigma sydd ynghlwm â chategoreiddio a 'iaith' Estyn].
- Cynnal gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer gweithdai rhanbarthol er mwyn i ymgynghorwyr a swyddogion sicrhau bod dulliau cyffredin a chysondeb o ran adnabod 'pryderon', ynghyd ag o fewn strategaethau cefnogi ac o ran ansawdd adroddiadau. Cynhelir gweithdai yn ystod tymor yr hydref.

**Sicrhau bod yr holl YAC yn ymwneud yn effeithiol â rhaglenni cefnogaeth cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac yn ymwneud ag ymgysylltu â chymheiriaid, cynghrair/clwstwr a rhwydweithio ehangach**
I ryw raddau, mae'r holl YAC wedi cymryd rhan yng ngweithdai Cwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn rhan o drafodaethau dilynol gyda'u Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt. Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ynghlwm â'u Cynlluniau Gweithredu Ar Ôl Adolygiad / Cynllun Datblygu Ysgol o fis Medi ymlaen. Mae'r ddwy ysgol yn Wrecsam sydd mewn mesurau arbennig wedi ymgymryd â hyfforddiant ymgysylltu â chymheiriaid fel rhan o fodel Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yr ALl cyfan. Ers hynny tynnwyd un o'r ysgolion hyn allan o gategori dilynol. Bu'r holl ysgolion ynghlwm â 'chynghreiriau' lleol lle cawsant gydweithio â chymheiriaid i adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol a chefnogi partneriaid y cynghrair gyda phrosesau ynghylch paratoi i gyflwyno graddau yn 2021. Rhoddir cymorth pellach wedi'i dargedu er mwyn sicrhau bod pob YAC wedi cytuno ar ei dyluniad cwricwlwm a sicrhau cynllunio o safon uchel ar lefel pob MDaPh.

**YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)**

**Sicrhau bod GwE a'i weithlu yn parhau i ymateb i holl ofynion a gwerthoedd Sefydliadau sy'n Dysgu. Cynorthwyo'r ysgolion hynny ar draws y rhanbarth nad ydynt wedi rhoi sylw i YSD i ail-gydio yn y broses yn llwyddiannus, gan felly gefnogi eu taith ddiwygio ar gyfer y CiG.**

Bwriedir trefnu dysgu proffesiynol ar gyfer holl staff y gwasanaeth er mwyn eu diweddaru ynghylch gofynion YSD yn ystod tymor yr Hydref 2021. Bydd arweinwyr y portffolio YSD yn dadansoddi ac yn adnabod y prif negeseuon sydd yn deillio o arolwg staff GwE ac yn adnabod agweddau pellach i weithio arnynt. Bydd y dadansoddiad a'r prif negeseuon yn cael eu rhannu gyda'r uwch dîm i ddechrau, cyn eu rhaeadru â gweddill staff y gwasanaeth. Bwriedir cynnal trafodaethau â'r Bwrdd Rheoli o ran cydweithio gyda'r awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod ymgysylltiad yr ysgolion â'r agwedd hon yn gwella, gan hefyd roi'r cyfle i'r awdurdodau eu hunain gwblhau'r arolwg.

Bydd Gweminar dwyieithog byr yn cael ei chynnig i holl ysgolion y rhanbarth er mwyn codi ymwybyddiaeth o YSD a'r berthynas efo CiG a'r daith ddiwygio.

Bydd YCG yn hybu'r defnydd o'r arolwg YSD fel man cychwyn i ysgolion adnabod eu hanghenion o ran datblygu'r 7 dimensiwn ymhellach gan gyfeirio ysgolion at yr arolwg sydd bellach ar Hwb a chydweithio efo'r ysgolion yn dilyn

dadansoddi er mwyn adnabod dimensiynau sydd angen gweithredu pellach.

Mae hyfforddiant i lywodraethwyr i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag egwyddorion YSD ar gael yn y ddarpariaeth ar gyfer Llywodraethwyr.

Gwnaed cyflwyniad yng nghynhadledd ryngwladol ICSEI ym mis Mawrth 2021 gyda chydweithwyr o Seland Newydd, British Columbia, Lloegr, yr Almaen ac Awstralia - symposiwm o'r enw: 'Harneisio ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu i wireddu newid system yn ystod a thu hwnt i amseroedd COVID19'. Bydd sesiynau dilynol yn cyfrannu arferion ac yn eu rhannu ar draws GwE mewn papur academaidd sy'n edrych ar YSD a'r 4 thema trawsliniol.

Hyrwyddo lansiad yr AGGC [yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol] gyda holl ysgolion y rhanbarth - mae 6 ysgol o'r gogledd wedi ymwneud â pharatoi adnoddau ar gyfer yr adnodd cenedlaethol. Mae'r lansiad ffurfiol bellach wedi ei ohirio i fis Tachwedd. Mae Estyn a LlC angen adnabod 90 o ysgolion dros Gymru i'w treialu ymhellach - bydd GwE yn coladu enwau'r ysgolion sydd â diddordeb.

Oherwydd y pandemig, mae'r gofynion ar ysgolion wedi bod yn andwyol wrth iddynt ddelio gyda materion dydd i ddydd o ran yr agwedd weithredol o redeg ysgolion. Wrth i'r ddau gyfnod clo lacio, mae'r ysgolion wedi ymgysylltu'n dda iawn efo'r DP o ran Taith Ddiwygio'r Cwricwlwm i Gymru.

Efallai nad yw'r ysgolion wedi sylweddoli hyn, ond mae eu datblygiad dros y cyfnodau clo fel YSD wedi bod yn sylweddol, yn enwedig wrth ystyried y 4 thema trawsliniol o Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl Gyda'n Gilydd. Mae sawl un o'r dimensiynau wedi cael sylw da hefyd, e.e. hyrwyddo dysgu mewn tîm, creu cyfleoedd dysgu parhaus, dysgu trwy'r amgylchedd allanol.

**FFRAMWAITH GWELLA ANSAWDD**

**Datblygu defnydd yr ysgolion o'r Pedwar Diben fel rhan o'r Fframwaith Gwella Ansawdd i werthuso ymarfer a blaenoriaethau cyfredol.**
**Creu gwell synthesis yn ymwneud â'r blaenoriaethau ar gyfer y Pedwar Diben.**
**"Gwasanaeth Paru" i gyfuno meysydd arbenigedd gyda meysydd i'w datblygu.**

Gweithrediadau arfaethedig i'w cyflawni o dymor yr hydref ymlaen:

- Yr holl ysgolion i gyflawni gwerthusiad cychwynnol, gan ddefnyddio'r fframwaith, erbyn mis Ebrill 2022 - roedd bwriad i gynnig y fframwaith yn holl ysgolion y rhanbarth erbyn hanner tymor cyntaf yr Hydref 2021 drwy gyflwyniadau gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i glystyrau neu ysgolion unigol. Mae effaith Covid ar ysgolion y rhanbarth wedi llesteirio hyn i ryw raddau.
- Coladu'r wybodaeth o bob cwr o'r rhanbarth ac adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol a'r rheiny sy'n benodol i'r awdurdod. Bydd defnyddio 'One Drive' ar y cyd o fewn Office 365 i gynnal y Fframwaith hefyd yn fodd i'r uned data ddadansoddi canfyddiadau'r Awdurdod ynghyd â chanfyddiadau ledled y rhanbarth.
- Arweinwyr Craidd i hwyluso gwasanaeth paru ar gyfer ysgolion yn eu hawdurdod – y tîm data i gyflwyno trosolwg penodol i'r awdurdod i'r Arweinwyr Craidd fel bod modd iddynt hwyluso'r gwasanaeth paru fel y bo'n briodol.
- Ysgolion sy'n defnyddio Cynghreiriau'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion a'r trefniadau Clwstwr i ymateb i'r ardaloedd blaenoriaeth – cyflawni'r gwaith ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg i sicrhau bod y fframwaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn cefnogi ymateb i heriau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion. Felly, caiff y defnydd o'r fframwaith ei ymgorffori o fewn ymarfer adolygu cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

**AMCAN 6 – BUSNES**
**Sicrhau bod GwE yn meddu ar drefn llywodraethu gryf a chefnogaeth busnes a gweithredol effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian.**

**Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd**

Mae'r fframwaith atebolrwydd eglur a chadarn yn gryfder allweddol o fewn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn ymwneud â'r holl lefelau cynllunio yn mynd i'r afael â holl agweddau gwaith GwE ac yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid yn glir. Mae'r cynlluniau wedi'u prisio'n llawn gyda meini prawf o ran llwyddiant a cherrig milltir eglur ar gyfer cyflawni amcanion.

Mae yna drefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n chwarterol gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae'r staff ar yr holl lefelau'n deall eu cyfrifoldebau o ran gwelliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae pob Awdurdod Lleol yn meddu ar gynllun busnes manwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff y cynnydd tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt ar lefel awdurdod lleol eu monitro'n chwarterol. At hyn, bydd yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol yn eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Caiff problemau parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunanwerthuso'n nodwedd gref yng ngwaith GwE ac mae'r broses hunanwerthuso'n gylchol ac yn barhaus. Mae cryn bwyslais ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ynghyd â phwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn mynd ati'n gywir i adnabod meysydd perfformiad da a meysydd i'w datblygu, neu feysydd lle mae elfen o risg o ran gwella profiadau a deilliannau addysgol i'r dysgwyr.

**Gwerth am Arian**
Mae gan y consortiwm brosesau rheoli cyllid effeithiol ar waith. Mae'r gwaith cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol penodol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant o ran grantiau'n rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ategu'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Yn sgil defnydd cynyddol effeithiol o'r data i adnabod y blaenoriaethau allweddol, caiff y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a'r penderfyniadau ynghylch cynllunio ariannol ei gryfhau, gan fod y ffrydiau gwaith sy'n ategu'r cynllun busnes yn nodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio'n glir.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r rhanddeiliaid i gyd o'r un farn erbyn hyn ynghylch sut i asesu gwerth am arian yng nghyswllt gweithgareddau GwE o fewn strwythurau ac amcanion y cynllun busnes.

**Cofrestr Risg**
Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau'n gywir ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r cofnod risgiau yn ddogfen fyw ac fe gaiff ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn adnabod risgiau cynyddol neu risgiau nad ydynt mwyach yn risgiau lefel uchel. Caiff y ddogfen ei hadolygu pob mis mewn cyfarfod arweinyddiaeth uwch. At hyn, mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cofnod pob chwarter.

Mae GwE yn rheoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol ac mae hyn yn ei dro yn sicrhau modd iddynt gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio'r adnoddau'n effeithiol a bodloni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**Systemau rhannu gwybodaeth**
Cafodd effeithiolrwydd 'Tableau /Analytics' fel adnodd dadansoddi ar gyfer G6 ei rannu gyda'r Uwch Dîm Rheoli. Sefydlwyd cyfrifon ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Ac mae cyfrifon ar gyfer yr Arweinwyr Craidd wedi eu creu yn ystod tymor yr Hydref 2021. Caiff gwybodaeth o'r adnodd dadansoddi ei defnyddio'n effeithiol eisoes i lywio adroddiadau system fel y rhaglen trawsnewid ADY a hefyd ymgysylltiad ysgolion â chynnig dysgu proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru. Dangosfyrddau ychwanegol i ddadansoddi canlyniadau TGAU a Safon Uwch wedi eu llwytho a'u rhannu ac yn bwriadu datblygu mwy o ddangosfyrddau yn ystod y flwyddyn I rannu gwybodaeth.

Bu i'r tîm ADY a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt gyflawni gwaith effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i ailymwneud â G6 yn dilyn cyfnodau clo'r pandemig. Bu hyn yn canolbwyntio'n arbennig ar gerrig milltir trawsnewid ADY gan arwain at gynnydd mewn ysgolion sy'n cymryd rhan ac yn cwblhau statws eu cynnydd cyfredol. Arweiniodd hyn at well dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer y meysydd lle mae angen cefnogaeth bellach. Cynnydd wedi bod yn y defnydd o'r modiwl ADY gan ysgolion i gefnogi adroddiadau gwaelodlin ac yn ystod ymweliad Estyn. Bwriedir cynnal adolygiad cyflawn o ddefnydd o modiwlau G6 yn ystod y flwyddyn.

Cafodd rhaglen dreigl o ran sefydlu a chefnogaeth ei chynnig i Benaethiaid newydd ac aelodau'r Uwch Dîm Reoli ledled y rhanbarth, a hynny'n rhithwir a drwy ymweliadau wyneb yn wyneb. At hyn, mae mwy a mwy o ysgolion wedi caffael hawliau gweinyddol dros eu cyfrifon staff G6 eu hunain. O ganlyniad, erbyn hyn, mae modd i'r ysgolion reoli strwythurau eu cyfrifon eu hunain ar ran eu mynediad.

Cydweithiodd unigolion arweiniol yn effeithiol gyda'r tîm digidol i ddatblygu potensial Canolfan Cefnogaeth GwE ymhellach. Nifer bresennol yr ymweliadau â thudalennau yw 65,000 gyda 12,500 yn cael eu lawrlwytho.

Gyda dyfodiad Cwricwlwm i Gymru a'r angen i adnabod a mesur cynnydd dysgwyr rydym yn ymchwilio gyda'r bwriad o ddatblygu offeryn y gall gynorthwyo ysgolion i olrhain amrediad o wybodaeth i asesu a mesur cynnydd. Bwriedir i hwn fod ar gael am ddim i ysgolion eleni.

Rydym eisoes yn rhannu gwybodaeth gydag ysgolion drwy boblogi Office 365 a rhannu ffolderi. Rydym yn edrych i ehangu y ddarpariaeth yma ac hefyd yn ymchwilio I'r posibilrwydd i aelodau staff o'r awdurdodau lleol gael mynediad hefyd.

## 2. ATODIAD

Data Rhanbarthol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2021-2022

# Data Rhanbarthol ac ALl

# Chwarter 3

www.gwegogledd.cymru @GwEGogleddCymru

CYNLLUN BUSNES 2021-2022

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022**

**Data Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol**

**AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU**

**Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.**

**CONTINWWM ADDYSG 3 I 16**

**Data rhanbarthol:**

**GwE a phrosiect Shirley Clarke**

Cyfanswm ysgolion ar draws y rhanbarth sydd wedi cymryd rhan yn Haenau 1, 2 a 3

| | **Ysgolion** | **Athrawon** |
|---|---|---|
| Haen 1 | 27 | 54 |
| Haen 2 | 193 | 386 |
| Haen 3 | 140 | 261 |
| **Cyfanswm** | **260** | **701** |

- 89% o ysgolion y rhanbarth
- 96% Cynradd
- 80% Uwchradd
- 70% Arbennig

Mynychodd dros 1000 o athrawon ar draws y rhanbarth sesiwn gwyll Shirley Clarke ar 12/10/2022. Methu cael nifer pendant gan fod ysgolion cyfan yn mynychu o dan un enw er mwyn sicrhau y gallai pawb fynychu ar Zoom.

**Data Awdurdod Lleol:**

Sesiwn gwyll Shirley Clarke ar 12/10/2022. Canran fesul ALl

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 34% |
| Ynys Môn: | 19% |
| Conwy: | 21% |
| Sir Ddinbych: | 2% |
| Sir Y Fflint: | 15% |
| Wrecsam: | 9% |

**GWIREDDU CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)**

**Data rhanbarthol:**

**Gweithdai Cwricwlwm i Gymru:**

- % sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu ragor - 80.3%
- 54 sesiwn
- 108 awr o Ddysgu Proffesiynol
- Mynychodd 1155 y sesiynau - 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion

**Data Awdurdod Lleol:**

| **% sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu ragor** | |
|---|---|
| Gwynedd: | 88.5% |
| Ynys Môn: | 91.3% |
| Conwy: | 91.7% |
| Sir Ddinbych: | 63.0% |
| Sir Y Fflint: | 67.5% |
| Wrecsam: | 79.4% |

| TIMAU MDaPh | |
|---|---|

**Data rhanbarthol (13/10/2021)**

Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu i'r rhaglen gymorth barhaus i ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Asesu | 94 |
| Cynllunio Cwricwlwm | 124 |
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 60 |
| Iechyd a Lles | 60 |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 87 |
| Mathemateg a Rhifedd | 60 |
| Y Celfyddydau Mynegiannol | 61 |
| Y Dyniaethau | 53 |

**Data Awdurdod Lleol:**

Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu i'r rhaglen gymorth barhaus i ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:

| ALl | Nifer |
|---|---|
| Conwy | 93 |
| GwE | 23 |
| Gwynedd | 91 |
| Ynys Môn | 90 |
| Sir Ddinbych | 69 |
| Sir Y Fflint | 110 |
| Wrecsam | 123 |

| ALl | Disgrifiad | Nifer |
|---|---|---|
| Conwy | Asesu | 18 |
| Conwy | Cynllunio Cwricwlwm | 26 |
| Conwy | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 10 |
| Conwy | Iechyd a Lles | 9 |
| Conwy | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 10 |
| Conwy | Mathemateg a Rhifedd | 7 |
| Conwy | Y Celfyddydau Mynegiannol | 9 |
| Conwy | Y Dyniaethau | 4 |
| GwE | Asesu | 2 |
| GwE | Cynllunio Cwricwlwm | 4 |
| GwE | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 3 |
| GwE | Iechyd a Lles | 3 |
| GwE | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 5 |
| GwE | Mathemateg a Rhifedd | 2 |
| GwE | Y Celfyddydau Mynegiannol | 2 |
| GwE | Y Dyniaethau | 2 |
| Gwynedd | Asesu | 11 |
| Gwynedd | Cynllunio Cwricwlwm | 18 |
| Gwynedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 9 |
| Gwynedd | Iechyd a Lles | 6 |
| Gwynedd | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 17 |
| Gwynedd | Mathemateg a Rhifedd | 11 |
| Gwynedd | Y Celfyddydau Mynegiannol | 9 |
| Gwynedd | Y Dyniaethau | 10 |
| Ynys Môn | Asesu | 11 |
| Ynys Môn | Cynllunio Cwricwlwm | 14 |
| Ynys Môn | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 9 |

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn | Iechyd a Lles | 13 |
| Ynys Môn | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 12 |
| Ynys Môn | Mathemateg a Rhifedd | 10 |
| Ynys Môn | Y Celfyddydau Mynegiannol | 13 |
| Ynys Môn | Y Dyniaethau | 8 |
| Sir Ddinbych | Asesu | 7 |
| Sir Ddinbych | Cynllunio Cwricwlwm | 12 |
| Sir Ddinbych | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 9 |
| Sir Ddinbych | Iechyd a Lles | 8 |
| Sir Ddinbych | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 14 |
| Sir Ddinbych | Mathemateg a Rhifedd | 6 |
| Sir Ddinbych | Y Celfyddydau Mynegiannol | 6 |
| Sir Ddinbych | Y Dyniaethau | 7 |
| Sir Y Fflint | Asesu | 25 |
| Sir Y Fflint | Cynllunio Cwricwlwm | 28 |
| Sir Y Fflint | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 8 |
| Sir Y Fflint | Iechyd a Lles | 9 |
| Sir Y Fflint | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 12 |
| Sir Y Fflint | Mathemateg a Rhifedd | 9 |
| Sir Y Fflint | Y Celfyddydau Mynegiannol | 8 |
| Sir Y Fflint | Y Dyniaethau | 11 |
| Wrecsam | Asesu | 20 |
| Wrecsam | Cynllunio Cwricwlwm | 22 |
| Wrecsam | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | 12 |
| Wrecsam | Iechyd a Lles | 12 |
| Wrecsam | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | 17 |
| Wrecsam | Mathemateg a Rhifedd | 15 |
| Wrecsam | Y Celfyddydau Mynegiannol | 14 |
| Wrecsam | Y Dyniaethau | 11 |

AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN

**Data Rhanbarthol:**

**Tanysgrifiadau newydd i adnoddau Power Language 2021-2022: 35 ysgol gynradd**

**gan gynnwys ysgol arbennig Ty'r Morfa,**

**11 Almaeneg**

**Y Brifysgol Agored 2021-2022: 9 athro cynradd**

**Nifer yr ysgolion / sesiwn galw heibio cyfarfod Rhwydwaith Cynradd 7 ysgol (9 athro)**

**11 Tachwedd 2021**

**Nifer yr ysgolion wedi cofrestru - 23**

**Gweminar Gynradd**

**Power Language**

**22/11/21**

**Data Awdurdod Lleol:**

**Power Language / nifer yr ysgolion newydd: 35 2021-2022**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 2 |
| Ynys Môn: | 8 |
| Conwy: | 3 |
| Sir Ddinbych: | 3 |
| Sir Y Fflint: | 14 |
| Wrecsam: | 6 |

**Y Brifysgol Agored 2021-2022: nifer yr athrawon**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 1 |
| Ynys Môn: | 0 |
| Conwy: | 2 |
| Sir Ddinbych: | 2 |
| Sir Y Fflint: | 2 |
| Wrecsam: | 2 |

**Nifer yr ysgolion / sesiwn galw heibio cyfarfod Rhwydwaith Cynradd 7 ysgol (9 athro)**

**11 Tachwedd 2021**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 1 |
| Ynys Môn: | |
| Conwy: | |
| Sir Ddinbych: | 3 |
| Sir Y Fflint: | 2 |
| Wrecsam: | 1 |

**Nifer yr ysgolion wedi cofrestru - 23**

**Gweminar Gynradd**

**Power Language**

**22/11/21**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 1 |
| Ynys Môn: | 2 |
| Conwy: | |
| Sir Ddinbych: | 5 |
| Sir Y Fflint: | 10 |
| Wrecsam: | 4 |

**Cymorth parhaus i ysgolion uwchradd: 6**

**Cymorth parhaus i ysgolion uwchradd (Hyd-Tach-Rhag) 6**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 4 |
| Ynys Môn: | |
| Conwy: | |
| Sir Ddinbych: | 1 |
| Sir Y Fflint: | 1 |
| Wrecsam: | |

**Nifer yr ysgolion / cyfarfod Rhwydwaith 14 Hydref**

**33 ysgol (13 ymddiheuriad) / 46 athro**

**Cyfarfod rhwydwaith 14 Hydref**

**33 ysgol (13 ymddiheuriad) / 46 athro**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 7 |
| Ynys Môn: | 3 |
| Conwy: | 4 |
| Sir Ddinbych: | 5 |
| Sir Y Fflint: | 8 |
| Wrecsam: | 6 |

**Nifer yr ANG yng nghyfarfod 18 Tachwedd 2021**

**(7 ANG + 1 blwyddyn gyntaf)**

**Nifer yr athrawon: 6 (5 ANG + 1 blwyddyn gyntaf) cyfarfod 18 Tachwedd 21**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | |
| Ynys Môn: | |
| Conwy: | |
| Sir Ddinbych: | 2 |
| Sir Y Fflint: | 3 |
| Wrecsam: | 1 |

**Nifer yr ysgolion - nifer yr athrawon yn mynychu Sesiwn CiG 13 Rhagfyr: 34**

**Ymddiheuriadau: 11 athro**

**Nifer yr ysgolion - Sesiwn CiG 13 Rhagfyr**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 9 |
| Ynys Môn: | 0 |
| Conwy: | 2 |
| Sir Ddinbych: | 4 |
| Sir Y Fflint: | 4 |
| Wrecsam: | 8 |

**Gweithgorau - Tiwtorialau CA4 - mynegi diddordeb 16 Rhagfyr 2021**

**Gweithgorau - Tiwtorialau CA4 - mynegi diddordeb 16 Rhagfyr 2021**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 2 |
| Ynys Môn: | 0 |
| Conwy: | 2 |
| Sir Ddinbych: | 2 |
| Sir Y Fflint: | 2 |
| Wrecsam: | 1 |

| CALU - LLDC |
|---|

**Data rhanbarthol:**

**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi**

| | 2021-22 |
|---|---|
| Rhanbarthol | 74 |

**Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 26 |

**Darpar CALU Cylch 3**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 39 |

**Darpar CALU Cylch 4**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 36 |

**Asesiadau Statws CALU Cylch 2**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 30 |

**Aseswyr CALU**

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 24 |

**Dosbarth Google i gymorthyddion**

| | |
|---|---|
| Niferoedd Rhanbarthol: | 1884 erbyn Hydref 2021 |

**Data Awdurdod Lleol*:***

**Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi**

| | 2021-22 |
|---|---|
| Gwynedd: | 8 |
| Ynys Môn: | 13 |
| Conwy: | 5 |
| Sir Ddinbych: | 11 |
| Sir Y Fflint: | 21 |
| Wrecsam: | 16 |
| | 74 |

**Cymorthyddion wrth eu Gwaith**

| | 2021-22 |
|---|---|
| Gwynedd: | 0 |
| Ynys Môn: | 0 |
| Conwy: | 5 |
| Sir Ddinbych: | 1 |
| Sir Y Fflint: | 15 |
| Wrecsam: | 5 |
| | 26 |

**Darpar CALU Cylch 3**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 5 |
| Ynys Môn: | 2 |
| Conwy: | 7 |
| Sir Ddinbych: | 2 |
| Sir Y Fflint: | 16 |
| Wrecsam: | 11 |
| | 43 |

**Darpar CALU Cylch 4**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 7 |
| Ynys Môn: | 1 |
| Conwy: | 10 |
| Sir Ddinbych: | 3 |
| Sir Y Fflint: | 7 |
| Wrecsam: | 8 |
| | 36 |

**Asesiadau Statws CALU Cylch 2**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 3 |
| Ynys Môn: | 3 |
| Conwy: | 7 |
| Sir Ddinbych: | 2 |
| Sir Y Fflint: | 11 |
| Wrecsam: | 4 |
| | 30 |

**Aseswyr CALU**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 2 |
| Ynys Môn: | 1 (annibynnol) |
| Conwy: | 6 ( 1 GwE) |

| | |
|---|---|
| Sir Ddinbych: | 4 (1 annibynnol) |
| Sir Y Fflint: | 10 |
| Wrecsam: | 2 |
| | 24 |

## Y Gymraeg

**Data rhanbarthol:**

**Ein Llais Ni – 100 ysgol yn rhan o'r prosiect**

**Darpariaeth tymor yr hydref i'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiect:**
**Cynhadledd: 111**
**Ar alw 1: 41**
**Rhwydwaith: 67**

**Cynllun Sabothol – Rhanbarthol: 12**

**Cwrs 'Cymraeg mewn Gwaith' - canolradd i staff GwE: 8**

**Data Awdurdod Lleol:**

**Ysgolion 'Ein Llais Ni'**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 54 |
| Ynys Môn: | 21 |
| Conwy: | 6 |
| Sir Ddinbych: | 5 |
| Sir Y Fflint: | 6 |
| Wrecsam: | 8 |

| | Cynhadledd 20/10 | Ar alw 9/11 | Rhwydwaith 23/11 | Ar alw 7/12 |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd: | 56 | 15 | 21 | 21 |
| Ynys Môn: | 23 | 9 | 15 | 2 |
| Conwy: | 8 | 6 | 8 | 0 |
| Sir Ddinbych: | 7 | 2 | 5 | 0 |
| Sir Y Fflint: | 5 | 3 | 8 | 0 |
| Wrecsam: | 12 | 6 | 10 | 0 |

**Cynllun Sabothol:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 0 |
| Ynys Môn: | 0 |
| Conwy: | 3 |
| Denbighshire: | 6 |
| Flintshire: | 2 |
| Wrexham: | 1 |

## SAFON UWCH

**Data rhanbarthol:**

**Rwydweithio a rhannu arferion ar draws Penaethiaid Chweched** : 20

**Data Awdurdod Lleol:**

**Rwydweithio a rhannu arferion ar draws Penaethiaid Chweched - rhwydweithiau ar draws cyd-awdurdodau:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 6 |
| Ynys Môn: | |
| Conwy: | 9 |
| Sir Ddinbych: | |
| Sir Y Fflint: | 5 |
| Wrecsam: | |

## DIGIDOL

| Data Rhanbarthol: | Data Awdurdod Lleol: |
|---|---|
| **Cyfartaledd Ch3 ar gyfer defnyddio Hwb - 98.3%** | Gwynedd: Defnyddio Hwb yn Ch3 -96.7%<br>Ynys Môn: Defnyddio Hwb yn Ch3 - 98%<br>Conwy: Defnyddio Hwb yn Ch3 - 98%<br>Sir Ddinbych: Defnyddio Hwb yn Ch3 - 100%<br>Sir Y Fflint: Defnyddio Hwb yn Ch3 - 97.3%<br>Wrecsam: Defnyddio Hwb yn Ch3 - 100% |

| Gwynedd: | Defnyddio Hwb yn Ch3 -96.7% |
|---|---|
| Ynys Môn: | Defnyddio Hwb yn Ch3 - 98% |
| Conwy: | Defnyddio Hwb yn Ch3 - 98% |
| Sir Ddinbych: | Defnyddio Hwb yn Ch3 - 100% |
| Sir Y Fflint: | Defnyddio Hwb yn Ch3 - 97.3% |
| Wrecsam: | Defnyddio Hwb yn Ch3 - 100% |

## MATHEMATEG A RHIFEDD

**Data Rhanbarthol:**

**CYNRADD**
**Ch3**
**Mesurau Arbennig - 1 ysgol**
**Monitro gan Estyn - 2 ysgol**
**Cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder - 2**

**Cefnogaeth Cwricwlwm i Gymru - gweithdai rhanbarthol ar-lein**

**Data Awdurdod Lleol:**
**CYNRADD - diweddarwyd ar gyfer Ch3**

| Ysgolion sy'n destun pryder: | Ch3 |
|---|---|
| Gwynedd: | 0 |
| Ynys Môn: | 0 |
| Conwy: | 2 |
| Sir Ddinbych: | 2 |
| Sir Y Fflint: | 0 |
| Wrecsam: | 1 |
| **Cyfanswm** | **5** |

| Gweithdy Ar-lein: Ymgyfarwyddo â MDaPh Mathemateg a Rhifedd Cynradd (cyfrwng Cymraeg) | | |
|---|---|---|
| | **Nifer yr ysgolion** | **Nifer yr athrawon** |
| Gwynedd | 10 | 17 |
| Ynys Môn | 8 | 9 |
| Conwy | 2 | 2 |
| Sir Ddinbych | 1 | 9 |
| Sir y Fflint | 1 | 1 |
| Wrecsam | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | 23 | 39 |

| Gweithdy Ar-lein: Ymgyfarwyddo â MDaPh Mathemateg a Rhifedd Cynradd (cyfrwng Saesneg) | | |
|---|---|---|
| | **Nifer yr ysgolion /Nifer yr ysgolion** | **Nifer yr athrawon** |
| Gwynedd | 0 | 0 |
| Ynys Môn | 1 | 1 |
| Conwy | 3 | 3 |
| Sir Ddinbych | 8 | 14 |
| Sir y Fflint | 12 | 15 |
| Wrecsam | 17 | 23 |
| **Cyfanswm** | 41 | 56 |

**Ch3**
**Datblygu addysgeg i gefnogi'r CiG**

| Gweithdy Ar-lein: Ymgyfarwyddo â MDaPh Mathemateg a Rhifedd. Cyfrwng Cymraeg/Welsh medium 15/11/21 | | |
|---|---|---|
| | **Cynradd** | **Uwchradd** |

| | Nif. ysgolion | Nifer o bobl | Nif. ysgolion | Nifer o bobl |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 10 | 17 | 8 | 9 |
| Môn | 8 | 9 | 2 | 3 |
| Conwy | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Sir Ddinbych | 1 | 9 | 2 | 2 |
| Sir y Fflint | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Wrecsam | 1 | 1 | 1 | 4 |
| | 23 | 39 | 15 | 20 |

| Gweithdy Ar-lein: Ymgyfarwyddo â MDaPh Mathemateg a Rhifedd. Cyfrwng Saesneg/English medium 22/11/21 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynradd | | Uwchradd | |
| | Nif. ysgolion | Nifer o bobl | Nif. ysgolion | Nifer o bobl |
| Gwynedd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Môn | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Conwy | 3 | 3 | 4 | 4 |
| Sir Ddinbych | 8 | 14 | 5 | 6 |
| Sir y Fflint | 12 | 15 | 5 | 5 |
| Wrecsam | 17 | 23 | 5 | 7 |
| | 41 | 56 | 20 | 24 |

**Uwchradd - 11 o ysgolion o’r 54 wedi derbyn cefnogaeth unigol.**

**Chwarter 3**

20 ysgol o’r 54 wedi derbyn cefnogaeth unigol yn ystod y cyfnod hwn.

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 4 |
| Ynys Môn | 0 |
| Conwy | 0 |
| Sir Ddinbych | 2 |
| Sir Y Fflint | 2 |
| Wrecsam | 3 |

**Chwarter 3**

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 4 |
| Ynys Môn | 1 |
| Conwy | 2 |
| Sir Ddinbych | 4 |
| Sir y Fflint | 5 |
| Wrecsam | 4 |

**Ffigyrau gwylio Penaethiaid Mathemateg**

Diweddaru Penaethiaid Mathemateg ar ddatblygiadau rhwydwaith CiG, cyfleoedd dysgu proffesiynol a negeseuon allweddol gan CBAC

**Fideo mis Hydref**

| | |
|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 88 |
| Cyfrwng Saesneg | 108 |

**Fideo mis Tachwedd**

| | |
|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 37 |
| Cyfrwng Saesneg | 42 |

**Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Rhifedd (30/11/21)**

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 4 |
| Ynys Môn | 1 |
| Conwy | 4 |
| Sir Ddinbych | 5 |
| Sir y Fflint | 7 |
| Wrecsam | 6 |

*Rhannwyd recordiad hefyd â Phenaethiaid Mathemateg a Chydlynwyr Rhifedd

**Gweithdai ar-lein**

**Dydd Iau 9/12/21 4pm – 5pm** Gweithdy 1: Datblygu meddwl algebraidd drwy rif

Gweithdy 1

15 o'r Uwchradd, ffigyrau gwylio ar hyn o bryd: 106

## SAESNEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

**Cymorth llythrennedd i ysgol sydd naill ai mewn categori Estyn/Mesurau Arbennig, yn destun pryder neu angen arweiniad.**

**Uwchradd=20 ysgol wedi derbyn cefnogaeth unigol**

**Pob ysgol uwchradd wedi mynychu fforwm Penaethiaid Saesneg**

**Data Awdurdod Lleol:**

| | Cynradd | Uwchradd |
|---|---|---|
| Gwynedd | | 4 |
| Ynys Môn | | |
| Conwy | 1 | |
| Sir Ddinbych | 1 | |
| Sir Y Fflint | 6 | 2 |
| Wrecsam | | 8 |

## CYMRAEG A LLYTHRENNEDD

**Data Rhanbarthol:**

Aelodau o'r Teams 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd'

**Data Awdurdod Lleol:**

| Aelodau o'r Teams 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd' | |
|---|---|
| Gwynedd | 14 |
| Ynys Môn | 5 |
| Conwy | 3 |
| Sir Ddinbych | 3 |
| Sir y Fflint | 1 |
| Wrecsam | 1 |

(yn ystod Tymor y Gwanwyn bydd yr aelodau uchod yn derbyn gwahoddiad i ymuno â Google Classroom yn ogystal oherwydd y pryder ynghylch ymgysylltu ar lwyfan digidol penodol)

Aelodau o'r Teams 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd CS (Cyfrwng Saesneg)'

Aelodau o'r Teams 'GwE - Y Gymraeg – Uwchradd – CS (Cyfrwng Saesneg)' - ers ei sefydlu, mae data'r ymgysylltu â'r Teams hwn yn annelwig am nifer o resymau e.e. gwahoddiadau heb eu derbyn eto

Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE) - gweler data 'Y

Gymraeg' uchod.
Bydd yr holl ysgolion uwchradd sydd yn rhan o'r prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE) yn derbyn hyfforddiant a chynigion sy'n arwain at ymgysylltu **ychwanegol** e.e. hyfforddiant HMS ysgol gyfan, digwyddiadau unigryw sy'n ymwneud ag adain 'Strategaethau Byw' y prosiect

| Ysgolion **uwchradd** y rhanbarth sy'n aelodau o'r prosiect 'Ein Llais Ni' | |
|---|---|
| Gwynedd | 5 |
| Ynys Môn | 2 |
| Conwy | 1 |
| Sir Ddinbych | 2 |
| Sir y Fflint | 1 |
| Wrecsam | 1 |

(erbyn hyn mae 6 o aelodau Adran y Gymraeg ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg y rhanbarth yn treialu adnoddau'r prosiect)

Cyfarfod Rhwydwaith PA y Gymraeg (Rhag '21)

| Nifer o benaethiaid adrannau Y Gymraeg ym mhob ALl a lwyddodd i fynychu'r cyfarfod hwn: | |
|---|---|
| Gwynedd | 12 |
| Ynys Môn | 2 |
| Conwy | 1 |
| Sir Ddinbych | 0 |
| Sir y Fflint | 1 |
| Wrecsam | 1 |

(Derbyniwyd ymddiheuriadau gan BA Y Gymraeg ar draws y rhanbarth)

Cyfarfodydd PA y Gymraeg a Chydlynwyr Llythrennedd Chynghreiriau o ysgolion (cyfarfodydd 2 gynghrair, sef Cynghrair Môn a'r Carneddau)

| Nifer o benaethiaid adrannau Y Gymraeg a Chydlynwyr Llythrennedd ym mhob ALl a lwyddodd i fynychu'r cyfarfodydd hyn: | |
|---|---|
| Gwynedd | 2 |
| Ynys Môn | 4 |
| Conwy | 1 |
| Sir Ddinbych | 0 |
| Sir y Fflint | 0 |
| Wrecsam | 0 |

(Derbyniwyd ymddiheuriadau gan BA Y Gymraeg ar draws y rhanbarth)

## GWYDDONIAETH

**Data Rhanbarthol:**

**Ni chynhaliwyd rhwydweithiau penodol i wyddoniaeth oherwydd datblygiad y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol ar gyfer MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**

**Data Awdurdod Lleol:**

**Nifer yr ysgolion uwchradd gafodd gymorth ysgol penodol: (diweddarwyd ar gyfer Ch3)**

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 5 |
| Ynys Môn: | 2 |
| Conwy: | 3 |
| Sir Ddinbych: | 3 |
| Sir Y Fflint: | 4 |
| Wrecsam: | 3 |

## Y CYFNOD SYLFAEN

**Data rhanbarthol:**

**Data Awdurdod Lleol:**
Cefnogaeth benodol ar gais YCG ar gyfer ysgolion unigol neu ysgolion risg uchel/dilyniant Estyn

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 4 |

| | |
|---|---|
| Ynys Môn: | 3 |
| Conwy: | 6 |
| Sir Ddinbych: | 8 |
| Sir Y Fflint: | 6 |
| Wrecsam: | 5 |

Cyfarfod rhwydwaith Cyfnod Sylfaen tymor yr hydref (sesiwn byw)

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 250 |

**AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH**
**Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol**

**ARWEINYDDIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

1. **Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol: 98**
2. **Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr: 61**
3. **Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP): 72**
4. **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro: 37**
5. **Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol: 17**

**CYFANSWM: 285**

**Data Awdurdod Lleol:**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 9 | 10 | 12 | 7 | 1 | **39** |
| Ynys Môn: | 19 | 4 | 6 | 4 | 1 | **34** |
| Conwy: | 15 | 6 | 14 | 7 | 4 | **46** |
| Sir Ddinbych: | 17 | 13 | 9 | 9 | 2 | **50** |
| Sir Y Fflint: | 14 | 15 | 16 | 7 | 4 | **56** |
| Wrecsam: | 24 | 12 | 14 | 3 | 5 | **58** |
| GwE: | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | **2** |

**LLYWODRAETHWYR**

**Data Rhanbarthol:**

Mae cynrychiolydd o GwE wedi mynychu pedwar cyfarfod yn ystod chwarter 2 a 3:

Cyfarfod CCAC/SCLl 18/06/21 (cenedlaethol)
Cyfarfod SCLl rhanbarth GwE 23/06/21 (rhanbarthol)

Cyfarfod CCAC/SCLl 14/10/21 (cenedlaethol)
Cyfarfod SCLl rhanbarth GwE 21/10/21 (rhanbarthol)

Y cyfarfodydd nesaf:

Cyfarfod CCAC/SCLl 14/02/22 (cenedlaethol)
Cyfarfod SCLl rhanbarth GwE 21/02/22 (rhanbarthol)

**Data Awdurdod Lleol:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 70 Llywodraethwr i gyd yn ystod 2 sesiwn ar Zoom 23/6/21 a 29/6/21<br><br>Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar 15 a 17 Chwefror 2022 (Data) |
| Ynys Môn: | 20 Llywodraethwr i gyd mewn sesiwn Zoom - Medi 2021<br><br>20 Llywodraethwr i gyd yn ystod 1 sesiwn ar Zoom 3/2/21 |
| Conwy: | |
| Sir Ddinbych: | Cynhadledd ym mis Gorffennaf 2019 - cyn Covid |
| Sir Y Fflint: | Cynhadledd ym mis Hydref 2019 - cyn Covid |
| Wrecsam: | 20 Llywodraethwr i gyd yn ystod 2 sesiwn ar Zoom 2/3/21 a 25/3/21 |

| CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU | |
|---|---|
| **Data Rhanbarthol:**<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio cynghrair:** 53<br><br>• **Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr:** 331<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG:** 54<br><br>• **Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG:** 331 | **Data Awdurdod Lleol:**<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio cynghrair:** Gwynedd = 14, Môn = 5; Conwy = 7; Sir Ddinbych =7, Wrecsam = 9; Sir Y Fflint = 11<br><br>• **Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr:** Gwynedd = 78, Môn = 40; Conwy = 52; Sir Ddinbych = 47, Wrecsam = 53; Sir Y Fflint = 61<br><br>• **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG:** Gwynedd = 14, Môn = 5; Conwy = 7; Sir Ddinbych = 8, Wrecsam = 9; Sir Y Fflint = 11<br><br>• **Nifer yr ysgolion cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr CiG:** Gwynedd = 78, Môn = 40; Conwy = 52; Sir Ddinbych = 47, Wrecsam = 53; Sir Y Fflint = 61 |

**AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL**

**Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant**

**GDD PMG**

**Data Rhanbarthol:**

*Ymweliadau ag/Cymorth i ysgolion unigol x 17 (mae rhai yn ymweliadau diwrnod)*
*Fforymau Penaethiaid/Clystyrau x15*

*Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ALl x 6 - 1 cyfarfod rhanbarthol, cyfarfod ychwanegol efo Môn/Sir Y Fflint a Wrecsam*

*Swyddogion ALl (ADY/Seicolegydd Addysg/Llesiant/Ysgol Iach/Blynyddoedd x 6*

*1 x cyfarfod rhanbarthol Blynyddoedd Cynnar nas cynhelir, 6 swyddog ALl.*

***DP:***
*Roedd gennym 12 cynnig DP unigryw i ysgolion, yn amrywio o sesiynau diwrnod cyfan i rai hanner diwrnod - i gyd ar Zoom/Teams*

*Manylion ysgolion:*

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 60 |
| Ynys Môn: | 50 |
| Conwy: | 55 |
| Sir Ddinbych: | 60 |

**Data Awdurdod Lleol:**

**O'r data rhanbarthol**

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 13 cyfarfod |
| Ynys Môn: | 9 cyfarfod |
| Conwy: | 7 cyfarfod |
| Sir Ddinbych: | 5 cyfarfod |
| Sir Y Fflint: | 11 cyfarfod |
| Wrecsam: | 11 cyfarfod |

| | |
|---|---|
| Sir Y Fflint: | 120 |
| Wrecsam: | 110 |

*Targedwyd ysgolion Sir Y Fflint a Wrecsam o ran gwariant GDD PMG a datblygu arferion sy'n wybodus am drawma.*

**AILGYDIO MEWN DYSGU**

**Data rhanbarthol:**

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - CAM 2:** Mae 54 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant rhwng mis Medi 2021 a thymor y gwanwyn 2022, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 15 |
| Ynys Môn: | 12 |
| Conwy: | 8 |
| Sir Ddinbych: | 11 |
| Sir Y Fflint: | 3 |
| Wrecsam: | 5 |

**Addysgu Manwl a SAFMEDS:** Cynhaliwyd 7 sesiwn hyfforddi rhanbarthol yn nhymor yr hydref 2021, a bellach gall holl ysgolion GwE gael mynediad i wefan fyw SAFMEDS i ddisgyblion, gweminarau ac adnoddau ar-lein.

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 1 |
| Ynys Môn: | 3 |
| Conwy: | 1 |
| Sir Ddinbych: | 1 |
| Sir Y Fflint: | 1 |
| Wrecsam: | 1 |

- *Saesneg: Gwyliodd 1023 y weminar ailgydio mewn dysgu, a 391 y fideo hyfforddiant SAFMEDS.*
- *Cymraeg: 474 ar gyfer y weminar a 70 ar gyfer yr hyfforddiant SAFMEDS.*
- *Disgyblion yn cwblhau oddeutu 677 gweithgaredd mathemateg yn yr wythnos lansio gyntaf.*

**Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR):** Mae 42 ysgol wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant rhwng mis Medi 2021 a thymor y gwanwyn 2022, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 5 |
| Ynys Môn: | 5 |
| Conwy: | 13 |
| Sir Ddinbych: | 6 |

**Data Awdurdod Lleol:** Gweler y tablau gyferbyn.

Ni ariennir y prosiectau ychwanegol a ganlyn gan y ffrwd grant hon:

**Prosiect Lles Cydweithredol Warwick**

Ym mis Ionawr 2022 cafodd yr ysgolion cynradd a ganlyn eu recriwtio i gymryd rhan yn nau linyn iaith ein hastudiaeth les Connect:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 4 |
| Ynys Môn: | 1 |
| Conwy: | 8 |
| Sir Ddinbych: | 6 |
| Sir Y Fflint: | 10 |
| Wrecsam: | 4 |

**Astudiaeth Gwrth-fwlio KiVa y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd**

Er 2020 rydym wedi bod yn gweithio efo'r ysgolion cynradd a ganlyn i arfarnu effaith KiVa:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 4 |
| Ynys Môn: | 3 |
| Conwy: | 9 |
| Sir Ddinbych: | 6 |
| Sir Y Fflint: | 6 |
| Wrecsam: | 1 |

**Prosiect Proffesiwn sy'n seiliedig ar Dystiolaeth (EIPP)**

Yn nhymor yr hydref cafodd yr ysgolion cynradd a ganlyn eu recriwtio:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 10 |
| Ynys Môn: | 9 |
| Conwy: | 12 |
| Sir Ddinbych: | 8 |
| Sir Y Fflint: | 4 |
| Wrecsam: | 9 |

| | |
|---|---|
| Sir Y Fflint: | 8 |
| Wrecsam: | 5 |

*Dyma niferoedd athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:*

- *Mae 62 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg*
- *Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg*

**Y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP)**

Rydym yn cefnogi'r ysgolion cynradd ac uwchradd a ganlyn ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| Gwynedd: | 20 |
| Ynys Môn: | - |
| Conwy: | 13 |
| Sir Ddinbych: | 7 |
| Sir Y Fflint: | - |
| Wrecsam: | - |

**AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA**

**Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson**

**YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID**

**Data rhanbarthol:**

**Nifer yr ysgolion/clystyrau yn cymryd rhan:** 72/12

**Adolygwyr cymheiriaid a hyfforddwyd:** 97

**Hwyluswyr gwelliant a hyfforddwyd:** 92

**Tymor yr Hydref 2021**

**Nifer yr ysgolion/clystyrau a nodwyd ar gyfer hyfforddiant y garfan nesaf: 157 / 26**

**Data Awdurdod Lleol:**

**Nifer yr ysgolion yn cymryd rhan:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 11 |
| Ynys Môn | 10 |
| Conwy | 13 |
| Sir Ddinbych | 8 |
| Sir Y Fflint | 17 |
| Wrecsam | 13 |

**Adolygwyr cymheiriaid a hyfforddwyd:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 18 |
| Ynys Môn | 13 |
| Conwy | 15 |
| Sir Ddinbych | 12 |
| Sir Y Fflint | 23 |
| Wrecsam | 16 |

**Hwyluswyr gwelliant a hyfforddwyd:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 14 |
| Ynys Môn | 11 |
| Conwy | 17 |
| Sir Ddinbych | 13 |
| Sir Y Fflint | 16 |
| Wrecsam | 21 |

**Tymor yr hydref 2021:**

**Nifer yr ysgolion sydd wedi mynegi diddordeb:**

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 32 |
| Ynys Môn | 20 |
| Conwy | 42 |
| Sir Ddinbych | 19 |
| Sir Y Fflint | 22 |
| Wrecsam | 34 |

| YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER | |
|---|---|
| **Data Rhanbarthol:** | **Data Awdurdod Lleol:** |
| • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC rhanbarthol:** 11 | • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC ym mhob ALl:** Gwynedd = 3; Môn = 0; Sir Ddinbych = 2; Conwy = 2; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 3 |
| • **Nifer ysgolion cynradd YAC rhanbarthol:** 2 | • **Nifer yr ysgolion cynradd YAC ym mhob ALl:** Gwynedd = 0; Môn = 0; Sir Ddinbych = 0; Conwy = 1; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 0 |
| • **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r peilot YAC cenedlaethol [Mesurau Arbennig]:** 4 | • **Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r peilot YAC cenedlaethol [Mesurau Arbennig]:** Gwynedd = 1, Sir Ddinbych = 1, Wrecsam = 2 |
| • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o'r RhPY:** 5 | • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC ym mhob ALl sy'n rhan o'r RhPY:** Gwynedd = 0; Môn = 0; Sir Ddinbych = 0; Conwy = 1; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 3 |
| • **Nifer yr ysgolion cynradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o RhPY:** 0 | • **Nifer yr ysgolion cynradd YAC ym mhob ALl sy'n rhan o'r RhPY:** Gwynedd = 0; Môn = 0; Sir Ddinbych = 0; Conwy = 0; Sir y Fflint = 0; Wrecsam = 0 |
| • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o gydweithio cynghrair:** 11 | • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC ym mhob ALl sy'n rhan o gydweithio cynghrair:** Gwynedd = 3; Môn = 0; Sir Ddinbych = 2; Conwy = 2; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 3 |
| • **Nifer yr ysgolion cynradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o gydweithio clwstwr:** 2 | • **Nifer yr ysgolion cynradd YAC ym mhob ALl sy'n rhan o gydweithio clwstwr:** Gwynedd = 0; Môn = 0; Sir Ddinbych = 0; Conwy = 1; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 0 |
| • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o weithdai a thrafodaethau dilynol CiG:** 11 | • **Nifer yr ysgolion uwchradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o weithdai a thrafodaethau dilynol CiG:** Gwynedd = 3; Môn = 0; Sir Ddinbych = 2; Conwy = 2; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 3 |
| • **Nifer yr ysgolion cynradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o weithdai a thrafodaethau dilynol CiG:** 2 | **Nifer yr ysgolion cynradd YAC rhanbarthol sy'n rhan o weithdai a thrafodaethau dilynol CiG:** Gwynedd = 0; Môn = 0; Sir Ddinbych = 0; Conwy = 1; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 0 |
| • **Nifer y swyddogion a'r ymgynghorwr sy'n rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhanbarthol:** 16 | • **Nifer y swyddogion sy'n rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhanbarthol:** : Gwynedd = 1; Môn = 1; Sir Ddinbych = 1; Conwy = 1; Sir y Fflint = 1; Wrecsam = 1 |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR 16/02/2022**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE** |
| **Testun:** | **Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio Tymor yr Hydref 2021** |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor yng nghyd-destun ble mae ysgolion ac UauCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt roi sylw i'r agenda adfywio a diwygio, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE fel rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor yr hydref 2021.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UauCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi cyflwyno profiadau dysgu ac addysgu ystyrlon trwy ddull dysgu cyfunol creadigol. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu'n sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda adfywio a diwygio. Fodd bynnag, mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau ar gyfer paratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

**Sectorau cynradd ac arbennig**

- Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn mesur cynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu?
- Beth yw'r wybodaeth ddaw allan o'r data crynodol neu ansoddol hwn?

**Sector uwchradd gan gynnwys ysgolion arbennig ac UauCD perthnasol**

- Sut mae ysgolion uwchradd wedi defnyddio Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn 2021 i gwblhau hunan arfarnu er mwyn cefnogi gwelliant parhaus?



**Cwricwlwm i Gymru (CiG)**

- Beth yw blaenoriaethau CiG yr ysgol yn ystod tymor yr hydref?

- Beth yw blaenoriaethau CiG y clwstwr yn ystod tymor yr hydref?
- Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol CiG?
  - Arwain newid
  - Datblygu gweledigaeth a rennir
  - Diwygio'r cwricwlwm
- Beth fydd rôl a chyfraniad eich YCG ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?
- Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dylunio cwricwlwm yn eich ysgol ac ar draws eich clwstwr?

**Diwygio ADY a Chynnydd tuag at Weithredu**

- Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr hydref?

**Dysgu Proffesiynol**

- A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?

**Atebolrwydd**

- Sut dylai atebolrwydd edrych?
- Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?
- Sut fydd adrodd yn edrych?

3.2 Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r trafodaethau efo ysgolion, crynodeb o gynnig dysgu proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion yn ogystal â nodi meysydd ar gyfer datblygiad a chymorth pellach.

3.3 Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel a ganlyn:

1. Sicrhau y bydd pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm ac yn rhoi sylw i ofynion mandadol/statudol ar gyfer ei gyflwyno yn 2022 neu 2023 (opsiwn sector uwchradd).

   Cefnogir hyn trwy:
   - Ddarparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol gydag arweiniad clir ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd, a hynny drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm;
   - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
   - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant i ymateb yn effeithiol i'r arweiniad a nodir yn y Rhaglen Dysgu Proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
   - Sicrhau bod pob lleoliad yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi crynodeb i randdeiliaid allweddol o'u cwricwlwm a'u trefniadau asesu fel yr amlinellir yn 'Y Daith at Gyflwyno'.

2. Gweithredu prosesau i roi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod gan ysgolion y lefel briodol o gymorth a her er mwyn gwella.

3. Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid, yn enwedig o fewn cynghreiriau uwchradd i gryfhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant.

4. Cefnogi'r Awdurdodau Lleol i gyflwyno Trawsnewid ADY drwy ddarparu Dysgu Proffesiynol i wella'r dysgu a'r addysgu.

**4.0 Argymhelliad**

**4.1** Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir uchod.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio Tymor yr Hydref 2021

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

"Nodaf fod rhan 5 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol. Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

GwE | Cydweithio Dysgu Llwyddo

# Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio

## TYMOR YR HYDREF 2021



www.gwegogledd.cymru 0300 500 8087



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| PWRPAS YR ADRODDIAD | 3 |
| MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH | 4 |
| BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD | 4 |
| PRIF GANFYDDIADAU | 6 |
| SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD | 6 |
| SECTOR UWCHRADD GAN GYNNWYS YSGOLION ARBENNIG PERTHNASOL AC UCD | 13 |
| CRYNODEB O GYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GWE I YSGOLION | 19 |




## PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos i ni bod newid, er gwell, yn bosibl hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Yng ngogledd Cymru, manteisiodd GwE, yr Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac UCD ar y cyfle i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio. Mae ysgolion wedi bod yn darparu profiadau dysgu ac addysgu pwrpasol trwy ddull dysgu cyfunol llawn creadigedd. Mae angen datblygu ar y profiadau hyn i osgoi llamu'n ôl, gan gynnal y dysgu cadarnhaol sydd wedi datblygu dros y cyfnod hwn a pharatoi am y dyfodol. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu, sef amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg wedi datblygu i fod yn sylfeini cadarn dull cydweithredol o weithio wrth i ni symud ymlaen gyda'r agenda adfywio a diwygio.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau i baratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt roi sylw i'r agenda adfywio a diwygio ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021.

Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

**Cynnydd disgyblion**

**Sectorau cynradd ac arbennig**
- *Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn mesur cynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu?*
- *Beth yw'r wybodaeth ddaw allan o'r data crynodol neu ansoddol hwn?*

**Sector uwchradd gan gynnwys ysgolion arbennig perthnasol ac UCD**
- *Sut mae ysgolion uwchradd wedi defnyddio Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer TGAU a Safon Uwch i gwblhau hunan arfarniad er mwyn cefnogi gwelliant parhaus?*

**Cwricwlwm i Gymru (CiG)**
- *Beth yw blaenoriaethau CiG yr ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?*
- *Beth yw'r blaenoriaethau clwstwr ar gyfer CiG yn nhymor yr Hydref?*
- *Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol CiG?*
  - *Arwain newid*
  - *Datblygu gweledigaeth a rennir.*
  - *Diwygio'r Cwricwlwm*
- *Beth fydd rôl a chyfraniad eich YCG ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?*
- *Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu cynllunio cwricwlwm yn eich ysgol ac ar draws eich clwstwr?*

**Diwygio ADY a Chynnydd tuag at Weithredu**
- *Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?*
- *Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?*

**Dysgu Proffesiynol**
- *A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?*

**Atebolrwydd**
- *Sut ddylai atebolrwydd edrych?*
- *Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?*
- *Sut fydd adrodd yn edrych?*

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi **Cynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion**.

Crynhoir y meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach a'r blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel isod:

## MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am gymorth yn y meysydd canlynol er mwyn datblygu:
- Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru - yn enwedig dylunio a chynllunio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh);
- Dulliau asesu a'r cysyniad o gynnydd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd;
- Gweithredu'r 12 Egwyddor Addysgegol er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu, gwahaniaethu ac asesu ffurfiannol;
- Defnyddio prosesau gwella ansawdd, gan gynnwys defnyddio data ansoddol a meintiol fel tystiolaeth i gefnogi gwelliant;
- Cryfhau cydweithio clwstwr cynradd ymhellach a pharhau i sefydlu a hwyluso cynghreiriau uwchradd i gytuno ar egwyddorion a swyddogaethau eu gwaith cydweithredol;
- Sefydlu a datblygu adolygu gan gymheiriaid ymhellach drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP);
- Gwella sgiliau'r Gymraeg, llafaredd yn enwedig;
- Cryfhau'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd/arbennig a datblygu continwwm 3 i 16;
- Gwella ymgysylltiad rhieni i gefnogi'r dysgu;
- Cefnogi ysgolion uwchradd i baratoi am arholiadau Haf 2022 a'u trefniadau wrth gefn pe byddai mwy o darfu.

## BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD

Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn:

1. Sicrhau y bydd pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm ac yn rhoi sylw i ofynion mandadol/statudol ar gyfer ei gyflwyno yn 2022 neu 2023 (opsiwn sector uwchradd).

   Cefnogir hyn trwy:
   - Ddarparu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol gydag arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd drwy fodelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm;
   - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
   - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant i ymateb yn effeithiol i'r arweiniad a nodir yn y Rhaglen Dysgu Proffesiynol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
   - Sicrhau bod pob lleoliad yn mabwysiadu ac yn cyhoeddi crynodeb i randdeiliaid allweddol o'u cwricwlwm a'u trefniadau asesu fel yr amlinellir yn 'Y Daith at Gyflwyno'.

2. Gweithredu prosesau sy'n rhoi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod gan ysgolion y lefel briodol o gymorth a her er mwyn gwella.

3. Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid yn enwedig o fewn cynghreiriau uwchradd i gryfhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant.

4. Cefnogi'r Awdurdodau Lleol i gyflwyno Trawsnewid ADY drwy ddarparu Dysgu Proffesiynol i wella'r dysgu a'r addysgu.

# PRIF GANFYDDIADAU

## SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD

### MESUR CYNNYDD DYSGWYR

- ***Sut mae'r ysgol yn cofnodi ac yn mesur cynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu?***
- ***Beth yw'r wybodaeth ddaw allan o'r data crynodol neu ansoddol hwn?***

Mae bron pob ysgol gynradd ac arbennig wedi rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ac yn gweithredu amryw o gynlluniau/gweithgareddau fel 'Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma', 'Pass', Grwpiau Anogaeth, 'Talkabout', 'Mind Mechanics', Therapi Lego, a 'Tyfu drwy'r Tymhorau'. Fel hyn, maent wedi gallu cynnal ac olrhain lles eu disgyblion yn well. Ceir llawer o enghreifftiau o arferion da ar draws y rhanbarth ble datblygwyd dull effeithiol o fonitro lles. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion sydd wedi cwblhau asesiad gwaelodlin o les dysgwyr i weld pwy sy'n fregus i ddysgu ar ôl dychwelyd i'r ysgol. Cefnogwyd rhai ysgolion gan brifysgolion i gynnal ymchwil ar sut orau i adnabod anghenion lles. O ganlyniad, maent wedi gallu adnabod unigolion a grwpiau o ddysgwyr i gael yr ymyrraeth fwyaf priodol fel 'ELSA'. Hyfforddwyd athrawon a staff ysgolion mewn amrywiaeth o ymyraethau arbenigol, e.e. ymarferwyr iechyd meddwl, 'Tyfu drwy'r Tymhorau', a Meddwlgarwch. Defnyddir cwnsela ysgol, 'NICOS' a Seicolegwyr Addysg yn effeithiol hefyd mewn llawer o ysgolion.  Nid oes amheuaeth bod lles disgyblion yn dal yn flaenoriaeth uchel i'r rhan fwyaf o ysgolion wrth iddynt barhau i roi sylw i effaith COVID ar eu disgyblion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae bron pob ysgol wedi parhau â'u systemau asesu mewnol i olrhain cynnydd. Mae'r systemau tracio ac asesu hyn yn cynnwys:

- Tracio perfformiad yn sgil ymyraethau unigol;
- Defnyddio sgorau safonedig o brofion cenedlaethol;
- Defnyddio profion darllen a sillafu fel profion darllen 'Salford' a phrofion sillafu 'Youngs';
- Cynnal profion 'CAT 4';
- Cynnal asesiadau mathemateg 'White Rose' er mwyn llywio'r cynllunio;
- Cynnal asesiadau gwaelodlin yn y Meithrin a'r Derbyn;
- Defnyddio Incerts i dracio lefelau o'r gwaelodlin ymlaen;
- Nodiadau tracio athrawon unigol yn effeithiol;
- Athrawon yn cadw cofnodion 'Read, Write, Inc';
- Arweinwyr yn defnyddio 'Building Blocks', 'Maestro' a 'Taith 360';
- Ysgolion yn dechrau defnyddio adnodd tracio GwE ar gyfer tracio cynnydd Meysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru;
- Defnyddio holiaduron lles fel 'PASS' a 'Boxhall';
- Defnyddio portffolios disgyblion ar gyfer safoni a chymedroli.

Nododd lawer o ddisgyblion bod y cymorth a'r berthynas agos â theuluoedd yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yn barod i ddysgu wedi'r cyfnod clo. Er hynny, roeddent hefyd yn cydnabod yr heriau gyda disgyblion ieuengaf yr ysgol a'r unigolion mwyaf bregus.

Felly mae amrywiad sylweddol yn ôl ysgolion, o ran cynnydd disgyblion. Yn ôl llawer o ysgolion cynradd, gwneir cynnydd da ar y cyfan tra bod eraill yn nodi cynnydd cyfyngedig gan garfanau o ddisgyblion. Mae llawer o ysgolion wedi gweithredu cynlluniau targedu i gefnogi grwpiau o ddisgyblion fel y bo'n briodol. Er enghraifft, cytunir bod y cyfnod clo wedi cael mwy o effaith ar ben isaf yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi'r angen i flaenoriaethu cymorth yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando disgyblion.   Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi tueddu i 'ddal fyny' yn gynt ar ôl dychwelyd wedi'r cyfnod clo. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi'r angen i ddal ati i ganolbwyntio ar wella sgiliau

echddygol manwl disgyblion, gan gynnwys cyflwyno gwaith, rhyngweithio cymdeithasol, stamina ysgrifennu a dyfalbarhad. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn cydnabod yr angen i wella sgiliau llafaredd Cymraeg disgyblion.

Mae bron pob ysgol yn parhau i gyflwyno strategaethau ymyrraeth effeithiol i ddisgyblion e.e. drwy sesiynau dysgu manwl dyddiol, sesiynau 'SAFMEDS' i ddatblygu sgiliau darllen/sillafu Cymraeg a Saesneg, sesiynau Tric a Chlic i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn ôl bron pob ysgol, mae'r targedu ymyrraeth wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i fonitro cynnydd dysgwyr o wahanol grwpiau fel dysgwyr bregus, hawl i Brydau Ysgol am Ddim (PYD), disgyblion ADY, Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cymorth priodol a phwrpasol i'r disgyblion hyn ac maent yn gweld effaith y gwaith hwn drwy eu prosesau asesu. Dywedant fod disgyblion bregus yn gallu delio'n llawer gwell yn y dosbarth prif lif a gydag amrywiol heriau cymdeithasol.

## CWRICWLWM I GYMRU (CiG)

- ***Beth yw blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru yr ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?***

Mae gan bob ysgol gynradd flaenoriaethau CDY yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru yn 2021-22, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â Rheoli Perfformiad Penaethiaid.  Mae'r blaenoriaethau hyn yn unol â'r daith dysgu proffesiynol genedlaethol a'r daith at gyflwyno, ac yn cynnwys agweddau ar ddatblygu gweledigaeth, ymgyfarwyddo â chynnwys a chynllunio a threialu.

Trwy gydol tymor yr Hydref, roedd enghreifftiau o'r hyn a roddwyd ar waith gan ysgolion cynradd ac arbennig rhanbarthol yr awdurdod yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar Bedwar Diben y cwricwlwm newydd, e.e. disgyblion yn disgrifio beth maent yn ei olygu iddyn nhw, staff yn edrych (archwilio) ble rhoddir sylw i'r rhain yn y ddarpariaeth bresennol. Mae gan bob ysgol gynradd bellach fynediad at 'Fframwaith Asesu Ansawdd' GwE sy'n cefnogi ysgolion cynradd gyda'r archwiliad hwn, mae lleiafrif o ysgolion cynradd eisoes wedi dechrau defnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol.
- Treialu gyda chynllunio, e.e. cyfeirio at Feysydd Dysgu a Phrofiad yn y cynllunio ac amlygu'r ymdriniaeth;
- Datblygu taflenni gwybodaeth/gohebiaeth i rieni, yn dweud wrthynt am y Cwricwlwm i Gymru;
- Addysgu pynciau ac ail-labelu llyfrau yng nghyd-destun y Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Treialu gyda'r datganiadau o gynnydd mewn cynllunio;
- Mae staff yn mynychu dysgu proffesiynol perthnasol;
- Mae arweinwyr yn ystyried ffyrdd o dracio ac asesu'r Cwricwlwm i Gymru;
- Diweddaru llywodraethwyr  yn rheolaidd, a llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn y Cwricwlwm i Gymru;
- Datblygu themâu a thopigau ysgol gyfan sy'n briodol;
- Cynnwys llais y disgybl yn y cynllunio;
- Archwilio yn erbyn adnodd tracio Egwyddorion Addysgegol GwE;
- Ail-ymweld ag adborth a gwaith asesu ffurfiannol;
- Parhau i ddatblygu dysgu yn yr awyr agored - gwreiddio lles trwy brofiadau cyffrous a diddorol yn yr awyr agored;
- Parhau i ganolbwyntio ar les, gan gynnwys dysgwyr a'u teuluoedd a lles staff;
- Gweithredu mentrau ffitrwydd corfforol;
- Parhau i ddatblygu sgiliau digidol.

Mae bron pob ysgol wedi dechrau paratoi i weithredu'r cwricwlwm newydd, h.y. mae'r Pedwar Diben a'r 12 Egwyddor Addysgegol wedi cael sylw priodol a bellach yn rhan naturiol o'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu.

Ar draws y rhanbarth, mae amryw o enghreifftiau o arferion blaengar gydag amrywiol ffyrdd o gynllunio themâu, tasgau a gweithgareddau i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd. Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydweithio'n dda ac yn rhannu arferion llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio darpariaeth Dysgu Proffesiynol addas i ddatblygu dysgu ac addysgu effeithiol gan ystyried egwyddorion a gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi trefnu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gyfoethogi'r dysgu, yr addysgu a'r addysgeg i gefnogi datblygiad y Cwricwlwm i Gymru ymhellach.

Mae bron pob ysgol wedi cynllunio eu gwariant grant i gefnogi'u gwaith tuag at fodloni gofynion statudol Medi 2022. Ar y cyfan, neilltuwyd y gwariant hwn i wella cymarebau staffio, targedu disgyblion, prynu adnoddau ychwanegol a rhyddhau staff i fynd i hyfforddiant.

- ***Beth yw blaenoriaethau Cwricwlwm i Gymru y clwstwr yn ystod Tymor yr Hydref?***

Mae'r rhan fwyaf o glystyrau ar draws y rhanbarth yn gweithio'n dda ac yn wirioneddol cydweithio. Cryfhawyd y cydweithio hwn yn ystod y cyfnod clo pan oedd y clystyrau yn cyfarfod yn rheolaidd ar-lein.

Mae clystyrau ar draws y rhanbarth wedi cytuno ar amrywiaeth o flaenoriaethau. Dyma nhw:
- Sicrhau bod gan bob aelod staff ym mhob ysgol yn y clwstwr ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru a'r egwyddorion sy'n sail iddo;
- Datblygu ymhellach yr agweddau addysgegol a sut mae'r rheiny'n trosglwyddo i arferion dosbarth;
- Datblygu cynllunio cwricwlwm lefel uchel;
- Archwilio addysgeg a model dysgu ar sail ymholiad ar gyfer yr agwedd Gymraeg ar y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu;
- Datblygu hyfforddiant Profiadau Dysgu yn yr Awyr Agored a rhoi'r egwyddorion a'r fethodoleg ar waith.

Mae bron pob arweinydd ysgol wedi cydweithio a chyd-lunio blaenoriaethau a gosod cyfeiriad ar gyfer datblygiadau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac yn dechrau dangos effaith, e.e. mae fformat cynllunio clwstwr ar gael, sesiynau gweledigaeth clwstwr, newyddlenni clwstwr ac ati.

Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn datblygu'n dda mewn rhai ardaloedd; er hynny, mae effeithiolrwydd hyn yn amrywio o'r naill glwstwr i'r llall ar hyn o bryd. Mae gan arweinwyr mewn rhai clystyrau fwy o waith i'w wneud i greu a chytuno ar weledigaeth a chyfeiriad penodol i'r clwstwr. Yn gyffredinol, megis dechrau mae'r clystyrau o ran cynllunio ar gyfer cwricwlwm 3-16 a rennir, sy'n cynnwys gwella trosglwyddo. Dyma'r cam nesaf i lawer o glystyrau. Tymor nesaf, mae llawer yn bwriadu:
- Rhannu syniadau a modelau ar gyfer dylunio cwricwlwm, gan gynnwys cyswllt â'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru lleol;
- Rhannu cynlluniau ar gyfer grwpiau oedran tebyg rhwng ysgolion;
- Rhannu testunau/themâu i gefnogi gwaith pontio 3-16, gan gynnwys gwaith ar sgiliau cyfannol a thrawsgwricwlaidd;
- Dechrau datblygu dull asesu cyffredin;
- Dechrau datblygu ieithoedd modern 3-16.

Mae deuddeg clwstwr cynradd a phob ysgol arbennig wedi cael hyfforddiant adolygu cymheiriaid i gefnogi eu taith tuag at welliant. Yn ystod tymor yr Hydref, mae 33 clwstwr arall, yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol a 6 UCD, wedi gwneud cais i gymryd rhan mewn adolygu cymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

- ***Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru?***
    - ***Arwain newid***
    - ***Datblygu gweledigaeth a rennir***
    - ***Diwygio'r Cwricwlwm***

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac arbennig, mae arweinwyr wedi defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol i ddatblygu sgiliau staff wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mewn ysgolion eraill, mae YCG wedi ailgyflwyno'r adnoddau i arweinwyr, ac maent yn bwriadu eu defnyddio yn nhymor y Gwanwyn. Ble defnyddiwyd yr adnoddau hyn yn effeithiol, mae arweinwyr wedi cynllunio ffyrdd ymarferol a diddorol i ddefnyddio adnoddau rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru e.e. papurau procio, cyflwyniadau PowerPoint a gweminarau, trwy gyfarfodydd staff wythnosol, gyda'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn aml yn cefnogi.

Bu'r rhan fwyaf o Benaethiaid ar yr holl weithdai Cwricwlwm i Gymru gan gyfrannu'n dda at y broses, a rhoi safbwyntiau gofalus. Mae llawer yn gweithredu'r dull hwn o'r dysgu proffesiynol yn eu hysgolion, er enghraifft, ysgrifennu at randdeiliaid i ddatblygu gweledigaeth wirioneddol leol; a chael grwpiau o randdeiliaid i gyfrannu at ddatblygu gweledigaeth gyffredin. Mae llywodraethwyr yn rhan fawr o'r broses hon ac yn wybodus iawn yn gyffredinol, ac yn dechrau arwain newid cwricwlwm yn eu hysgolion.

- ***Beth fydd rôl a chyfraniad eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?***

Ar draws y rhanbarth, mae arweinwyr ysgolion wedi gofyn am y canlynol gan yr YCG:

- Cymorth gyda chyfarfodydd staff ar adnoddau GwE a Chanolfan Cefnogaeth GwE;
- Cymorth gyda hunan arfarnu a chynllunio gwelliant;
- Cymorth gyda monitro datblygiadau'r cwricwlwm;
- Cymorth a chyngor ar asesu a chynnydd a sut i gynllunio ar gyfer y rhain;
- Cymorth unigryw i staff lle bo'n briodol;
- Cymorth i ddatblygu cynllun y clwstwr ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;
- Cymorth ar gyfer cynllunio a phontio 3-16;
- Hwyluso prosiectau'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion;
- Rhannu enghreifftiau a modelau o sut i ddylunio'r cwricwlwm;
- Rhannu gwybodaeth ac adnoddau o'r rhwydweithiau rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen;
- Gofal bugeiliol parhaus.

- ***Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dylunio cwricwlwm***
    - ***yn eich ysgol?***
    - ***ar draws eich clwstwr?***

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion yn y rhanbarth gynlluniau i ddatblygu dylunio cwricwlwm drwy gydol y flwyddyn academaidd, drwy eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â chamau'r daith ddiwygio ranbarthol a chenedlaethol. Bydd staff yn parhau i ailwampio eu cwricwlwm yn unol â'r rhain wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Er hynny, mae dylunio'r cwricwlwm yn dal yn faes allweddol i gael cymorth ac arweiniad.

Nododd ysgolion fod athrawon wedi treialu dulliau cynllunio i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, a'u bod yn parhau i wneud hynny drwy:

- Gynllunio ar fformatau newydd, gan gynnwys cyfeiriadau at y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r Pedwar Diben;
- Mae testunau ysgol gyfan wedi'u cynllunio yn cynnwys y cwricwlwm lleol;
- Mae testunau a themâu yn cynnwys cynllunio ar gyfer llais y disgybl - yn enwedig ar ddechrau testunau

newydd;
- Gweithgareddau trochi i ennyn diddordeb dysgwyr yn eu testunau a'u themâu newydd;
- Cynllunio yn ystyried y sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol a themâu trawsgwricwlaidd;
- Datblygu'r amgylchedd dysgu i gefnogi gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys datblygu dysgu yn yr awyr agored yn sylweddol, sydd o berthnasedd i'r ardal leol;
- Parhau i ddatblygu dysgu digidol.

Mae'r rhan fwyaf o glystyrau yn bwriadu datblygu dull cynllunio cyffredin ar gyfer cynnydd 3-16 yn ystod tymor y Gwanwyn.

Mae llawer o ysgolion eisoes wedi datblygu systemau ar gyfer cydweithio mewn timau a chyd-arbrofi ag arferion a rhannu'r rhai llwyddiannus wrth gynllunio ar gyfer dyfodiad y cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith a wnaed i werthuso'r defnydd o'r 12 Egwyddor Addysgegol hefyd yn sylfaen effeithiol i'r gwaith hwn.

- ***Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?***

Mae 228 o ysgolion cynradd ac arbennig a 533 o ymarferwyr yn rhan o'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae'r rhwydweithiau wedi sefydlu system i rannu'r gwaith ar lefel ranbarthol a lefel awdurdod lleol. Trwy hyn a thrwy gydweithio â chyd-weithwyr clwstwr mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, mae ysgolion eisoes yn gwella eu dealltwriaeth o feysydd penodol y Cwricwlwm i Gymru, ac maent eisoes yn dechrau rhannu syniadau a chynllunio.  Drwy gydol y tymor, buont yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau a dulliau cyffredin ac maent wedi datblygu dysgu drwy weithio gyda chydweithwyr eraill mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill o fewn yr awdurdod ac ar draws y rhanbarth.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

- ***Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?***

Lluniwyd blaenoriaethau clwstwr i ddatblygu ADY ym mhob clwstwr, ac mae ysgolion wrthi'n mireinio ac yn perchnogi'r blaenoriaethau hyn.

Ymddengys bod y rhan fwyaf o ysgolion yn ymateb yn llwyddiannus, ar y cyfan, i'r ddeddf a'r gofynion statudol ar draws y rhanbarth ac yn diweddaru aelodau staff yn rheolaidd ar ddatblygiadau.

Mae rôl y Cydgysylltydd ADY (CGADY) mewn ysgolion yn datblygu. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio cerrig milltir G6 i adolygu cynnydd yr ysgol a gweld a oes agweddau pellach sydd angen sylw, ac mae'r gweddill wrthi'n cwblhau'r gwaith hwn cyn diwedd tymor yr Hydref.

Mae staff ADY allweddol wedi cael hyfforddiant 'Eclipse' ac maent yn barod i ddatblygu'r system ar draws yr ysgol.

Dyma enghreifftiau o flaenoriaethau ysgolion ar gyfer y tymor hwn:
- Diweddaru polisïau i adlewyrchu diwygio ADY, pan fyddant ar gael gan yr Awdurdod Lleol;
- Mae treialu gyda Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn digwydd - bydd gan ddysgwyr newydd Gynllun Datblygu Unigol;
- Bydd gan bob plentyn broffil un-dudalen erbyn diwedd y tymor
- CGADY, llywodraethwyr ac athrawon i gael dysgu proffesiynol perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant ysgol gyfan mewn arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion [PCP] ac 'Eliesha'.
- Bydd ysgolion yn diweddaru teuluoedd ar eu hawliau i apêl a thribiwnlys;
- Parhau i weithredu darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu mewn clystyrau;

- Datblygu'r arfer o blant yn cynllunio ac yn cyd-lunio eu cyfarfodydd adolygu eu hunain ar batrwm CDU.

## DYSGU PROFFESIYNOL

- ***A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?***

Mae pob ysgol wedi ymrwymo i ddysgu proffesiynol ar gyfer datblygu staff ar y daith tuag at y Cwricwlwm i Gymru ac maent yn dilyn amserlen genedlaethol a rhanbarthol. Rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fydd yn gyrru'r gwaith hwn.

Ar y cyfan, mae cynlluniau Dysgu Proffesiynol ysgolion yn cyd-fynd yn bwrpasol â'u prosesau Rheoli Perfformiad. Fel hyn, gallant sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd datblygiadol sy'n ymateb i ofynion blaenoriaethau'r ysgol mewn ffordd effeithiol a strwythuredig.

Mae nifer o enghreifftiau o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu ac uwch sgilio staff. Mae rhai enghreifftiau penodol yn golygu uwch sgilio'r gweithlu i gefnogi lles disgyblion drwy'r diploma 'Ysgolion sy'n wybodus ynghylch Trawma', 'Tyfu drwy'r Tymhorau', 'ELSA' a 'MAPA'. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn parhau i roi sylw i ddatblygu agweddau Asesu ar gyfer Dysgu hefyd drwy fynychu hyfforddiant Shirley Clarke. Mae mwy na chant o ysgolion wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau llafaredd Cymraeg drwy brosiect Ein Llais Ni. Erys datblygu arweinyddiaeth yn flaenoriaeth drwy Raglenni Datblygu Arweinyddiaeth GwE.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr, athrawon ac aelodau staff yn cymryd rhan yn dda mewn dysgu proffesiynol, ac yn y rhan fwyaf o ysgolion rhennir gwybodaeth â chyd-weithwyr yn dilyn cyfleoedd hyfforddiant. Nodir dysgu proffesiynol yn glir ym mron pob ysgol drwy'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae llawer o arweinwyr wedi gofyn am gymorth i gynllunio a datblygu eu sgiliau eu hunain a sgiliau staff drwy:

- Gymorth gan yr YCG mewn cyfarfodydd staff, yn enwedig gyda datblygiadau Cwricwlwm i Gymru;
- Datblygiad parhaus staff drwy raglenni cenedlaethol a rhanbarthol, e.e. Cymorthyddion Dysgu, Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG), Arweinyddiaeth, ac ati;
- Gweithio mewn clwstwr ac ar y cyd;
- Rhwydweithiau rhanbarthol a lleol;
- Cymorth gyda datblygu cynllunio 3-16 ar draws y clwstwr.

## ATEBOLRWYDD

- ***Sut ddylai atebolrwydd edrych?***
- ***Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?***
- ***Sut fydd adrodd yn edrych?***

Mae bron pob Pennaeth cynradd yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd a manwl ar gyfer llywodraethwyr. Llunnir y rhain drwy hunan arfarniad ysgol gyfan. Mae gweithdrefnau atebolrwydd yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys plant a rhieni. Mae gan lawer o ysgolion amserlen fonitro ddrafft ar waith, yn gysylltiedig â blaenoriaethau Cynlluniau Datblygu Ysgol, sy'n cynnwys ystod o strategaethau monitro megis:

- Teithiau dysgu disgyblion a staff;
- Craffu ar lyfrau;
- Cyfweliadau ac holiaduron;
- Arsylwi gwersi yn unol â rheoli perfformiad;
- Arsylwi cymheiriaid a thrioedd.

Bydd gwaith clystyrau gyda'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn datblygu monitro clwstwr ymhellach, ac yn cyfrannu at ddatblygu cyd-atebolrwydd ar draws y clwstwr. Caiff y ddarpariaeth ADY ei monitro drwy hunan arfarnu yn erbyn cerrig milltir 'G6' a thrwy'r grŵp clwstwr ADY.

Mae'r pandemig wedi llesteirio gallu arweinwyr i ddatblygu monitro ac atebolrwydd y tymor hwn, ac nid yw llawer eto wedi gweithredu prosesau craffu ar lyfrau a rheoli perfformiad yn llawn yn eu hysgolion hyd yma.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn flaenoriaeth allweddol i bob ysgol eleni, a chaiff ei monitro drwy brosesau hunan arfarnu a monitro. Yn ychwanegol, bydd yr agweddau clwstwr ar y blaenoriaethau hyn yn cael eu monitro mewn cyfarfodydd clwstwr rheolaidd a bydd yr YCG cyswllt yn rhan o'r trafodaethau.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn sicrhau bod eu hathrawon yn atebol am addasu, mireinio ac arbrofi efo'r addysgu ac yn ystyried egwyddorion a gofynion Cwricwlwm i Gymru drwy gyfarfodydd staff rheolaidd a gweithdrefnau arsylwi gwersi. O wneud hyn, bydd arweinwyr yn sicrhau cysondeb cyflymder wrth ymateb i'r daith ddiwygio ar draws eu hysgolion ac yn annog unigolion i fod yn arbrofi gyda strategaethau dysgu ac addysgu newydd a rhoi cynnig arnynt.

Mae nifer fawr o ysgolion yn sicrhau cyfleoedd i staff rannu'u gwaith drwy sgyrsiau proffesiynol penodol e.e. mewn cyfarfodydd staff. Mae hyn yn helpu wrth sicrhau cysondeb ac adnabod yr arferion gorau.

Mae pob ysgol yn adrodd i lywodraethwyr a rhanddeiliaid ar y daith ddiwygio gan gynnwys effaith unrhyw weithredu neu dreialu dros y flwyddyn newydd.

## SECTOR UWCHRADD GAN GYNNWYS YSGOLION ARBENNIG PERTHNASOL AC UCD

## GRADDAU A BENNIR GAN GANOLFANNAU AR GYFER TGAU A SAFON UWCH 2021

***Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021), cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortiwm rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.' Cadarnhaodd hefyd y 'bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus'. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn am ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion i fyfyrio ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'***

Sicrhaodd bob ysgol a lleoliad bod gweithdrefnau mewnol yn bodloni'r gofynion ar gyfer dyfarnu cymwysterau a nodwyd gan Cymwysterau Cymru a CBAC yn 2021 ar gyfer y drefn Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Cyflwynwyd cynlluniau asesu - ac yn sgil gwneud addasiadau mewn rhai achosion - derbyniwyd pob un gan y corff dyfarnu. Cymrodd bob ysgol a lleoliad ran yn y sesiynau rhag-baratoi a gynhaliwyd gan y rhanbarth efo Cymwysterau Cymru a CBAC.

Adroddodd lawer o ysgolion bod Penaethiaid a staff wedi elwa o'r cydweithio o fewn eu cynghrair uwchradd i ymateb i ddisgwyliadau cenedlaethol a datblygu polisïau a phrosesau ar lefel ysgol. Llwyddodd hyn i sicrhau cysondeb a dealltwriaeth gyffredin.

Gofalodd bob ysgol rannu'r canllawiau gan y cyrff dyfarnu yn gyflym ac yn glir ymysg y staff dysgu, a gofyn am eglurhad pan roedd angen. Gan mwyaf - defnyddiodd yr ysgolion asesiadau a chynlluniau marcio cymeradwy CBAC yn llawn i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer y Graddau a Bennwyd. Sicrhaodd bob ysgol bod trefniadau mynediad priodol i ddysgwyr ag ADY, a rhoddwyd ystyriaeth arbennig ble'n briodol. Defnyddiodd bob ysgol ymarferion gweithdrefnau cymedroli mewnol i gefnogi gwaith cymedroli a safoni asesiadau. Aeth amryw o ysgolion ati i ddatblygu ar eu gwaith drwy gynghreiriau lleol gan ddefnyddio cymedroli traws-ysgol i gefnogi safoni mewnol. Dyma oedd yr achos ble mai un athro oedd yn dysgu pynciau neu ble roedd timau pynciol yn fach; nid oedd cymaint o angen mewn timau mwy o fewn ysgolion mwy.

Yn ystod y broses, roedd cryfder cyffredinol yn yr ysgolion o ran cyfleu a rhannu polisïau a disgwyliadau efo rhieni (drwy ohebiaeth ysgrifenedig a sesiynau briffio rhithiol). Roedd hyn yn gryfder arbennig ym mhrosesau'r ysgolion ac yn rhoi tryloywder i ysgolion am berfformiad presennol yn erbyn targedau a deilliannau disgwyliedig.

Roedd dysgu o bell effeithiol yn gymorth i'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiad ddychwelyd i'r ysgol ym mis Ebrill 2021.

Roedd rhai problemau gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr. Gwelwyd bod dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn grŵp oedd yn achosi 'pryder' o safbwynt ymgysylltu a chynnydd. Mae perfformiad grwpiau o ddysgwyr, ac yn enwedig disgyblion PYD, yn dal yn flaenoriaeth i nifer o ysgolion.

Cynyddodd graddau A*-A yn sylweddol. Yn ôl llawer o ysgolion, roedd hyn i'w briodoli i ddiwydrwydd dysgwyr a'r defnydd effeithiol o adnoddau cenedlaethol a roddwyd iddynt i'w paratoi am yr asesiadau. Yn ogystal, roedd llawer o ddysgwyr wedi elwa o gael llai o ddeunyddiau a chynnwys i'w hadolygu, llai o

amser rhwng adolygu ac asesu fel eu bod nhw'n cofio'r dysgu i raddau mwy, llai o asesiadau ac asesiadau a gyflwynwyd o flaen llaw i ddisgyblion drwy wefan CBAC.

Aeth y rhan fwyaf o ysgolion ati i ddadansoddi amrywiad mewnol gan ddefnyddio llwyfannau technoleg gwybodaeth gan ddatblygu adolygiad cyffredinol o raddau myfyrwyr unigol yn erbyn eu proffiliau blwyddyn blaenorol. Edrychodd lawer o ysgolion yn agos ar eu gweithdrefnau gosod targedau a chasglu data i sicrhau cysondeb arferion. Roedd gosod targedau yn aml yn seiliedig ar ragamcanion FFT/sgôr CATS ac asesiadau mewnol. Defnyddiwyd 'ALPS' hefyd i gefnogi'r gwaith casglu data ac arfarnu ar lefel Chweched Dosbarth. Mewn llawer o ysgolion, gweithredir i roi sylw i faterion sydd wedi codi mewn rhai adrannau ble nad oedd y sylfaen ar gyfer dyfarnu graddau cyn gryfed neu ble gwelwyd anghysondebau. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio i sicrhau y bydd adrannau yn barod i gyflwyno sail dystiolaeth gref o asesiadau os bydd angen cynnal prosesau tebyg eleni.

Mae amryw o ysgolion wedi nodi bod lefelau llythrennedd yn isel ymysg grwpiau o ddysgwyr ac maent yn gweithredu i gefnogi a gwella hyn. Mae'n amlwg bod y cyfnodau clo wedi effeithio ar sgiliau Cymraeg dysgwyr, yn enwedig y rheiny o aelwydydd di-Gymraeg ac mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

## CWRICWLWM I GYMRU (CiG)

- ***Beth yw eich blaenoriaethau CiG fel ysgol ar gyfer tymor yr Hydref?***

Ar ddechrau tymor yr Hydref, nododd bron i'r cyfan o'r 54 ysgol uwchradd/pob oed eu bwriad i gorffori'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n gynyddol anodd i gadw at yr amserlenni y maent wedi'u gosod i'w hunain oherwydd y pandemig. Mae llawer wedi cael anhawster yn ystod y tymor hwn oherwydd absenoldebau staff a diffyg llanw. Gall y trefniadau ar gyfer arholiadau'r Haf hefyd lesteirio ymhellach eu gallu i fynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022. Os bydd y pandemig yn parhau i amharu ar waith ysgolion wedi'r Nadolig, byddem yn rhagweld bod canran gynyddol o ysgolion uwchradd yn mynd ati i adolygu eu sefyllfa ac oedi tan 2023, o bosibl. Mae angen i ysgolion gadarnhau trefniadau efo Llywodraeth Cymru erbyn 8 Ebrill 2022.

Bu sicrhau bod cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn cael blaenoriaeth yn her i'r rhan fwyaf o ysgolion sydd mewn categori statudol dilyniant gan Estyn. Parheir i roi blaenoriaeth i gefnogi'r ysgolion hyn yn effeithiol.

Ym mron pob ysgol, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac mae camau gweithredu ar gyfer tymor yr Hydref yn cyd-fynd â'r disgwyliadau cenedlaethol a nodir yn y ddogfen ddiwygiedig 'Cwricwlwm i Gymru: y daith at 2022'. Mae pob ysgol wedi nodi bod angen i staff, yn nhymor yr Hydref, ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fframwaith y Cwricwlwm a sicrhau bod athrawon yn cynllunio cynnydd o fewn/ar draws MDaPh a sgiliau trawsgwricwlaidd. Y tymor hwn, mae llawer o'r pwyslais ar ddatblygu dylunio'r cwricwlwm, dadbacio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o fewn ac ar draws y camau cynnydd. Rhannwyd prosesau posibl a enghreifftiwyd yn y rhwydweithiau CiG rhanbarthol a lleol â staff yn y rhan fwyaf o ysgolion i gefnogi'u cynllunio.

Dyma rai o'r blaenoriaethau CiG a nodwyd gan ysgolion uwchradd:

- cynllunio cynnydd mewn sgiliau trawsgwricwlaidd a themâu trawsbynciol;
- dylunio cwricwlwm lefel uchel;
- cynllunio a gweithredu'r MDaPh;
- asesu a chynnydd;
- datblygu ymhellach y 12 egwyddor addysgegol a dysgu digidol;

- cynnwys y gymuned, yn enwedig gyda dysgu yn yr awyr agored;
- gweithgareddau llais y disgybl yn cyfrannu at gynllunio datblygiadau;
- mae'r adnoddau yn cefnogi ethos y cwricwlwm newydd a datblygiad sgiliau;
- datblygu ar waith clwstwr gydag ysgolion cynradd partner a gweithio tuag at bontio llyfn yn y dysgu.

- ***Beth yw eich blaenoriaethau CiG fel clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?***

Y tymor hwn, mae bron pob ysgol uwchradd wedi cydweithio â'u clystyrau cynradd i gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhan fwyaf o glystyrau wedi ail-ymweld â'u gweledigaeth ac wedi rhannu'u profiadau â rhwydweithiau rhanbarthol a lleol GwE. Mewn clystyrau eraill, mae athrawon uwchradd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd y clwstwr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg neu gydweithio'n effeithiol i ganolbwyntio ar sut i gyfleu cwricwlwm sy'n ddi-dor a ble mae cynnydd yn cael ei ddeall a'i ategu yn eu cynlluniau dysgu.

Mae cydweithio cynradd/uwchradd hefyd yn datblygu'n dda mewn rhai ardaloedd; er hynny, nid yw hyn yn gyson ar draws y rhanbarth a bydd angen targedu cynhaliaeth ymhellach i sicrhau ymgysylltiad effeithiol ar bob lefel. Mae gan arweinwyr uwchradd mewn rhai clystyrau waith pellach i'w wneud i fynd i'r afael yn well â chreu a chytuno ar weledigaeth gyffredin a chyfeiriad penodol i'r clwstwr.

Mae'r rhain ymysg blaenoriaethau clwstwr Cwricwlwm i Gymru a nodwyd gan ysgolion uwchradd:
- Datblygu cynlluniau pontio effeithiol;
- Cynllunio gweithgareddau pontio sy'n cyd-fynd â dylunio Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Canolbwyntio ar Gamau Cynnydd 2-4 a'r continwwm 3-16;
- Edrych ar ddata a throsglwyddo gwybodaeth am ddysgwyr - beth sydd angen ei drosglwyddo a'i ddeall;
- ble nad yw ymgysylltiad wedi datblygu digon hyd yma, gweithredu i symud ymlaen ar hyn;
- Rhannu a datblygu elfen gyffredin i weledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiad;
- Edrych ar ddulliau asesu y gellir eu defnyddio yn y dysgu a'r addysgu; sut i werthuso cynnydd;
- Diwrnod hyfforddiant ar y cyd i rannu cynlluniau a chynnydd;
- Datblygu gwaith ar feysydd cyffredin yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, gwaith ar y cyd ar ysgolion sy'n wybodus ynghylch trawma, dulliau addysgegol gydag Ieithoedd Tramor Modern; dulliau cyffredin gyda sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.
- Cynllunio diwrnod hyfforddiant clwstwr ar y cyd i ganolbwyntio ar y cwricwlwm;
- Datblygu dull ymchwil sy'n seiliedig ar ymholi i'r clwstwr gyda chymorth y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

- ***Sut ydych chi'n defnyddio ymhellach adnoddau cynnig dysgu proffesiynol Cwricwlwm i Gymru?***
  - ***Arwain newid***
  - ***Datblygu gweledigaeth a rennir***
  - ***Diwygio'r cwricwlwm***

Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar adeg prysur iawn i ysgolion uwchradd a oedd wrthi'n paratoi i ddyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Felly, roedd lefel yr ymgysylltu yn amrywio ar draws y rhanbarth. Bu'r rhan fwyaf o ysgolion ar o leiaf un o'r sesiynau hyn a defnyddiodd lawer recordiadau o'r hyfforddiant maes o law. Rhannodd lawer o ysgolion yr adnoddau ag aelodau'r UDA; roedd hyn yn heriol i rai a rhoddwyd ail gynnig arni yn ystod tymor yr Hydref gyda chymorth yr YCG a'r sesiynau wedi'u recordio. Defnyddiwyd rhai adnoddau, e.e. y rheiny sy'n ymwneud â'r weledigaeth neu ddylunio'r cwricwlwm, yn effeithiol mewn ysgolion. Mewn un ysgol, er enghraifft, arweiniodd bob aelod o'r uwch staff weithdy gyda'r corff dysgu cyfan, mewn ysgol arall, rhannwyd a thrafodwyd canfyddiadau gydag uwch dimau arwain i lywio penderfyniadau. Mae llawer o ysgolion yn dal i ddefnyddio elfennau o'r cymorth hwn, er enghraifft defnyddio'r ap cynllunio taith, a defnyddio'r syniadau creu gweledigaeth i werthuso'r ddarpariaeth

bresennol yn erbyn y weledigaeth.

- ***Beth fydd rôl a chyfraniad eich Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) ac aelodau tîm estynedig GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?***

- Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi annog staff dynodedig i fod yn rhan o'r rhwydweithiau rhanbarthol/lleol Cwricwlwm i Gymru ac wedi cefnogi a hwyluso'r gwaith.
- Mae YCG wedi cefnogi datblygiadau unigryw Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion drwy roi arweiniad a chyfrannu at hyfforddiant a chyfarfodydd yn ôl anghenion a chynhwysedd yr ysgol.
- Mae Arweinydd Craidd/YCG yn cefnogi datblygiadau a dylunio'r cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd a'r clystyrau.
- Mae YCG pynciol wedi cefnogi Penaethiaid Pynciau Craidd gyda chynllunio Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh). O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth arweinwyr canol o'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac ystyriaethau cynllunio wedi gwella.
- Mae timau YCG yn parhau i gyflwyno dysgu proffesiynol i staff, yn cyfrannu at ddiwrnodau datblygiad proffesiynol ac yn cefnogi gwaith y timau MDaPh i ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- Mae YCG yn cefnogi uwch arweinwyr a llywodraethwyr i ddiweddaru cynlluniau ysgol gyfan ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd o 2022.
- Mae YCG yn codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael ac a ddatblygir ac a rennir drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE.

- ***Beth yw eich dulliau cychwynnol o ddatblygu dylunio cwricwlwm***
  - ***yn eich ysgol?***
  - ***ar draws eich clwstwr?***

Mae pob ysgol yn mynd ati'n wahanol i 'ddylunio'r' cwricwlwm newydd. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn edrych yn agos ar ddatblygu gweledigaeth glir; mae rhai wedi edrych ar adnoddau cynllunio'r cwricwlwm ac wedi gofyn i adrannau gynllunio cynlluniau newydd gyda chyd-destunau gwreiddiol a sgiliau fel elfennau allweddol; mae eraill yn mynd i'r afael â'r cwricwlwm drwy edrych yn wahanol ar addysgeg. Mae rhai wedi newid strwythurau staffio neu wedi penodi staff ychwanegol i gefnogi mentrau allweddol. Mae rhai wedi canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu cyd-destunau lleol a gwreiddiol i gefnogi'r dysgu. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o ysgolion wedi datblygu a gwreiddio dulliau addysgeg a dilyniant sgiliau effeithiol. Mae modd datblygu ar ddysgu mewn technoleg newydd ac addysgeg ddigidol er mwyn cefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd.

Mae rhai ysgolion yn datblygu ar waith y gweithdai consortiwm a gynhaliwyd yn yr Haf ac yn edrych yn agos ar ddylunio'r cwricwlwm, yn treialu mwy o waith mewn meysydd rhyngddisgyblaethol, ar draws Gwyddoniaeth a Thechnoleg neu ddeilliannau integredig mewn Celf Mynegiannol. Mae un ysgol wedi penodi athro ar gyfer lles ac wrthi'n datblygu cwricwlwm unigryw i'r ysgol yn y maes hwnnw. Mae eraill yn edrych ar ddyraniadau'r cwricwlwm drwy lens feirniadol ac yn gofyn beth sy'n addas i'r diben i ddysgwyr wrth symud ymlaen. Mae gan rai ysgolion gyfarfodydd Cwricwlwm i Gymru penodol i ddisodli'r cyfarfodydd adrannol hanesyddol. Mae mwy o bwyslais mewn ysgolion ar weithio ar draws adrannau. Mae rhai ysgolion wedi symud i ailstrwythuro eu staffio ar sail y MDaPh.

Mae rhai ysgolion hefyd yn edrych ar elfennau cwricwlwm eraill, e.e. sgiliau trawsgwricwlaidd, sgiliau cyfannol, themâu trawsbynciol a mapio cysylltiadau ar draws y cwricwlwm.
Mae llawer o ysgolion yn manteisio ar gynnig GwE ac yn defnyddio arbenigedd y consortiwm i gefnogi hyn. Rhennir syniadau ar draws ysgolion drwy rwydweithiau rhanbarthol a lleol. Er hynny, mae dylunio'r cwricwlwm yn dal yn faes allweddol i gael cymorth ac arweiniad.

- ***Sut fydd y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol yn cefnogi eich ysgol/clwstwr?***

Mae pob ysgol wrthi'n dilyn hyfforddiant a gweithgareddau datblygu dan arweiniad y consortiwm. Ar hyn o bryd, mae 44 ysgol uwchradd (88%) a 197 o athrawon uwchradd yn rhan o'r rhwydweithiau. Mae'r pedair ysgol 3-16 oed yn rhan gyda 22 o ymarferwyr yn cyfrannu.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

- ***Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY fel ysgol/clwstwr ar gyfer tymor yr Hydref?***

Yn ôl y rhan fwyaf o ysgolion, maent yn symud ymlaen yn dda tuag at weithredu.  Yn y rhan fwyaf, mae ymwybyddiaeth dda iawn o'r diwygiadau a'r newidiadau a ddaw i'w canlyn ymysg staff a llywodraethwyr.

Dyma flaenoriaethau ar gyfer Trawsnewid ADY yng Nghymru mewn ysgolion uwchradd:
- Datblygu rôl y Cydgysylltydd ADY (CGADY) i fod yn arweinydd strategol;
- Adolygu a gorffen polisïau perthnasol;
- Sefydlu a chadarnhau gweithdrefnau hawl i apêl a rhannu efo rhieni;
- Datblygu arbenigedd a hyfforddiant ymhellach ymysg staff dysgu a chymorth;
- Datblygu darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu sy'n rhoi modd i ddysgwyr wneud cynnydd waeth beth yw eu man cychwyn;
- Datblygu gwahaniaethu a'r ddarpariaeth gyffredinol;
- Parhau i ddatblygu'r Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion;
- Mynd ati i werthuso gwybodaeth arweinwyr ac ymarferwyr a'u defnydd o'r uchod i weld pa mor dda y mae'n bwydo i'r dysgu a'r addysgu;
- Sicrhau pontio llyfn o'r cynradd i'r uwchradd a bod cynlluniau pontio cadarn ar waith;
- Datblygu strategaethau i ddarparu darpariaeth dysgu ychwanegol yn y Gymraeg (mewn rhai Awdurdodau Lleol).

## DYSGU PROFFESIYNOL

- ***A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol i chi eu hadnabod?***

Dyma'r anghenion dysgu proffesiynol sydd wedi'u nodi mewn ysgolion uwchradd:
- Cwricwlwm i Gymru: dyfnhau dealltwriaeth; 'datgloi' dylunio'r cwricwlwm; hyrwyddo dysgu ac addysgu da; datblygu a deall asesu a chynnydd;
- Deall sut i ddatblygu'r sgiliau sy'n sail i'r cwricwlwm newydd, e.e. rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol;
- Gweithredu diwygiadau ADY, gan gynnwys Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion/gwaith mapio darpariaeth ac edrych ar bontio ar draws clwstwr;
- Diwygio ADY - diweddaru staff a llywodraethwyr yn rheolaidd a thargedu DP i Gydgysylltwyr ADY a staff perthnasol;
- Strategaethau gwahaniaethu effeithiol;
- Datblygu ymhellach arweinwyr presennol a darpar arweinwyr drwy raglenni arweinyddiaeth cenedlaethol, e.e. paratoi am CPCP, uwch arweinwyr, arweinwyr canol, arweinwyr ôl-16;
- Cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol (egwyddorion addysgegol);
- Datblygu cymell a mentora i uwch arweinwyr;
- Darparu hyfforddiant a chymorth i arweinwyr pynciau craidd newydd;
- Llywodraethwyr - hunan arfarnu ysgol gyfan a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- Cymorth gyda hunan arfarnu, prosesau monitro a chynllunio ar gyfer gwelliant;
- Cymorth i ddatblygu ac adfer sgiliau Cymraeg;

- Cymorth arbenigol i ddatblygu lles ac agweddau at ddysgu.

## ATEBOLRWYDD

- ***Sut ddylai atebolrwydd edrych?***
- ***Sut wnewch chi fesur cynnydd ac effaith eich gwaith?***
- ***Sut fydd adrodd yn edrych?***

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn bryderus am y diffyg eglurder ynghylch defnyddio mesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer atebolrwydd a'r ansicrwydd ynghylch dyluniad a chynnwys y gyfres newydd o gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Mae cymorth ac arweiniad gyda deall y gofynion asesu a chofnodi cynnydd disgyblion ar gyfer y cwricwlwm newydd yn flaenoriaeth i'r rhan fwyaf o ysgolion.

Mae rhai ysgolion, yn enwedig y rheiny sydd â nifer uwch o PYD yn anghyfforddus efo'r 'gwagle' sydd wedi'i greu drwy dynnu data meincnodi ac yn pryderu y gallai perfformiad yr ysgol gael ei gamddehongli os na rhoddir ystyriaeth briodol i ffactorau cyd-destunol.

Ar y cyfan, mae ysgolion uwchradd yn gyfforddus efo symud at fodel atebolrwydd mwy deallus, gyda phwyslais ar 'wella' yn hytrach na 'phrofi'. Mae defnydd ysgolion o brosesau cadarn i olrhain cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn allweddol yn yr un modd ag y mae adnabod a rhoi sylw i amrywiad mewn ysgol.

Mae ysgolion yn dra ymwybodol o'r angen i ail sefydlu prosesau gwella ansawdd ac maent yn ymwybodol o'r heriau presennol wrth wneud hyn. Mae llawer o ysgolion wedi cynnal gweithgareddau gwella ansawdd i raddau wrth ddysgu o bell yn ystod cyfnodau clo. Mae rhai ysgolion wedi gwahodd YCG cyswllt GwE ac YCG pynciol i gefnogi uwch arweinwyr ac arweinwyr canol gyda gweithgareddau gwella ansawdd e.e. arsylwi gwersi, adolygu dogfennau, craffu ar lyfrau, mynd i gyfarfodydd bugeiliol ac adolygu pynciol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach yn symud yn ôl at system gadarnach o brosesau Sicrhau Ansawdd ac mae ganddynt ddarlun gliriach o ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau.

Mae bron pob ysgol wrthi'n trafod efo partneriaid i sefydlu Cynghreiriau ac maent yn awyddus i gydio neu ail-gydio ag adolygu cymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion. Derbynnir bod rôl a chyfraniad adolygu cymheiriaid a dilysu cadarn yn dyngedfennol wrth symud ymlaen.

Cryfhawyd y broses o wrando ar lais dysgwyr yn ystod y pandemig ac erys yn elfen bwysig a dylanwadol o fesurau mewnol i bron bob ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu ym mron pob ysgol wedi cael diweddariad ar ddatblygiadau yn ymwneud ag amrywiol agweddau ar wella ysgolion gan gynnwys dysgu ac addysgu, Cwricwlwm i Gymru a'i effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau.

## CRYNODEB O GYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GWE I YSGOLION

Drwy ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol effeithiol, cefnogwyd ysgolion ar draws y ddau sector i ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm cychwynnol. Mae arweinwyr ac athrawon ar draws mwyafrif helaeth yr ysgolion wrthi'n arbrofi gyda dulliau i ddatblygu ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau i'w disgyblion. Mae cynllunio ar lefel ysgol a chlwstwr yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o'r datganiadau o'r 'hyn sy'n bwysig' a sut y dylai'r 12 egwyddor addysgegol ategu'r dulliau addysgu.

Mae rhwydweithiau a fforymau lleol a rhanbarthol yn effeithiol o ran cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm. Mae mwy na 700 o staff ac ymarferwyr ysgolion y rhanbarth yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i roi sylw i hyn ar lefel ysgol gyfan a MDaPh. Mae GwE hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach datblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I'r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r consortia rhanbarthol wedi buddsoddi'n fawr mewn darparu dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd. Egwyddor graidd y cynnig fu datblygu cynhwysedd sefydliadol fel 'sefydliad sy'n dysgu' a chaniatáu i arweinwyr fyfyrio'n fwy effeithiol ar yr heriau a ddaw wrth arwain newid. Mewn llawer o ysgolion ar draws rhanbarth GwE cyn y cyfnod clo, bu athrawon wrthi'n dechrau treialu gyda'r Cwricwlwm i Gymru, drwy ddod yn gyfarwydd yn gyntaf oll â'i gynnwys. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon wedi dechrau arbrofi gyda ffyrdd newydd o gynllunio, dysgu ac addysgu. Yn ystod y pandemig, mae athrawon ar draws y rhan fwyaf o ysgolion wedi bod yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau yn gysylltiedig â'r pedwar diben. Er enghraifft, parhawyd â'r pwyslais cryf ar sgiliau a lles drwy gydol cyfnod y clo a chwyldrowyd sgiliau digidol dysgwyr, rhieni a staff ysgolion. Mae arweinwyr ar draws y rhanbarth eisoes wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE i ddatblygu sgiliau staff wrth iddynt gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Ble defnyddiwyd yr adnoddau hyn yn effeithiol, mae arweinwyr wedi cynllunio ffyrdd ymarferol a difyr i'w defnyddio e.e. Papurau Procio, cyflwyniadau PowerPoint a gweminarau i brocio trafodaethau ysgogol mewn cyfarfodydd staff wythnosol, yn aml gyda chymorth yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant. Ar draws y rhanbarth, bu llawer o athrawon mewn gweithdai Cwricwlwm i Gymru GwE ac mae amryw o ysgolion bellach yn gweithredu'r syniadau a'r dulliau a rannwyd. Manteisiodd ein cydweithwyr o ranbarthau eraill a swyddogion awdurdodau lleol Gogledd Cymru ar y cyfleoedd Dysgu Proffesiynol hyn hefyd.

Amlinellir isod Cynnig Proffesiynol GwE i ysgolion a chlystyrau:

- mae egwyddorion Cwricwlwm i Gymru wedi'u gwreiddio yn yr holl hyfforddiant, ac mae pedwar diben y cwricwlwm wastad yn allweddol wrth i ddarparwyr fynd ati i gynllunio hyfforddiant perthnasol, cyfoes a heriol.
- rydym wedi cynnwys yr holl agweddau ar y diwygio ehangach yn ein cynnig DP, gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- mae adnoddau a meysydd dysgu proffesiynol yn cynnwys y deuddeg Egwyddor Addysgegol yng nghyd-destun ehangach dysgu ac addysgu, asesu, rhwydweithiau MDaPh rhanbarthol, a dylunio a chynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol.
- bwriad y cynnig ar draws y rhanbarth yw cefnogi holl ymarferwyr ysgolion, ond canolbwyntiwyd yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr efo'r themâu hyn: Arwain newid; Arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm newydd; Datblygu gweledigaeth a rennir; Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm - i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu; Arwain addysgeg; Creu amser a lle i ddysgu'n broffesiynol. Mae'r

sesiynau hyn yn rhai clwstwr ac yn galluogi i grwpiau llai o ysgolion cynradd, a'u hysgol uwchradd leol, i drafod y cwricwlwm newydd ar draws y continwwm dysgu 3-16. Ar draws y rhanbarth, bu 832 o Uwch Arweinwyr yn y sesiynau Arwain Newid hyn. Yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021, bu GwE yn cynnal cyfres o sesiynau dros gyfnod o dair wythnos i uwch arweinwyr, yn canolbwyntio ar themâu datblygu gweledigaeth gyffredin a chynllunio ar gyfer newid cwricwlwm, gan gynnwys dylunio'r cwricwlwm. Cynhaliwyd y sesiynau hyn yn ddigidol fesul clwstwr a bu modd rhannu'n grwpiau llai i ysgolion drafod y gwaith hwn o fewn eu rhwydweithiau lleol. Bu mwy na 1150 o uwch arweinwyr yn y sesiynau ar draws y rhanbarth.

- Yn rhan o'r paratoadau, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau ble mae ysgolion mewn clwstwr yn cael cyfle i gydweithio er mwyn cynllunio'n strategol i weithredu'r cwricwlwm. Adnabuwyd gweithgareddau i gefnogi'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol. Mae llawer o'r clystyrau hefyd wedi datblygu Cynllun Datblygu Clwstwr ar gyfer gweithredu'r daith ddiwygio.
- Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol a nodir uchod, mae cymorth penodol ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Gellir cael y cymorth hwn ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, gan gynnwys cymorth unigryw ble bydd angen.
- Mae adnoddau ategol yn cynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' a ddatblygwyd gan dîm GwE, yn rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol efo'r Athro Graham Donaldson. Rhannwyd a mireiniwyd y papurau hyn, sydd yn edrych ar agweddau allweddol ar daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, drwy ymgynghori â phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Gwahoddwyd yr holl uwch arweinwyr i weminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu'r gwaith hwn ar y 'Papurau Procio'.
- Mae'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru a sefydlwyd ar lefel ranbarthol a lleol yn agwedd allweddol ar y cynnig cymorth. Mae ymarferwyr mewn ysgolion a phartneriaid ehangach ar draws y rhanbarth yn cydweithio â rhwydwaith o gymheiriaid yn cefnogi datblygiad y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh), asesu a dylunio'r cwricwlwm. Bydd ymarferwyr yn cyfathrebu ac yn rhaeadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws ysgolion ym mhob awdurdod lleol, ac yn cyfrannu at ddatblygu modelau cynllunio a dylunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf. Bydd grŵp strategol rhanbarthol, yn cynnwys cynrychiolwyr traws sector o'r wyth grŵp ALl, yn darparu cyfeiriad a throsolwg o'r gwaith. Mae gan rwydweithiau fynediad i Ddysgu Proffesiynol a byddant yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALl yng Ngogledd Cymru. Yn ystod Tymor yr Hydref 2021, cynhaliwyd pedwar cyfarfod rhwydwaith rhanbarthol a mwy na 80 o gyfarfodydd lleol gyda 272 o ysgolion ac ymhell dros 700 o ymarferwyr. Caiff yr holl adnoddau a gynhyrchir eu rhannu â phob ysgol drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a rhennir gwybodaeth â phob grŵp clwstwr cynradd/uwchradd.
- Mae GwE hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi wrth baratoi at y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach datblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I'r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.
- Mae gan ysgolion fynediad at gyfres o gerrig milltir o fewn system rheoli gwybodaeth y rhanbarth sydd yn rhoi modd iddynt fyfyrio ar eu cynnydd ar hyd y daith ddiwygio. Croesawyd y cerrig milltir hyn yn fawr gan ysgolion.
- Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i fod yn fan cyfeirio i bob lleoliad, ac rydym wrthi'n gweithio ar wella a chyfoethogi'r casgliad o adnoddau ymhellach. Hyd yma, cafwyd mwy nag 75,000 ymweliad â'r wefan.
- Mae GwE hefyd yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid ehangach i ddatblygu fframwaith o ddangosyddion ansoddol a fydd yn rhoi modd i ysgolion feddwl a gwerthuso sut maent yn gweithredu

pedwar diben y cwricwlwm newydd.

GwE

Collaborating · Learning · Succeeding

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**16 CHWEFROR 2022**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | Adolygu strwythur y Tîm Busnes |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor am y bwriad i ail-strwythuro Tîm Busnes GwE

**2.0 Cefndir**

2.1 Ymadawiad y Rheolwr Busnes

2.2 Newidiadau i ddulliau gweithio yn gyffredinol ac yn enwedig yn sgil pandemig Covid.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae angen sicrhau rheolaeth fusnes safonol ym meysydd cyllid, gwybodaeth / data, adnoddau dynol, cyfathrebu, iechyd & diogelwch, asedau

3.2 Mae angen i'r gefnogaeth fusnes adlewyrchu newidiadau sylweddol yn nulliau gweithio, i gynnwys arbenigedd ym meysydd cyfathrebu a rheoli prosiect

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi caniatâd i'r gwasanaeth symud ymlaen gyda'r newidiadau i sicrhau cynhwysedd priodol.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd unrhyw gostau ychwanegol o ran swyddi unigol yn dod o gostau swyddi gwag o fewn y gwasanaeth fusnes.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Bydd GwE yn dilyn trefn yr Awdurdod Lletyol wrth ail-strwythuro'r gwasanaeth.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE a staff y Tîm Busnes.

**9.0 Amserlen**

9.1 Gweithredol yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae cymeradwyo strwythur staffio GwE yn fater sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Cydbwyllgor.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

"Nodaf y bwriad i adolygu strwythur y Tîm Busnes. Nid oes gennyf wrthwynebiad i hynny, a bydd unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r adolygiad yn derbyn sylw gennyf yn unol â'r drefn arferol. Byddaf yn cydweithio gyda Reolwr Gyfarwyddwr GwE i weithredu'r addasiadau, yn unol â'r phrosesau yr Awdurdod Lletyol."

GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR 16/02/2022**

**Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Testun:** **Cyflawni'r Daith i Weithredu'r Cwricwlwm - cymorth i ysgolion**

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am y cymorth sydd ar gael i ysgolion dros y ddau dymor nesaf i'w galluogi i weithredu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd.

## 2.0 Cefndir

I ysgolion cynradd, bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn dechrau ym mis Medi 2022. Gall ysgolion uwchradd ddewis cyflwyno'r cwricwlwm i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2022, ond ni fydd hyn yn orfodol tan 2023, pan fydd disgwyl i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno i Flynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd. Erbyn 1 Medi 2022, bydd angen i bob ysgol gynradd a phob ysgol uwchradd sydd wedi dewis gweithredu'r cwricwlwm newydd fod wedi dylunio eu cwricwlwm a'i fabwysiadu, a chyhoeddi crynodeb bras a lefel uchel ohono. O 1 Medi 2022 ymlaen rhaid i bob ysgol gynradd a phob ysgol uwchradd sydd wedi dewis dechrau gweithredu sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei weithredu.

Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn barod ar gyfer addysgu am y tro cyntaf ym mis Medi, dylai pob ysgol fod wedi:

- cwblhau dylunio cwricwlwm lefel uchel i fodloni gofynion statudol
- datblygu dealltwriaeth a rennir o'r hyn sydd yn bwysig o ran cynnydd mewn sgiliau a gwybodaeth
- datblygu dealltwriaeth gyffredin ysgol gyfan o gynnydd ac asesu
- cwblhau enghreifftiau o gynllunio er mwyn treialu, gan gynnwys asesu dysgwyr
- adnabod cyfleoedd cynyddol ar gyfer dialog proffesiynol ar draws y continwwm 3-16

Er mwyn galluogi ysgolion i fodloni disgwyliadau, bydd cynnig GwE dros y ddau dymor nesaf yn cynnwys cefnogi pob ysgol i ddatblygu:

i. dylunio cwricwlwm ysgol gyfan a datganiad cwricwlwm lefel uchel
ii. cynllunio MDaPh effeithiol
iii. polisi ac arferion asesu ysgol gyfan

Fel gwaith paratoi ar gyfer y cynnig dysgu proffesiynol, mae staff GwE wedi datblygu arweiniad a modelau enghreifftiol ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgol gyfan, cynllunio cwricwlwm ac asesu er mwyn helpu arweinwyr ac athrawon wrth iddynt baratoi at weithredu'r cwricwlwm. Mae'r adnoddau, y modelau a'r deunyddiau enghreifftiol wedi'u cymeradwyo yn llawn gan yr Athro Graham Donaldson.

Bydd y Rhwydweithiau Cwricwlwm Rhanbarthol a Lleol yn defnyddio'r canllawiau a'r adnoddau wrth iddynt barhau i hyrwyddo ac annog gweithio mewn partneriaeth ar draws y system. Bydd hyn yn fodd i ysgolion gael mynediad i lyfrgell gyfoethog o adnoddau a chymorth wrth iddynt fynd ati i ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm lleol ac unigryw eu hunain. Bydd mewnbwn parhaus gan staff GwE yn sail i waith y rhwydweithiau, gan sicrhau, felly, bod hyn yn fenter wirioneddol gydweithredol.

Cynhelir y gyfres gychwynnol o weithdai yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, i gefnogi ysgolion drwy'r broses o ddylunio cwricwlwm. Ffocws y gweithdai fydd creu datganiad cwricwlwm lefel uchel, gyda'r sail resymegol yn seiliedig ar gyd-destun lleol. Bydd adnodd gweledol yn arwain arweinwyr ysgolion drwy'r broses o:

- adnabod ffactorau unigryw yr ysgol
- datblygu gweledigaeth a rennir trwy adnabod egwyddorion ac ymddygiadau'r ysgol
- amlinellu sut mae Dysgu ac Addysgu yn edrych yn yr ysgol
- ystyried yr agweddau allweddol ar y dylunio

Bydd y gweithdai yn tywys arweinwyr ysgolion trwy wahanol fodelau dylunio ac yn darparu enghreifftiau amrywiol o ddatganiadau cwricwlwm. Bydd y rhwydweithiau dylunio cwricwlwm rhanbarthol a lleol yn datblygu'r modelau hyn ymhellach, gan ddarparu amrywiaeth eang o enghreifftiau i ysgolion eu hystyried wrth iddynt fynd ati i ddylunio cwricwlwm a llunio datganiad.

Unwaith bydd sail resymegol a datganiad ysgol mewn lle, bydd yr ysgol yn gallu dechrau ar y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm newydd.

Pan fydd y gweithdai dylunio cwricwlwm wedi'u cynnal, gall ymarferwyr ar draws y rhanbarth gael mynediad i ddysgu proffesiynol ar gynllunio MDaPh effeithiol. Bydd y sesiynau hyn yn paratoi arweinwyr ac athrawon at addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf ym mis Medi. Bydd y cynnig yn parhau trwy gydol 2022/23, gan ddatblygu ar y dysgu a ddaw i'r amlwg o'r addysgu am y tro cyntaf.

Bydd y gweithdai yn rhoi trosolwg o egwyddorion cynllunio cyn gweithio trwy fodelau cynllunio amrywiol. Bydd y gweithdai yn edrych ar:

- Ddatganiadau seiliedig ar ymholi neu gwestiynau fel sail i'r cynllunio
- Ystyriaethau cynllunio i'r athro
- Syniadau am weithgareddau
- Camau cynnydd ac ystyriaethau asesu
- Modelau cynllunio gwahanol, hynny yw, modelau disgyblaethol, amlddisgyblaethol, rhyngddisgyblaethol, integredig

Lluniwyd enghreifftiau amrywiol o fodelau cynllunio ar gyfer pob sector a phob un o'r chwe MDaPh. Bydd y modelau hyn yn cael eu rhannu ag ysgolion a'u defnyddio gan y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fel sail i sicrhau bod modelau ychwanegol yn cael eu creu. Bydd hyn yn creu capasiti pellach yn y system.

Y trydydd maes cymorth a ddarperir dros y ddau dymor nesaf yw polisi ac arferion asesu ysgol gyfan. Mae cynnydd dysgwyr yn agwedd allweddol sydd yn gyffredin i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm newydd. Cynhelir cyfres o weithdai i roi trosolwg i ysgolion o'r canllawiau cenedlaethol ac edrych ar egwyddorion asesu a chynnydd dysgwyr. Fel rhan o'r sesiynau hyn, caiff ysgolion fynediad i fodelau ac enghreifftiau o asesu, gan gynnwys system olrhain cynnydd wedi'i dylunio a'i chreu gan staff GwE. Unwaith eto bydd y Rhwydwaith Asesu Rhanbarthol a Lleol yn datblygu'r gwaith hwn ac yn cynnig llawer o bwyntiau cyfeirio i ysgolion eu harchwilio wrth ystyried polisïau ac arferion asesu.

Darperir matrics cymorth GwE i bob ysgol, yn manylu ynghylch y cynnig dysgu proffesiynol sydd ar gael i'w cefnogi i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei wireddu yn eu hysgolion. Gall ysgolion

ddewis pa feysydd cymorth sydd yn briodol iddynt, a chael mynediad i amrywiaeth eang o adnoddau, modelau ac enghreifftiau.

Mae'r matrics yn nodi a yw'r cymorth ar lefel ranbarthol, ALl, clwstwr neu ysgol yn ogystal â nodi ai gweithdy neu adnodd digidol ydyw.

Bydd GwE yn parhau i hwyluso rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar lefel ranbarthol a lleol. Mae'r rhwydweithiau yn ymsefydlu bellach, gyda llawer o enghreifftiau o waith cydweithredol effeithiol. Mae'r Athro Graham Donaldson yn cynnig cyfeiriad a chyngor i'r grŵp rhanbarthol. Trwy'r rhwydweithiau, caiff ymarferwyr:

- gyfleoedd i rwydweithio gyda chyd-weithwyr ysgolion yn lleol ac yn rhanbarthol
- dyfnhau dealltwriaeth o broses dylunio'r cwricwlwm
- cyfleoedd i gyd-lunio a rhannu enghreifftiau o gynllunio'r cwricwlwm yn lleol
- datblygu a rhannu enghreifftiau o asesu o fewn Cwricwlwm i Gymru

Mae'r holl ddeunyddiau a recordiad o'r cyfarfodydd rhanbarthol ar gael i bob ysgol ar Canolfan Cefnogaeth GwE, ynghyd ag adnoddau ac enghreifftiau o'r gwaith dylunio a chynllunio.

Ar ben hyn, bydd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt ar gael i gynnig cymorth unigryw ar lefel ysgol a chlwstwr/cynghrair.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Bydd GwE yn sensitif a hyblyg wrth gyflwyno ei gynnig Dysgu Proffesiynol i ysgolion wrth ystyried yr heriau sydd yn wynebu ysgolion unigol yn sgil pandemig COVID.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r gweithgareddau arfaethedig fel yr amlinellir uchod.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

"Nodaf fod rhan 5 o'r adroddiad blaen yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol. Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR 16/02/2022**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Testun:** **Llythyr i'r Gweinidog Addysg (12.01.22) ynghylch cyfres gymwysterau 2021-22 a'i ymateb (31.01.22)**

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Darparu cofnod ffurfiol i'r Cyd-bwyllgor yng nghyswllt y llythyr a anfonwyd at y Gweinidog Addysg ar 12.01.22, ar ran y Cyd-bwyllgor, ynghylch cyfres gymwysterau eleni.

**2.0 Cefndir**

2.1. Roedd y llythyr yn grynodeb o'r cyfathrebu rhwng Cyd-bwyllgor GwE a Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd, yn mynegi pryderon am degwch y trefniadau a wnaed gan Cymwysterau Cymru o 2018 hyd 2021.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1. Mae'r llythyr yn crynhoi pryderon difrifol y Cyd-bwyllgor am les dysgwyr eleni a'r tegwch iddynt, ac yn pwysleisio pwysigrwydd osgoi'r hyn a ddigwyddodd mewn blynyddoedd a fu. Mae'n anodd gweld sut gall cymwysterau drwy arholiad fod yn gyfiawn ac yn deg i'n hysgolion a'u disgyblion oherwydd y tarfu a fu yn sgil COVID.

**4.0 Argymhellion**

4.1. Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi'n ffurfiol gynnwys y llythyr ac ystyried a oes angen unrhyw ohebiaeth bellach â'r Gweinidog Addysg ar hyn o bryd yn dilyn ei ymateb.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE, y Cyd-bwyllgor a Phenaethiaid uwchradd

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Llythyr i Weinidog y Gymraeg ac Addysg dyddiedig 12.01.22

Atodiad 2 – Llythyr y Gweinidog mewn ymateb dyddiedig 31.01.22

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

“Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY
0300 500 8087
post@gwegogledd.cymru

GwE
Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

www.gwegogledd.cymru
@GwEGogleddCymru
GwE Gogledd Cymru

12/01/2022

Annwyl Weinidog

A chithau'n Weinidog y Gymraeg ac Addysg newydd, teimlwyd y byddai'n berthnasol rhannu crynodeb â chi o'r ohebiaeth a fu rhwng Cyd-bwyllgor GwE, sydd yn cynnwys y chwe deilydd portffolio addysg ar draws Gogledd Cymru, a Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd, yn mynegi ein pryderon am degwch y trefniadau a wnaed gan Cymwysterau Cymru o 2018 hyd 2021. Drwy rannu'r crynodeb hwn, gallai fod yn ddefnyddiol fel sylfaen ychwanegol wrth benderfynu ar y gyfres arholiadau eleni.

Daeth ein rhwystredigaeth gwreiddiol gyda Cymwysterau Cymru i'r amlwg gyntaf yn 2018 pan oedd dysgwyr a safodd yr arholiad TGAU Saesneg Iaith yn yr Haf dan anfantais o'u cymharu â dysgwyr a safodd yr arholiad yn gynnar ym mis Tachwedd 2017, gyda throthwy llwyddo gradd C yn cael ei godi'n sylweddol erbyn dyfarniad yr Haf. Daeth ysgolion yng Ngogledd Cymru i'r casgliad ar y pryd mai unig resymeg yr ymddygiad hwn oedd yr angen i ddiogelu'r brand TGAU, gan fod dyraniad graddau C wedi cyrraedd yr uchafswm am y flwyddyn academaidd neilltuol honno er sicrhau deilliannau cymaradwy â blynyddoedd blaenorol. O ganlyniad, methodd lawer o ddysgwyr yng Ngogledd Cymru, yn enwedig y rhai llai abl a bregus, â dilyn eu dewis o yrfa neu lwybr dysgu. Cyfaddefodd Cymwysterau Cymru ar y pryd 'nad yw'r gwahaniaethau a'r newidiadau sylweddol yn strategaethau mynediad canolfannau dros y blynyddoedd diwethaf yn rhoi chwarae teg i fyfyrwyr.'

Fe'n syfrdanwyd ymhellach yn Haf 2020 wrth i'r algorithmau gan Cymwysterau Cymru achosi

*Dear Minister*

*As the new Minister for Education and the Welsh Language we felt it might be pertinent to share with you a summary of communication between the GwE Joint Committee which includes the six education portfolio holders across North Wales and Kirsty Williams the then Minister of Education expressing our concerns regarding the fairness of arrangements made by Qualifications Wales from 2018 to 2021. By sharing this summary, it might prove useful to you in further informing the decision-making process around this year's qualification series.*

*Our initial frustrations with Qualifications Wales first became apparent in 2018 when learners sitting the English Language GCSE examination in the summer, lost out compared to learners who had sat the examination early during November 2017, with the C grade pass threshold being raised significantly for the summer award. Schools in North Wales concluded at the time that the only logical rationale behind this outcome was the need to protect the GCSE brand as the allocation of C grades had reached its quota for that particular academic year group to ensure broadly comparable outcomes with previous years. As a result, many learners in North Wales especially the less able and vulnerable could not follow their chosen career or educational pathway. Qualifications Wales admitted at the time 'that the significant differences and changes in centre entry strategies over recent years do not promote a level playing field for students.'*

*We were further alarmed in the Summer of 2020 that the algorithms proposed by*

cymaint o anghyfartaledd ac annhegwch i gynifer o ddisgyblion a myfyrwyr yng Ngogledd Cymru. Pe na byddai'r Gweinidog Addysg wedi penderfynu i fynd yn ôl i Raddau Asesu Canolfannau, byddai llawer o ddysgwyr wedi colli cyfle i droedio llwybr gyrfa oherwydd bod y graddau anghywir wedi'u dyrannu iddynt drwy'r algorithm wedi'i fetio gan Cymwysterau Cymru.
Cyn y 'diwrnodau canlyniadau' y flwyddyn honno, nid oedd yr ohebiaeth gan Cymwysterau Cymru i'r gymuned addysg yn ddigon tryloyw nac eglur. O'r herwydd, bu ysgolion ac athrawon yn neilltuo cryn dipyn o amser ac ymdrech yn 'rancio' eu disgyblion, a hynny'n ofer wrth iddo ddod yn amlwg bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i diystyru mae'n debyg o blaid yr algorithm a ddewiswyd. Roeddem yn gwbl bendant y gellid yn hawdd fod wedi osgoi'r sefyllfa anffodus hon.

Ysgrifenasom lythyr hefyd at y Gweinidog Addysg ar y pryd yn mynegi ein pryderon dwysaf a'n rhwystredigaeth eithaf na wnaed y penderfyniad yn gynharach i symud at Raddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer Cyfres Arholiadau Haf 2021. Byddai hyn wedi osgoi'r gorbryder mawr a ddaeth yn amlwg ymysg arweinwyr, athrawon a dysgwyr.

Fel y gwyddoch, oherwydd y tarfu sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae llawer o ddysgwyr yn y blynyddoedd arholi presennol eisoes wedi colli cyfran sylweddol o'u hamser dysgu ac addysgu. Drwy adael i gyfres arholiadau Ionawr 2022 fynd yn ei blaen, rydym unwaith eto mewn perygl o waethygu'r anghydraddoldeb a'r annhegwch i ddysgwyr. Rydym yn arbennig o bryderus am yr effaith a gaiff hyn ar ddysgwyr mwy bregus a difreintiedig. Yn sgil ein profiadau dros y blynyddoedd diwethaf, erys lefel uchel o bryder yn y rhanbarth am allu Cymwysterau Cymru i sicrhau tegwch i ddysgwyr yn ystod y drefn arholi arfaethedig eleni.

*Qualifications Wales caused such inequity and unfairness to so many pupils and students in North Wales. Many learners would have lost out on career pathways because the wrong grades were apportioned to them through Qualification Wales' vetted algorithm, had the decision not been taken by the Minister of Education to revert to Centre Assessed Grades.*
*In the run up to that year's 'results days', communication with the education community by Qualifications Wales lacked transparency and clarity. As a result, a significant amount of time and effort was allocated by schools and teachers to rank their pupils and all to no avail as it became evident that the requested information was apparently disregarded in favour of the choice of algorithm. We were absolutely adamant that this unfortunate situation could have easily been avoided.*

*We also wrote to the then Minister of Education to express our deepest concerns and utmost frustration that a decision to move to award Centre Determined Grades for the Summer 2021 Examination Series was not made earlier. This would have avoided the high level of anxiety which became apparent amongst leaders, teachers and learners.*

*As you well know, due to the significant disruptions over the last two years, many learners in the current exam years have already missed out on a significant portion of their learning and teaching time. By allowing the January 2022 exam series to proceed, we are again at risk of exacerbating the issues of inequity and unfairness for learners. We are particularly concerned about the impact that this will have on the more vulnerable and disadvantaged learners. Given our experiences over the last few years, there remains a high level of concern in the region that Qualifications Wales can secure equity for learners during this year's proposed examination arrangements.*

Seilir tegwch unrhyw gyfundrefn gymwysterau ar sicrhau mynediad cyfartal at amser dysgu ac addysgu i bob dysgwr. Byddem ni'n falch o gael eglurhad ynghylch pa asesiadau risg sydd ar waith o ran sicrhau tegwch a chydraddoldeb mynediad i bob dysgwr, yn enwedig y rheiny sydd eisoes wedi colli cryn dipyn o amser dysgu ac addysgu o gymharu â'u cyfoedion ac a allai golli mwy o amser dros yr wythnosau nesaf. Rydym yn arbennig o awyddus i ddeall y camau lliniaru sydd ar waith i roi sylw i'r materion hyn. Rydym ni'n hynod o bryderus am sut allai anghydraddoldeb effeithio ar ddysgwyr, yn enwedig y rhai mwyaf bregus a llai abl y gwyddom sydd wedi dioddef fwyaf dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gwyddom hefyd nad yw'n hawdd gwneud iawn am unrhyw ddysgu a gollir, os ellir gwneud hynny o gwbl.

*The fairness of any qualifications system is predicated on ensuring equal access to learning and teaching time for all learners. We would welcome clarification around what risk assessments have been put in place in terms of ensuring equity and equality of access to all learners especially those who have already lost significant teaching and learning time compared to their peers and may still lose more time in the coming weeks. We are particularly keen to understand the mitigation measures in place to address these issues. We are particularly concerned about potential impact of inequality for learners especially the most vulnerable and less able who we know have suffered most in the last two years. We also know that lost learning is not easily made up if at all.*

I grynhoi, rydym yn wirioneddol bryderus am les ein dysgwyr a'r tegwch iddynt. Rydym eisiau osgoi yr hyn a ddigwyddodd mewn blynyddoedd a fu ac yn ei chael hi'n anodd gweld sut all cymwysterau drwy arholiad fod yn gyfiawn ac yn deg i'n hysgolion a'n disgyblion oherwydd yr amrywiolyn Omricon ac amrywiolion eraill allai ymddangos. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb i'n pryderon.

*To summarise, we are seriously concerned about the wellbeing and fairness for our learners. We want to avoid what has happened in previous years and find it difficult to see how qualifications by examination can be equitable and fair for our schools and pupils due to the present Omicron and possible future variants. We look forward to receiving your response to our concerns.*

Yn gywir,

Cyngh. Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam)
Cyngh. Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy)
Cyngh. Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint)
Cyngh. Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyngh. Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)
Cyngh. Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych)

*Yours sincerely,*

*Cllr. Phil Wynn (Wrexham County Borough Council)*
*Cllr. Julie Fallon (Conwy County Borough Council)*
*Cllr. Ian Roberts (Flintshire County Council)*
*Cllr. Cemlyn Williams (Gwynedd Council)*
*Cllr. Meirion Jones (Isle of Anglesey County Council)*
*Cllr. Huw Hilditch-Roberts (Denbighshire County Council)*

Copi i / *Copy to:*

- Owain Lloyd Cyfarwyddwr Addysg a'r Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cymru / *Director of Education and the Welsh Language, Welsh Government*

- Georgina Haarhoff Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru / *Deputy Director Curriculum, Welsh Government*

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/00102/22

Arwyn Thomas
Rheolwr Gyfarwyddwr
GwE

ArwynThomas@gwegogledd.cymru

31 Ionawr 2022

Annwyl Gyd-bwyllgor GwE,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Ionawr yn crynhoi eich gohebiaeth flaenorol ynghylch y mater hwn ac yn mynegi eich pryderon ynghylch tegwch a chydraddoldeb mewn perthynas ag arholiadau.

Rwy’n cydnabod bod dysgwyr, a’r sector addysg cyfan, yn parhau i wynebu heriau sylweddol a tharfu pellach ar addysgu a dysgu y tymor hwn.

Fel y gwyddoch, mae’r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn cael ei monitro’n glos. Rwy’n cael gwybodaeth reolaidd am ganlyniadau’r adolygiadau diweddaraf ar ddata presenoldeb. Rydw i hefyd wedi gofyn i fy swyddogion barhau i fonitro a dadansoddi’r data er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effaith yr absenoldebau hyn, yn enwedig ar garfanau blynyddoedd arholiadau a sut y gellid lliniaru’r rhain. Mae’r data wythnosol mwyaf diweddar ar bresenoldeb yn dangos cynnydd yn y niferoedd sydd wedi bod yn bresennol a gostyngiad yn yr absenoldebau sy’n gysylltiedig â Covid. Mae’r rhain yn arwyddion calonogol a gobeithiaf y byddant yn parhau.

Rydw i o’r farn mai asesu drwy arholiadau yw'r dull tecaf i bob dysgwr yn gyffredinol ac roeddwn yn falch o weld y canlyniadau cadarnhaol diweddar o gyfres arholiadau mis Tachwedd. Gan eu bod wedi cael eu cynnal tua diwedd y flwyddyn, mae’r dysgwyr wedi elwa ar gyfnod hirach ar gyfer addysgu a dysgu. Fodd bynnag, rwy’n llwyr gydnabod yr holl darfu sydd wedi wynebu dysgwyr dros y 18 mis diwethaf ac rwy'n deall y pryder a'r gofid y mae rhai’n ei deimlo wrth feddwl am sefyll arholiadau ffurfiol am y tro cyntaf yr haf nesaf. Wrth gadarnhau'r penderfyniad i asesu dysgwyr drwy arholiadau yn 2022, ystyriwyd ystod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eang o ffactorau ac mae'r dystiolaeth o effaith defnyddio arholiadau neu raddau a bennwyd gan ganolfannau wedi'i hasesu a'i gwerthuso.

Fel y gwyddoch, addaswyd manylebau pynciau i leihau’r cynnwys i’w asesu er mwyn adlewyrchu’r tarfu ar addysgu a dysgu. Mae CBAC wedi parhau i fonitro'r tarfu ar ysgolion a cholegau, gan wneud diwygiadau pellach fel llacio amodau asesiadau nad ydynt yn arholiadau, a chyhoeddi ychydig cyn y Nadolig y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu ymlaen llaw mewn amrywiaeth o bynciau ychwanegol. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r camau hyn helpu i leihau swmp y cynnwys y mae angen i athrawon a darlithwyr ei addysgu cyn yr arholiadau a dylent helpu dysgwyr i ganolbwyntio wrth baratoi.

Er eu bod yn angenrheidiol, daeth y graddau a bennwyd gan ganolfannau y llynedd â’u hannhegwch eu hunain yn eu sgil ac nid ydynt yn cynnig ateb perffaith i'r tarfu sy’n digwydd ar hyn o bryd – oni bai bod sefyllfa iechyd y cyhoedd yn golygu bod rhaid inni weithredu trefniadau wrth gefn. Teimlaf mai'r ffordd ymlaen yw cefnogi'r dysgwyr hyn â'r cymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt i symud ymlaen i'w pennod nesaf.

Mae rhan o'r cyllid ychwanegol ar gyfer blynyddoedd arholiadau a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 yn canolbwyntio ar gefnogi ein dysgwyr mwyaf difreintiedig i ennill eu cymwysterau. Dyrannwyd £7.5 miliwn i ysgolion i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder, yn enwedig mewn cymwysterau craidd fel Mathemateg a Saesneg yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n teimlo'n bryderus am arholiadau. Caiff ei bwysoli tuag at ysgolion sydd â mwy o ddysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau y gall y disgyblion difreintiedig hynny gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd gan ysgolion hyblygrwydd eang o ran sut y defnyddir hyn, er mwyn ystyried eu hamgylchiadau lleol ac anghenion eu dysgwyr. Y bwriad yw y bydd yn darparu addysgu a dysgu ychwanegol, gan gynnwys drwy diwtora, ynghyd â chymorth ac adnoddau i adolygu.

Bydd dros £7 miliwn hefyd yn mynd tuag at gefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn absennol yn amlach yn ystod y pandemig. Ariennir swyddog presenoldeb ym mhob awdurdod lleol i ail-ymgysylltu â'r dysgwyr hyn a'u helpu i ddod o hyd i’r trywydd iawn ar gyfer eu dyfodol.

Bydd £9.5 miliwn arall yn ariannu cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion, Addysg Bellach a Chweched Dosbarth i bontio i gam nesaf eu haddysg neu eu gyrfa. Bydd hyn yn sicrhau bod pob dysgwr blwyddyn 11, 12 a 13 a dysgwyr cyfatebol mewn colegau yn cael cyfle i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae cyllid yn cael ei ddarparu i roi mynediad at adnoddau a darparu cefnogaeth bersonol o ran ysgrifennu ceisiadau a chael cymorth dysgu wrth bontio i Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, rhaid i'r dull gweithredu ar gyfer 2022 sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion dysgwyr sy'n ennill cymwysterau yn 2022 a thegwch i ddysgwyr a oedd yn ennill cymwysterau cyn y pandemig ac a fydd yn ennill cymwysterau yn y dyfodol. Mae’n bwysig na ddylai dysgwyr o Gymru fod o dan anfantais o ran eu camau nesaf, yn enwedig o ran cael lle mewn prifysgol.

Deallaf y cynhelir cyfarfod pellach o'r Grŵp Rhanddeiliaid Dysgu a Dilyniant yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd hwn yn gyfle da i rannu unrhyw syniadau eraill ar gyfer sut y gallwn gefnogi'r dysgwyr hyn drwy'r arholiadau a rhoi'r hyder sydd ei angen i ddysgwyr, staff a rhieni deimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u paratoi wrth gychwyn ar y cyfnod asesu. Rydw i hefyd yn ymwybodol bod CLlLC yn dymuno trefnu cyfarfod i ni, gan gynnwys Cymwysterau Cymru a CBAC, a fydd yn rhoi cyfle i drafod hyn ymhellach.

Ein cyfrifoldeb ar y cyd fel sector addysg yw cefnogi ein dysgwyr yn y ffordd orau bosibl a chaniatáu iddynt symud ymlaen i'r bennod nesaf yn eu bywydau, boed hynny'n golygu addysg, hyfforddiant neu fyd gwaith.

Rydw i'n sylweddoli ei fod yn parhau i fod yn gyfnod heriol i ysgolion a cholegau a byddaf yn sicrhau bod y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd ac amharu ar addysgu a dysgu yn cael ei hadolygu'n gyson. Gallaf eich sicrhau fy mod yn arbennig o ymwybodol o unrhyw faterion sy'n effeithio ar les dysgwyr.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Ein cyf/Our ref JMEWL/00102/22

Arwyn Thomas
Managing Director
GWE

ArwynThomas@gwegogledd.cymru

31 January 2022

Dear GwE Joint Committee,

Thank you for your letter of 12 January summarising your previous communications on this issue and raising your concern as to the equity and fairness of exams.

I recognise that learners, and the education sector as a whole, are currently still facing significant challenges and further disruption to teaching and learning this term.

As you will be aware, the public health situation is being monitored closely and I am being kept informed of the findings from the latest attendance data review. I have also asked my officials to continue to closely monitor and analyse the data to better understand the impact of these absences, particularly on the examination cohorts and how these might be mitigated. The latest weekly absence data shows a rise in attendance and a reduction in Covid related absences which are encouraging signs that I hope to see continue.

I believe assessment through exams is generally the fairest method for all learners and was pleased to see the recent positive results from the November exam series, being held towards the end of the year they also maximise the time available for teaching and learning. However, I fully recognise the disruption that learners have faced over the last 18 months and I understand the concern and anxiety some feel at the prospect of sitting formal exams for the first time next summer. In confirming the decision to assess learners via exams in 2022, a wide range of factors have been taken into account and the evidence of the impact of using exams or centre determined grades (CDGs) has been assessed and evaluated.

As you will be aware adaptations have been made to subject specifications to reduce assessment content to reflect disruption to teaching and learning. WJEC has continued to monitor the disruption in schools and colleges, making further amendments such as relaxing non-examination assessment conditions and just before Christmas announcing that advance information would be provided in a range of additional subjects. Together, these are intended to help reduce the amount of content that teachers and lecturers need to cover ahead of the exams and should help learners to focus in their preparations.

The centre determined grades of the previous year, although necessary, came with their own inequities and are not a panacea to the current disruption – unless the public health situation is such that we must enact contingency arrangements. I feel that the way forward is to support these learners with the additional support they need to progress to their next chapter.

Part of the additional funding for exam years announced in December 2021 is focused on supporting our most disadvantaged learners to achieve their qualifications. £7.5m has been allocated to schools to support learners to develop their skills, knowledge and confidence, particularly in core qualifications such as Maths and English as well as supporting those who feel anxious about exams. It will be weighted towards schools with a greater number of learners eligible for free school meals to ensure those disadvantage pupils are able to access the support they need. Schools will have broad flexibility in how this is used, to take account of their local circumstances and need of their learners, the intention is that it will provide for additional teaching and learning, including through tutoring, and revision support and resources.

Over £7m will also go towards supporting learners whose attendance has dropped during the pandemic. An attendance officer will be funded in each local authority to re-engage these learners and to help them find the right path for their future.

A further £9.5m will fund support for school, FE and Sixth Form learners with the transition to the next stage of their education or career. This will ensure that all year 11, 12 and 13 and equivalent college learners are given the opportunity to consider the full suite of options available to them, funding is being provided to access resources and provide personalised support in terms of applications and learning support as they transition to both FE and HE.

As you will appreciate, the approach for 2022, must strike a balance between the needs of learners sitting qualifications in 2022 and fairness to learners who sat qualifications before the pandemic and who will sit qualifications in the future. Importantly, learners from Wales must not be disadvantaged in terms of their next steps, particularly university admission.

I understand that a further meeting of the Learning and Progression Stakeholder Group will be held in the coming weeks. This will be a good opportunity to share any other ideas for how we can support these learners through the exam series and give them the confidence needed for learners, staff and parents to feel supported and prepared going into the assessment period. I am also aware that the WLGA is looking to arrange a meeting for us, including Qualifications Wales and WJEC that will provide an opportunity to discuss this further.

It is our collective responsibility as an education sector to support our learners in the best way possible and allowing them to continue onto the next chapter in their life be that education, training or work.

I recognise that it continues to be a challenging period for schools and colleges and will ensure that the public health situation and disruption to teaching and learning is kept under review. Please be assured that I am particularly aware of impacts on learner wellbeing.

Yours sincerely,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**16 CHWEFROR 2022**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Cytundeb rhannu gwybodaeth am ddisgyblion y rhanbarth.

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-Bwyllgor ynglŷn a'r gytundeb rhannu gwybodaeth am disgyblion sy'n bodoli rhwng yr Awdurdodau Lleol a GwE.

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae cytundeb rhannu gwybodaeth am ddisgyblion a pherfformiad disgyblion rhwng yr Awdurdodau a GwE wedi bodoli ers i GwE gael ei sefydlu.

2.2 Mae'r cytundeb presennol wedi ei gymeradwyo gan swyddogion yr Awdurdodau yn nhymor yr Hydref 2021 gyda'r adolygiad nesaf i'w gynnal yn 2023.

2.3 Mae GwE yn defnyddio'r data i gael y trosolwg hanfodol am berfformiad a nodweddion disgyblion ein hysgolion, awdurdodau ac y rhanbarth er mwyn sicrhau bod y data yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i ofyn ac ateb cwestiynau i'n cynorthwyo i wella ansawdd. Ac hefyd i sicrhau cysondeb dadansoddiadau ar draws y chwe awdurdod.

2.4 Fel rhan o'r gytundeb nid yw GwE yn rhyddhau data personol am ddisgyblion y rhanbarth, dim ond yn prosesu'r wybodaeth i gael y trosolwg. Mi fydd unrhyw geisiadau gwybodaeth am ddata personol yn cael ei cyfeirio i'r Awdurdodau Lleol.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Er bod y cytundeb wedi ei chymeradwyo sawl gwaith yn y gorffennol rydym yn adolygu gofynion y cytundeb yn gyson ac os bydd angen ei diweddaru mi fydd y cytundeb yn cael ei ail gyflwyno i'r Awdurdodau Lleol i'w gymeradwyo.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ogystal a swyddogion gwarchod data yr Awdurdodau.

**9.0 Atodiadau**

**9.1** Atodiad 1 - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth (WASPI)

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Nodaf fod y cytundeb wedi derbyn mewnbwn arbenigol gan swyddogion gwarchod data yr awdurdodau ac wedi ei dderbyn a'i gymeradwyo gan swyddogion yr awdurdodau yn nhymor yr Hydref 2021.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

# Cytundeb Diogelu Data ar gyfer

## Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) ac Awdurdodau Gogledd Cymru a'u Hysgolion

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | [1.1] |
| Dyddiad Adolygu | [01/10/2023] |
| Dyddiad Rhyddhau | [01/10/2018] |
| Sicrhawyd yn fewnol ar | [23/10/2018] |

Bwriedir i Gytundebau Datgelu Data (DDA) gael eu defnyddio pan fydd data personol yn cael ei **ddatgelu** (hynny yw, ei basio un ffordd) o un Rheolydd Data i'r llall am reswm penodol. Ni fwriedir i DDAs gael eu defnyddio mewn achosion lle bydd y datgeliad o Reolydd Data i Brosesydd Data, ac nid ydynt yn disodli'r angen am gontractau priodol.

Dylid datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth (ISP) i ddogfennu arferion sy'n cynnwys **rhannu rheolaidd, cyfartal** (hynny yw, mae'r wybodaeth yn llifo yn ôl ac ymlaen rhwng sefydliadau) y wybodaeth bersonol rhwng Rheolyddion Data. Mae arweiniad a templedi ar wahân ar gael ar wefan WASPI i helpu â phrosesau datblygu ISP.

## Cynnwys


1 Cyflwyniad .... 2
2 Pwrpas y Datgeliad .... 2
3 Partneriaid y cytundeb hwn .... 2
4 Sail gyfreithiol .... 3
5 Data i'w Ddatgelu .... 3
6 Diogelwch Gwybodaeth .... 4
7 Manylion y datgeliad .... 4
8 Hawliau Testunau'r Data .... 5
9 Adolygu .... 6
10 Llofnod y Cytundeb .... 7
11 Atodiad A – Geirfa Termau .... 9
12 Atodiad B – Cofrestr Asedau .... 11

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth yma yn ymwneud efo datgelu manylion personol disgyblion sydd yn rhan o gasgliadau statudol yr ysgolion, yn rhan o systemau rheoli gwybodaeth yr Awdurdod Lleol ac yr Ysgolion ac o systemau data addysgol eraill (ee FFT, INCERTS)

1.2 Lluniwyd y Cytundeb Diogelu Data hwn yn unol â'r egwyddorion sy'n gynwysedig yng Nghytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI).

1.3 Bwriad y DDA hwn yw helpu sefydliadau partner i ddeall pa ddata y gellir ei ddatgelu at y diben(ion) a nodir. Hefyd, mae'n rhoi sicrwydd bod y partneriaid wedi ystyried gofynion deddfwriaeth diogelu data.

## 2 Pwrpas y Datgeliad

2.1 Rhennir data personol at ddibenion

- Ymchwilio, datblygu a mewnoli'r arferion gorau i hysbysu'r cyngor a chefnogaeth a roddir gan y wasanaethau mewn ffordd ragweithiol
- Ymarferwyr yn medru seilio eu dadansoddiad ar wybodaeth a gasglwyd o set gynhwysfawr o ddata perfformiad a fydd yn rhoi golwg mwy holistaidd a chyd-destun y deilliannau perfformiad.
- Sicrhau bod pob awdurdod wedi alinio i ddefnyddio set ddata gyffredin a fydd yn eu galluogi i ddehongli'r data mewn ffordd gyson wrth gyd ddarparu gwasanaethau a chydweithio
- Gwneud defnydd effeithiol o systemau rheoli gwybodaeth i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer disgyblion ac ysgolion
- Herio'n gadarn y targedau y mae ysgolion yn eu gosod i ddisgyblion
- Targedu meysydd allweddol sy'n effeithio ar berfformiad a gwendidau penodol
- Cefnogi ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol, a darparu gwell gwybodaeth fel sail i benderfyniadau
- Monitro'n barhaus berfformiad grwpiau penodol a gafodd eu hadnabod gan ymarferwyr, gan adnabod newidiadau'n gynnar er mwyn ymyrryd/cefnogi.

## 3 Partneriaid y cytundeb hwn

3.1 Datgelir y data gan –

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir Ynys Môn

ar gyfer **Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE)**

3.2 Dylai partneriaid y cytundeb hwn ddefnyddio'r data personol a ddatgelir iddynt dan y cytundeb hwn ar gyfer y diben(ion) penodol a nodir yn y ddogfen hon yn unig. Ni fydd

y data'n cael ei gyfnewid na'i drosglwyddo rhwng unrhyw feysydd amherthnasol yn y sefydliad sy'n derbyn nac unrhyw drydydd parti heb i'r partner sy'n datgelu'r wybodaeth gymeradwyo hynny o flaen llaw.

3.3 Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, bydd sefydliadau partner yn sicrhau bod testun y data'n cael gwybod sut defnyddir eu data personol.

3.4 Bydd y sefydliadau partner yn monitro ac yn adolygu defnydd y DDA hwn i sicrhau bod y data'n cael ei ddatgelu mewn ffordd effeithiol a phriodol.

## 4 Sail gyfreithiol

4.1 At ddibenion y Cytundeb Diogelu Data, mae'r seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu fel a ganlyn:

| **PROSESU CYFFREDINOL**<br>(fel y diffinnir gan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol) |
|---|
| Erthygl 6(1)(e)- Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol i gyflawni tasg er lles y cyhoedd neu er mwyn arfer awdurdod swyddogol,(ee. Deddf Addysg 1996 gan gynnwys Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 a Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011) |
| Erthygl 9 (2)(j) - Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth, gan barchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a gosod mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau gwrthrych y data. |

| **PROSESU AT DDIBENION GORFODI'R GYFRAITH**<br>(prosesu gan awdurdodau cymwys fel y diffinnir gan Ddeddf Diogelu Data 2018) |
|---|
| Yn unol ag adran 35(2), DyG |
| Mewn achos o brosesu sensitif, DyG |

## 5 Data i'w Ddatgelu

5.1 Disgrifiwch gategorïau'r data personol i'w ddatgelu. Peidiwch â chynnwys data personol go iawn yn y cytundeb hwn:

Mae'r wybodaeth bersonol a rennir fel rhan o'r protocol hwn yn amrywiol ei natur ac yn cyd-fynd gyda casgliadau data cenedlaethol fel a amlinellir gan Llywodraeth Cymru. Gall gynnwys:

- Enw'r Myfyriwr
- Rhif unigryw'r disgybl
- Dyddiad geni'r disgybl
- Cod post y disgybl
- Hanes yn yr Ysgol
- Hanes Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Presenoldeb

- Gwaharddiadau
- Prydau Ysgol am Ddim
- Teithiwr
- Ethnigrwydd
- Cenedligrwydd
- Dyddiad mynediad i'r wlad
- Statws disgyblion sydd yn newydd i addysg Cymru a Lloegr
- Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL)
- Plant sy'n Derbyn Gofal (PMG)
- Data perfformiad addysgol – gan gynnwys canlyniadau arholiadau, asesiadau athrawon a targedau.

5.2 Bydd partneriaid y cytundeb hwn yn sicrhau y bydd yr holl ddata sy'n cael ei ddatgelu a'i gasglu yn ddigonol, yn berthnasol, yn gywir ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sydd ei angen er mwyn bodloni'r diben a nodir.

## 6 Diogelwch Gwybodaeth

6.1 Bydd partneriaid y cytundeb hwn yn sicrhau bod mynediad unigolion i'r data wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd â rheswm dilys i'w weld, ei ddefnyddio neu gael mynediad iddo fel arall. Cymerir mesurau priodol i sicrhau bod y data'n parhau i fod yn gyfrinachol bob amser.

6.2 Rhaid i bartneriaid y cytundeb hwn fod â fframwaith diogelwch priodol a digonol.

6.3 Dylai ymarferwyr sy'n gwneud y swyddogaethau a amlinellir yn y DDA hwn fod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau diogelu data, cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth eu sefydliad a chydymffurfio â nhw.

6.4 Rhaid i'r holl bartneriaid sicrhau y rhoddir hyfforddiant digonol a phriodol ar bynciau diogelu data, cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth i'r holl staff sy'n trin data personol.

## 7 Manylion y datgeliad

| Disgrifiad | Manylion |
|---|---|
| Ffynhonnell y Data | Mae sawl ffynhonell i'r data –<br>• Data sy'n llifo o system rheoli gwybodaeth ysgolion y rhanbarth i borth Llywodraeth Cymru ee Cyfrifiad Disgyblion (CYBLD), Casgliad data Cenedlaethol asesiadau athrawon (CDC), Casgliad Cenedlaethol o ganlyniadau Profion a casgliadau presenoldeb disgyblion.<br>• Data a gynhyrchir a rhyddheir gan Llywodraeth Cymru e.e. canlyniadau arholiadau a sgoriau profion cenedlaethol. |

| | |
|---|---|
| Dulliau Trosglwyddo | Trosglwyddir y data mewn sawl ffordd ddiogel –<br><br>Lawrlwythiadau yn uniongyrchol o borth diogel Llywodraeth Cymru<br><br>Trosglwyddiadau o ffeiliau o'r awdurdodau drwy lawrlwythiadau i yriannanau diogel – gyriant diogel rhanbarthol a Office 365 HWB Cymru |
| Cyrchfan y Data | Cedwir y data ar yriant diogel Cyngor Gwynedd gyda mynediad cyfunedig i dim data GwE yn unig. |
| Amledd | Bydd y data'n cael ei ddatgelu ☐ Bob dydd ☐ Bob wythnos ☐ Bob mis<br><br>Fel arfer gan mai casgliadau blynyddol ydi'r setiau data, cesglir y data unwaith y flwyddyn pan y byddant yn cael ei cyflwyno neu ei gyhoeddi gan Llywodraeth Cymru. Os digwydd i'r data gael ei ddiweddaru cesglir eto er mwyn sicrhau bod y data cywir ar gael. |
| Cyfnod cadw | 17 blwyddyn - Dros gyfnod posib addysgol y plentyn + 3 blynedd fel modd ohrhain datblygiad addysgol y disgyblion. |

## 8 Hawliau Testunau'r Data

8.1 Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu hawliau unigol amrywiol ar gyfer testunau data. Dylid gofyn am gyngor ar sut dylid bodloni'r hawliau hyn gan gynrychiolydd Llywodraethu Gwybodaeth yn y sefydliad, Swyddog Diogelu Data neu gyfwerth. Mae arweiniad penodol ar yr hawliau hyn ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth; www.ico.org.uk

8.2 Dylai partneriaid sicrhau bod testunau data'n cael gwybod sut a pham y bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu a gyda phwy mae'n cael ei rhannu (yr hawl i gael gwybod). Yn ddelfrydol, bydd y wybodaeth hon – a ddarperir yn aml yn yr hyn a elwir yn hysbysiad preifatrwydd – yn cael ei darparu ar y pwynt cyswllt cyntaf. Gall fod yn rhan o ffurflen gofrestru / cydsyniad neu'n ddogfen ar wahân.

8.3 Bydd y partneriaid yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn glir, a dylid bod yn arbennig o ofalus wrth ddibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth, neu wrth weithio gyda phlant, gan fod gofynion ychwanegol i'w hystyried. Mae rhagor o wybodaeth am yr 'hawl i gael gwybod' ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth; www.ico.org.uk

8.4 Bydd gan yr holl bartneriaid bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gynnal cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd gwybodaeth bersonol gan gyfeirio'n benodol at gadw, storio a gwaredu cofnodion.

8.5 Bydd partneriaid yn ymdrin â cheisiadau am wybodaeth sy'n cael eu cofnodi yn y DDA hwn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol pob sefydliad.

8.6 Bydd pob partner yn rhoi gweithdrefn ffurfiol ar waith lle gall testunau data, sefydliadau partner ac ymarferwyr gyfeirio unrhyw gwynion ynghylch data a ddatgelir sy'n cael ei ddogfennu yn y DDA hwn.

8.7 Disgwylir y bydd y sefydliadau sydd ynghlwm â’r DDA hwn yn gweithio gyda’i gilydd i ddiweddaru ei gilydd am unrhyw gwynion neu geisiadau am wybodaeth a dderbynnir gan destunau data neu drydydd partïon. Bydd y sefydliadau hefyd yn rhoi gwybod i’w gilydd am unrhyw broblemau, addasiadau neu geisiadau cysylltiedig i ddileu sy’n cael eu dogfennu yn y DDA hwn, a disgwylir y byddant yn cydweithio i ddatblygu a gwella’r arferion hyn.

## 9. Adolygu

9.1 Bydd y cytundeb hwn yn cael ei adolygu ddwy flynedd ar ôl llofnodi’r ddogfen hon, neu’n gynt os yw hynny’n briodol.

## 10. Llofnod y Cytundeb

| | |
|---|---|
| **Sefydliad sy'n datgelu** | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |
| **Llofnod** | |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad sy'n datgelu** | **Cyngor Sir Ddinbych** |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |
| **Llofnod** | |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad sy'n datgelu** | **Cyngor Sir y Fflint** |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |
| **Llofnod** | |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad sy'n datgelu** | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |
| **Llofnod** | |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad sy'n datgelu** | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |
| **Llofnod** | |

| | |
|---|---|
| **Sefydliad sy'n derbyn** | **Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE)** |
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Dyddiad** | |
| **Llofnod** | |

## 11. Atodiad A – Geirfa Termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Deddf Diogelu Data 2018** | Mae trydedd genhedlaeth y DU o gyfraith diogelu data yn disodli Deddf Diogelu Data 1998. Mae Deddf 2018 yn derbyn y safonau a'r rhwymedigaethau y mae GDPR yn eu gosod a, lle mae GDPR yn caniatáu hynny, yn gwneud darpariaethau penodol sy'n berthnasol ar gyfer y DU.<br><br>Mae Deddf 2018 hefyd yn trosi Cyfarwyddeb Diogelu Data'r UE 2016/680 (Cyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith) yn gyfraith ddomestig yn y DU.<br><br>Mae'n bwysig bod GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yn cael eu darllen ochr yn ochr. |
| **Swyddog Diogelu Data** | Mae angen i rai categorïau o sefydliad, gan gynnwys unrhyw gorff cyhoeddus neu awdurdod (ac eithrio llysoedd yn eu swyddogaeth farnwrol) benodi Swyddog Diogelu Data addas a chymwys. Amlinellir tasgau'r Swyddog yn Erthygl 39 GDPR. |
| **Testun y data** | 'Testun data' yw person naturiol y gellir ei adnabod. Gall sefydliadau gyfeirio at destunau data fel defnyddwyr gwasanaeth, cleifion, cleientiaid, dinasyddion ac ati, ond er cysondeb, mae dogfennau fframwaith WASPI yn cyfeirio at destunau data. |
| **GDPR** | Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn gosod cyfreithiau sy'n berthnasol i ddiogelu unigolion naturiol o ran prosesu data personol a rheolau yn ymwneud â rhyddid i symud data personol. Mae'r Rheoliad hwn yn diogelu hawliau a rhyddid sylfaenol unigolion naturiol ac, yn benodol, eu hawl i ddiogelu data personol. |
| **Data personol** | Mae 'data personol' yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn naturiol adnabyddedig ('testun y data'); mae unigolyn naturiol adnabyddedig yn un a ellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig gan gyfeirio at ddynodydd fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol o ran hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn naturiol hwnnw. |
| **Dynodyddion personol** | Set o fanylion personol sylfaenol sy'n galluogi sefydliadau partner i adnabod testun data. |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth bersonol** | Mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n rhan o ddiffiniad 'data personol' a gwybodaeth am unigolion sydd wedi marw. Nid yw deddfwriaeth diogelu data'n berthnasol i wybodaeth am unigolion sydd wedi marw, ond rhaid i wybodaeth o'r fath gael ei thrin yn gyfrinachol, a dylid cymhwyso WASPI i'r wybodaeth hon. |
| **Ymarferydd** | Term cynhwysol sy'n cyfeirio at y rhai sydd ynghlwm â gofal, addysg, lles testunau data; hynny yw, rhai sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus. |
| **Prosesu data personol** | Mae 'prosesu' yn golygu unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau sy'n cael ei wneud ar ddata personol neu ar setiau o ddata personol, p'un a yw hynny trwy ddulliau awtomeiddiedig ai peidio, fel casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, mofyn, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, dosbarthu neu ei wneud ar gael mewn ffordd arall, alinio neu gyfuno, cyfyngu, dileu neu ddinistrio.' (GDPR Erthygl 4(2)) |
| **Categorïau arbennig o ddata / data sensitif** | Prosesu data personol sy'n datgelu tarddiad hil neu ethnigrwydd, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth o undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometrig at ddibenion adnabod person naturiol unigol, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn naturiol. (GDPR Erthygl 9(1)) |
| **Data am euogfarnau troseddol a throseddau** | Mae gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau y tu hwnt i gwmpas GDPR yn bennaf, a rhaid ei rheoli'n ofalus yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Mewn sefydliadau Gorfodi'r Gyfraith, mae Rhan 3 DDD 2018 yn berthnasol. Dylai pob sefydliad arall gyfeirio at Erthygl 10 GDPR ac Adran 10 DDD 2018. |
| **[Ychwanegwch fwy o dermau yn ôl yr angen]** | |

# 12 Atodiad B – Cofrestr Asedau

| Enw'r Person cyfrifol Responsible Person | Math o Wybodaeth Type of Information | Storio Storage | Gwybodaeth bersonol (rhestrwch) Personal Information (List) | Sail gyfreithiol Legal Basis | Rhybudd preifatrwydd Privacy Notice | Rhannu Gwybodaeth Information Sharing | Cytundeb rhannu/prosesu gwybodaeth Information sharing/processing agreement? | Cyfnodau Cadw Retention Period | Camau diogelwch Security Measures |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwy Sy'n Casglu/Cadw Name of Individaul** | | **Rhowch enw'r system neu nodwch os ydi ar bapur Name the system where the information is stored or note if paper records** | | | | **Nodwch sefydliadau allanol sy'n derbyn y wybodaeth Note all external sources that the information will be shared with** | **Oes angen? Ia neu na Required? Yes/No** | **Nodwch pa mor hir rydych yn cadw'r wybodaeth Mote how long the information is kept** | **(e.e cwpwrdd dan glo system wedi amgryptio) (e.g. - stored in locked cupboard, on secure drives, on encrypted drives)** |
| Rheon Larsen / Sandra Marston-Jones - Uned Data GwE / GwE Data Unit | Data Cyfrifiad Cenedlaethol Disgyblion y Rhanbarth - CYBLD AC EOTAS (Casgliadau Blynyddol Llywodraeth Cymru) *Regional Pupil Census Data - PLASC and EOTAS (Welsh Government Annual Collection)* | Electroneg mewn cronfeydd data wedi cadw ar yrriant dioegel Cyngor Gwynedd *Electronic - Stored in databases on Cyngor Gwynedd* | Data Cyfrifiad Cenedlaethol bob disgybl ar draws y rhanbarth gan gynnwys enw, dyddiad geni, manylion AAA, tarddiad ethnig - Casgliad Blynyddol *Pupil census data including name, DOB, SEN details, ethnic origin. - Annual Collection* | Article 6(e) public task and Article 9(j) research and statistics for special category data . | Ar y ffurflenni'r Ysgolion *On the School application forms* | Neb *None* | Oes *Yes* | 17 blwyddyn - Dros gyfnod posib addysgol y plentyn + 3 blynedd 17 Years - Possible Education period of pupil +3 years | Ar yrriant diogel Cyngor Gwynedd *On Cyngor Gwynedd secure drive* |

Tud. 134

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Data Presenoldeb Disgyblion y Rhanbarth (Casgliad Presenoldeb Llywodraeth Cymru)<br>*Pupil Attendance Data from all 6 authorities in the region (Welsh Government Attendance Collection)* | *secure drives* | Manylion Presenoldeb bod disgybl - Casgliad Blynyddol<br>*Attendance marks for all pupils - Annual Collection* | | | | | | |
| | Data Perfformiad Disgyblion y Rhanbarth ( Casgliadau blynyddol aesiad Gwaelodlin & CDC a dadansoddiadau a data CA4 a CA5 Llywodraeth Cymru)<br>*Pupil Performance Data across the region (Welsh Government Basline Assessment & Nation Data Annual Collections and Key Stage 4 and 5 data and analysis)* | | Manylion Perfformaid bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen (BL2), Cyfnod Allweddol 2 (B6), Cyfnod Allweddol 3 (BL9), Cyfnod Allweddol 4 (BL11) ac yng Nghyfnod Allweddol 5 (BL13) - Casgliad Blynyddol<br>*Details of all pupil performance in the Foudation Phase (Yr2), Key Stage 2 (Yr6), Key Stage 3 (Yr9), Key Stage 4 (Yr11) and in Key Stage 5 (Yr13) - Annual Collection* | | | | | | |
| | Data Profion Cenedlaethol Disgyblion y Rhanbarth (Casgliad blynyddol Llywodraeth Cymru a dadansoddiad sgoriau safonedig disgyblion Llwyodraeth Cymru)<br>*National Test Results for all pupils across the region (Welsh Government Annual Collection and WG standardised score pupil data)* | | Canlyniadau Profion cenedlaethol bob disgybl ar draws y rhanbarth - Casgliad Blynyddol<br>*Welsh National Test Results for all pupils across the region - Annual Collection* | | | | | | |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**
**16 Chwefror 2022**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Calendr Cyfarfodydd 2022-23 |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar galendr cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol.  Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

**9.0 Atodiadau**

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2022/2023

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

"Rwy'n cefnogi'r argymhellion. O safbwynt materion ariannol, mae'r dyddiadau a gynhigir yma ar gyfer cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn caniatáu i GwE gydymffurfio ag amserlenni statudol.
Yn benodol, bydd –

- 13 Gorffennaf 2022 yn amserol ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2021/22 (yn sgil llacio'r amserlen statudol oherwydd parhad yr argyfwng Covid-19),
- 5 Hydref 2022 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2021/22 (eto wedi estyniad i'r amserlen statudol eleni), a
- 15 Chwefror 2023 yn amserol ar gyfer cymeradwyo cyllideb 2023/24 (gan obeithio bydd trefn ariannu Llywodraeth Cymru yn gynt nag amserlen setliad eleni)."

**Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2022/2023**

| CYFARFOD | DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD – i'w cadarnhau |
|---|---|---|---|
| Cyd-Bwyllgor GwE | 13/07/2022 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 05/10/2022 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 23/11/2022 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 15/02/2023 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 24/05/2023 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 12/07/2023 | 10.30 y.b | Zoom/Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |